

DEDDF GALLU MEDDYLIOL 2005

MESURAU AMDDIFFYN AMDDIFADU O RYDDID

*ADENDWM DRAFFT I GOD YMARFER Y
DDEDDF GALLU MEDDYLIOL*

Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf Gallu Meddyliol 2005, sy'n ymdrin â Chymru a Lloegr, yn cynnig fframwaith statudol ar gyfer pobl sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Pan na fydd gan rywun y gallu i wneud penderfyniadau neu weithredu drostynt eu hunain, efallai y bydd raid i bobl eraill wneud y penderfyniadau ar eu rhan. Pan fyddant yn gwneud hyn, ni ddylent amddifadu'r unigolyn sydd heb y gallu o'i ryddid, oni bai ei bod yn hanfodol gwneud hynny er lles yr unigolyn ac er mwyn ei ddiogelwch ei hun.

Mae'r ddogfen hon yn helpu i esbonio sut i ddynodi pan fydd unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid neu dan fygythiad o hynny a sut y gellir osgoi amddifadu o ryddid. Mae hefyd yn esbonio'r mesurau amddiffyn a roddwyd yn eu lle i sicrhau, pan fydd angen amddifadu rhywun o'i ryddid, fod sail gyfreithiol i hynny. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi arweiniad ar beth i'w wneud os bydd unrhyw un yn amau bod rhywun heb allu yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon,

Sut mae'r adendwm hwn yn cysylltu â phrif God Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005?

Mae'r ddogfen hon yn ychwanegu at y canllawiau ym mhrif God Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2007. Adendwm yw i'r prif God, a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â'r Cod hwnnw. Mae'n canolbwyntio'n arbennig ar y mesurau amddiffyn rhag amddifadu o ryddid a ychwanegwyd at Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 (y Ddeddf).

Er bod y mesurau amddiffyn hyn wedi eu crybwyll yn y prif God (yn arbennig ym mhennod 6 a phennod 13), nid oeddynt yn cael eu trafod yn fanwl o gwbl. Digwyddodd hynny oherwydd ar yr adeg y cyhoeddwyd y Cod roedd y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn dal i fynd trwy'r broses seneddol fel rhan o'r Mesur Iechyd Meddwl.¹

Er nad yw'r prif God yn cynnwys y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid, mae egwyddorion y Cod hwnnw - a llawer o'i gynnwys - yn uniongyrchol berthnasol i'r mesurau amddiffyn rhag amddifadu o ryddid. Mae'n bwysig cadw at y Ddeddf a'r prif God pryd bynnag y bydd materion gallu meddyliol a lles gorau, a mesurau amddiffyn rhag amddifadu o ryddid, yn cael eu hystyried. Mae'r

¹ Defnyddiwyd y Mesur Iechyd Meddwl fel modd i ddiwygio Deddf Gallu Meddyliol 2005 i gyflwyno'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.

mesurau amddiffyn rhag amddifadu o ryddid yn ychwanegol at fesurau amddiffyn eraill yn y Ddeddf, ac nid ydynt yn cymryd eu lle.

Cyfeiriadau yn yr adendwm hwn

Yn yr adendwm hwn, cyfeirir at y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 weithiau fel 'y Ddeddf' ac mae unrhyw adrannau a ddyfynnir yn cyfeirio at y Ddeddf hon oni nodir yn wahanol. Dangosir cyfeiriadau fel a ganlyn: adran 4(1). Mae hyn yn cyfeirio at yr adran o'r Ddeddf. Mae rhif yr isadran mewn cromfachau.

Pan gyfeirir at ddarpariaethau o ddeddfwriaeth arall, nodir teitl llawn y Ddeddf berthnasol, er enghraifft 'Deddf Iechyd Meddwl 1983' oni nodir yn wahanol.

Mae unrhyw gyfeiriad at y 'Prif God' yn cyfeirio at God Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 2005.

Sut dylid defnyddio'r adendwm hwn?

Mae'r adendwm hwn yn rhoi arweiniad i unrhyw un sy'n gweithio gydag oedolion a all fod heb y gallu i wneud penderfyniadau penodol a/neu yn gofalu amdanynt, ac sydd mewn sefyllfa lle mae tebygolrwydd y gellir gweld amddifadu o ryddid. Mae'n disgrifio cyfrifoldebau'r gweithwyr neu ofalwyr hyn pan fyddant yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb y gallu i weithredu neu wneud y penderfyniadau hyn eu hunain, yn benodol:

- sut i osgoi amddifadu o ryddid
- sut i ddynodi amddifadu o ryddid, a
- beth i'w wneud pan all fod angen i unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid.

Yn benodol, mae'r adendwm hwn yn canolbwyntio ar y rhai sydd â **dyletswydd gofal** i rywun sydd heb y gallu i gydsynio â'r gofal sy'n cael ei ddarparu, lle gall y gofal gynnwys yr angen i amddifadu'r unigolyn o'i ryddid.

Bwriadwyd yr adendwm hwn hefyd i roi gwybodaeth i bobl sydd, neu a all ddod, dan amodau'r mesurau amddiffyn rhag amddifadu o ryddid, ac ar gyfer eu teuluoedd, ffrindiau a gofalwyr, yn ogystal ag unrhyw un sy'n credu bod rhywun yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon.

Beth mae "heb allu" yn ei olygu?

Un o'r termau pwysicaf yn y prif God a'r adendwm hwn yw 'unigolyn sydd heb allu'. Yn yr adendwm hwn, a thrwy'r prif God, mae gallu unigolyn (neu ddifffyg gallu) yn cyfeirio'n benodol at ei allu i wneud penderfyniad penodol ar yr amser y mae angen gwneud y penderfyniad.

Beth yw statws cyfreithiol yr adendwm hwn?

Yn yr un modd â'r prif God, cyhoeddir yr adendwm hwn gan yr Arglwydd Ganghellor dan adran 42 o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae'n ymdrin â Chymru a Lloegr.

Fe'i bwriadwyd fel canllaw i unigolion sy'n arfer swyddogaeth yng nghyswllt mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid a welir yn Atodlen A1 y Ddeddf, ac i bobl sy'n cael eu penodi fel cynrychiolwyr y bobl berthnasol dan yr Atodlen honno.

Gwelir y gofynion statudol sy'n gysylltiedig â'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid y mae'r adendwm hwn yn cyfeirio atynt yn y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Rhaid cydymffurfio â nhw er mwyn rhoi sail gyfreithiol i amddifadu o ryddid dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005.

Nid yw'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar unrhyw un i 'gydymffurfio' â'r Cod Ymarfer - dylid ei weld fel arweiniad yn hytrach na chyfarwyddyd. Ond os na fyddant wedi dilyn y canllawiau perthnasol yn y Cod yna bydd disgwyl iddynt roi rhesymau da pam eu bod wedi ymddwyn yn wahanol iddo.

Ar gyfer pwy y mae'r adendwm?

Mae gofyn cyfreithiol i gategoriâu penodol o bobl "ystyried" canllawiau perthnasol yn y Cod Ymarfer. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau ei ddilyn wrth weithredu neu wneud penderfyniadau ar ran rhywun sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Dylent fedru esbonio sut y mae eu gweithrediadau neu benderfyniadau yn dilyn y Cod. Mae'n ofynnol iddynt ystyried yr adendwm hwn i'r Cod yn yr un ffordd.

Mae'r categorïau o bobl y mae'n ofynnol iddynt ystyried y Cod Ymarfer yn cynnwys unrhyw un sy'n:

- atwrnai dan Bwerau Atwrneiaeth Barhaol (LPA)
- ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchodaeth
- gweithredu fel Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA)
- yn gwneud gwaith ymchwil a gymeradwywyd yn unol â'r Ddeddf
- gweithredu mewn rôl broffesiynol ar ran, neu yng nghyswllt unigolyn sydd heb allu, neu
- cael eu talu am weithrediadau dros, neu yng nghyswllt unigolyn sydd heb allu.

Mae'r ddau categori olaf yn cynnwys ystod eang o bobl. Gall y bobl sy'n gweithredu mewn rôl broffesiynol gynnwys:

- amrywiaeth o staff gofal iechyd (meddygon, deintyddion, nyrsys, therapyddion, radiolegwyr, parafeddygon ac ati)
- staff gofal cymdeithasol (gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal, ac ati), ac
- eraill a all weithiau fod yn ymwneud â gofal i bobl sydd heb y gallu i wneud y penderfyniad dan sylw, fel criw ambiwlans, gweithwyr tai, neu swyddogion yr heddlu.

Gall y bobl sy'n cael eu talu am weithrediadau dros neu yng nghyswllt unigolyn a all fod heb y gallu gynnwys:

- cynorthwyr gofal mewn cartref gofal
- gweithwyr gofal sy'n darparu gwasanaethau gofal cartref, ac
- eraill sydd wedi cael eu cytundebu i ddarparu gwasanaeth i bobl sydd heb y gallu i gydsynio i'r gwasanaeth hwnnw.

Senarios a ddefnyddir yn yr adendwm hwn

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys blychau yn y testun sy'n cynnwys senarios, gan ddefnyddio cymeriadau a sefyllfaoedd dychmygol. Bwriadwyd y rhain i helpu i ddarlunio beth a olygir yn y prif destun. Ni ddylai'r senarios gael eu cymryd mewn unrhyw fodd fel templedi ar gyfer penderfyniadau y dylid eu gwneud mewn sefyllfaoedd tebyg. Rhaid gwneud penderfyniadau ar sail ffeithiau'r achos unigol bob amser.

Ffuriau eraill a rhagor o wybodaeth

Mae'r adendwm hwn hefyd ar gael yn Saesneg a gellir sicrhau ei fod ar gael mewn ffurfiau eraill os gofynnir amdanynt.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Sut mae'r adendwm hwn yn cysylltu â phrif God Ymarfer Deddf Gallu Meddyliol 2005?.....	2
Cyfeiriadau yn yr adendwm hwn	3
Sut dylid defnyddio'r adendwm hwn?	3
Beth mae 'heb allu' yn ei olygu?.....	3
Beth yw statws cyfreithiol yr adendwm hwn?	4
Ar gyfer pwy mae'r adendwm?	4
Senarios a ddefnyddir yn yr adendwm	5
Ffuriau eraill a rhagor o wybodaeth	5

Cynnwys.....**6**

1. Beth yw'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid a pham eu bod wedi cael eu cyflwyno?	9
Beth yw'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid?.....	9
Sut y mae'r mesurau amddiffyn yn berthnasol i weddill y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005?	10
Pryd gall rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid?	11
Pwy sy'n cael ei gynnwys gan y mesurau amddiffyn hyn?.....	12
Sut mae materion diwylliannol yn cael effaith ar y mesurau amddiffyn?	13
Ble mae'r mesurau amddiffyn yn weithredol?.....	13
Sut mae'r mesurau amddiffyn yn berthnasol i leoliadau gofal preifat?	14
2. Beth yw amddifadu o ryddid?	15
Sut y gall amddifadu o ryddid gael ei ddynodi?	15
Beth ddylai gael ei wneud i osgoi amddifadu o ryddid yn anghyfreithlon?	19
3. Sut a phryd y gellir rhoi caniatâd i amddifadu o ryddid?	22
Sut, yn gryno, y gall amddifadu o ryddid gael ei ganiatáu?	22
Sut y dylai awdurdodau rheoli benderfynu a ddylent wneud cais am ganiatâd	24
Beth yw'r broses ymgeisio?.....	24
Ble dylid anfon ceisiadau?.....	25
Pa gamau sy'n rhaid i'r corff goruchwyliol eu cymryd pan fydd yn derbyn cais am ganiatâd?.....	26
Beth sy'n digwydd pan fydd yr awdurdod rheoli a'r corff goruchwyliol yr un un corff?	30

Pryd y dylid rhoi cyfarwyddyd i EGMA?.....	30
Beth yw'r broses asesu?	34
Pa ddarpariaethau eraill sydd yna yn ymwneud â gwaith yr aseswyr?	45
Pa gamau ddylai'r corff goruchwyliol eu cymryd os yw'r asesiadau'n dod i'r casgliad bod yr unigolyn yn bodloni'r gofynion ar gyfer caniatâd?	45
Pa mor hir all y caniatâd barhau?.....	46
Pa gyfyngiadau sy'n bodoli ar ganiatâd?.....	46
A ellir symud unigolyn i leoliad gwahanol dan ganiatâd safonol?.....	47
Beth sy'n digwydd os bydd asesiad yn dod i'r casgliad nad yw un o'r meini prawf wedi cael ei fodloni?	47
Beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod rheoli a'r comisiynwyr gofal os gwrthodir cais am ganiatâd?.....	48
Dan ba amgylchiadau y gellir rhoi caniatâd brys?	49
Sut a phryd y gellir ymestyn caniatâd brys?	52
4. Beth yw rôl cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?	54
Beth yw rôl cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?.....	54
Sut dylai awdurdod rheoli weithio gyda chynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?	54
Pwy all fod yn gynrychiolydd unigolyn perthnasol?	55
Pryd ddylid dynodi cynrychiolydd unigolyn perthnasol?	56
Sut y dylid dewis cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?.....	56
Sut y dylid penodi cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?	57
Sut y dylai gwaith cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol gael ei gefnogi a'i fonitro?.	58
Dan ba amgylchiadau y gellir dod â phenodiad unigolyn perthnasol i ben?.....	59
5. Pryd ddylai caniatâd gael ei adolygu a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?... ..	62
Pryd ddylai caniatâd safonol gael ei adolygu?	62
Sut y dylid adolygu caniatâd safonol?	63
Beth sy'n digwydd pan fydd caniatâd yn dod i ben?	66
6. Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn meddwl bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb ganiatâd?	68
Pa gamau ddylai rywun eu cymryd os bydd yn meddwl bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb ganiatâd?	68
Sut bydd yr asesiad yn cael ei gynnal?	69
Beth sy'n digwydd wedi i'r asesiad gael ei gynnal?.....	69
7. Beth yw'r Llys Gwarchod a phryd y gall pobl wneud cais iddo?	71
Pryd all pobl wneud cais i'r Llys Gwarchod am y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.....	71

Pa orchmynion all y Llys Gwarchod eu gwneud?.....	72
8. Sut fydd y mesurau amddiffyn yn cael eu monitro?.....	73
Rhestrau gwirio.....	75
Pwyntiau allweddol i gartrefi gofal ac ysbytai (awdurdodau rheoli).....	75
Pwyntiau allweddol i awdurdodau lleol a chyrff GIG (cyrff goruchwyliol).....	76
Pwyntiau allweddol ar gyfer awdurdodau rheoli a chyrff goruchwyliol.....	77
Atodiad A: Beth ddylai awdurdod rheoli ei ystyried cyn gwneud cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid?	79

1. Beth yw'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid a pham eu bod wedi eu cyflwyno?

Ar 5 Hydref 2004, cyhoeddodd y Llys Iawnderau Dynol Ewropeaidd (ECtHR) ei farn yn achos HL v y Deyrnas Unedig (y cyfeirir ato fel arfer fel dyfarniad "Bournemouth"). Mae HL yn unigolyn awtistig difrifol gydag anabledd dysgu, heb y gallu i gydsynio, neu i wrthod cael ei dderbyn i'r ysbyty am driniaeth. Barnodd yr ECtHR ei fod wedi ei **amddifadu o'i ryddid** pan dderbyniwyd ef i'r ysbyty, yn anffurfiol, i Ysbyty Bournemouth. Barnodd yr ECtHR hefyd:

- nid oedd y modd yr amddifadwyd HL o'i ryddid yn unol â'r "gweithdrefnau a bennwyd gan y gyfraith" ac roedd felly, yn groes i Erthygl 5(1) y Confensiwn Iawnderau Dynol Ewropeaidd (ECHR), a
- bod Erthygl 5(4) o'r ECHR wedi ei thorri oherwydd nad oedd HL yn medru gwneud cais i'r llys yn gyflym i weld a oedd amddifadu o ryddid yn gyfreithiol.

Er mwyn atal torri rhagor ar yr ECHR, diwygiwyd y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 i roi amddiffyniad ychwanegol i bobl sydd heb allu meddyliol ac y mae eu gofal neu eu triniaeth o angenrheidrwydd yn golygu eu hamddifadu o'u rhyddid yn ystyr Erthygl 5 yr ECHR, ond sydd naill ai ddim yn cael eu cadw dan orchymyn Deddf Iechyd Meddwl 1983, neu na ellir gwneud hynny. Cyfeirir at y mesurau amddiffyn yn yr adendwm hwn fel "**mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid**".

Beth yw'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid?

- 1.1 Yn gryno, mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn golygu bod rhaid i ysbyty neu gartref gofal ("awdurdod rheoli") geisio caniatâd gan "gorff goruchwyliol" er mwyn medru amddifadu rhywun sydd ag anhwylder meddyliol,² ac sydd heb y gallu i gydsynio, o'u rhyddid, yn yr ystyr a roddir yn Erthygl 5 yr ECHR. Gall y "corff goruchwyliol" fod yn Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd (PCT), awdurdod lleol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Fwrdd Iechyd Lleol (BILI).

Gweler pennod 2 o'r ddogfen hon ar gyfer rhagor o esboniad o'r hyn a olygir wrth amddifadu o ryddid.

- 1.2 Mae'r mesurau amddiffyn hefyd yn ymdrin â:

² Fel y'i diffinnir yn adran 1 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae anhwylder meddyliol yn anhwylder neu anabledd ar y meddwl.

- sut y dylid asesu cais am ganiatâd
- y meini prawf i bennu pryd y dylid rhoi caniatâd
- sut y dylid adolygu unrhyw ganiatâd i amddifadu rhywun o'i ryddid
- dan ba amgylchiadau y gellir adnewyddu caniatâd
- pa gefnogaeth a chynrychiolaeth sy'n rhaid eu darparu i bobl sy'n ddarostyngedig i ganiatâd, a
- sut y gall pobl herio caniatâd.

1.3 Nod y Llywodraeth wrth ddarparu'r mesurau amddiffyn ychwanegol hyn yw dwyn cyfraith y DU i gydymffurfio â'r ECHR ac i ganolbwyntio craffu ychwanegol ar y trefniadau gofal i'r rhai a all gael eu hamddifadu o'u rhyddid, gyda'r nod o'i osgoi pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

1.4 Mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn berthnasol yn benodol i amddifadu o ryddid o fewn ystyr Erthygl 5 yr ECHR. Mae Pennod 2 yr adendwm hwn yn rhoi arweiniad ar ba ffactorau sy'n rhaid eu hystyried i helpu i benderfynu beth sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid ar gyfer y dibenion hyn.

Sut y mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn berthnasol i weddill y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005?

1.5 Rhaid i unrhyw gamau a gymerir dan y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid fod yn unol ag egwyddorion y Ddeddf:

- Rhaid tybio bod gan unigolyn y gallu oni bai ei bod yn cael ei sefydlu nad oes ganddo allu.
- Ni ddylid trin unigolyn fel un sy'n methu gwneud penderfyniad oni bai bod pob cam ymarferol bosibl wedi ei gymryd i'w helpu i wneud hynny heb lwyddiant.
- Ni ddylid trin unigolyn fel un sy'n methu gwneud penderfyniad yn syml oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
- Rhaid i weithred neu benderfyniad gael eu gwneud dan y Ddeddf dros neu ar ran yr unigolyn sydd heb allu gan ystyried ei les.
- Cyn i'r weithred neu benderfyniad gael eu gwneud, rhaid ystyried a ellid cyflawni'r un diben yn effeithiol mewn ffordd sy'n llai cyfyngol ar hawliau'r unigolyn a'i ryddid i weithredu.

Nodir y rhain ym mhennod 2 o'r Prif God ac fe'u hesbonnir yn fwy manwl ym mhenodau 3-6 o'r un ddogfen. Mae Paragraff 5.13 o'r prif God yn cynnwys rhestr wirio o ffactorau sy'n rhaid eu hystyried wrth bennu lles gorau unigolyn.

1.6 Mae'n bwysig cadw at y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 a'r prif God pryd bynnag y bydd materion gallu a lles gorau, a mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu hystyried. Mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn ychwanegol at, ac nid ydynt yn cymryd lle mesurau amddiffyn arall yn y Ddeddf. Mae hyn yn

golygu bod rhaid i benderfyniadau a gweithrediadau a wneir dros unigolyn sy'n ddarostyngedig i ganiatâd amddifadu o ryddid gyflawni gofynion y Ddeddf yn yr un ffordd ag unrhyw unigolyn arall. Caniatâd ar gyfer amddifadu o ryddid yn unig y mae'r caniatâd yn ei roi, er enghraifft, ac nid yw'n caniatáu unrhyw gwrs o driniaeth.

Pryd y gall rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid?

1.7 Mae amddifadu rhywun sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau o'i ryddid yn fater difrifol, ac ni ddylid gwneud penderfyniad yn ysgafn. Mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn ei gwneud yn glir mai'r unig adegau y gellir amddifadu unigolyn o'i ryddid yw:

- er eu lles gorau, a
- phan nad oes dewis arall sy'n llai cyfyngol.

Mae hyn yn golygu na ddylid defnyddio amddifadu o ryddid yn ffurf ar gosbi.

1.8 Mae'r mesurau amddiffyn yn bodoli i gynnig proses gyfreithiol briodol a gwarchodaeth addas yn yr amgylchiadau hynny lle na ellir osgoi amddifadu o ryddid er lles yr unigolyn. Dylid gwneud pob ymdrech, wrth gomisiynu a darparu gofal, i atal amddifadu o ryddid rhag mynd yn rhywbeth na ellir ei osgoi.

1.9 Os na ellir osgoi amddifadu o ryddid, dylai fod am y cyfnod byrraf sy'n angenrheidiol.

1.10 Bydd penderfyniad a yw amddifadu o ryddid yn digwydd neu beidio yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

1.11 Nid yw'n angenrheidiol nac addas gwneud cais am ganiatâd amddifadu o ryddid i bawb sydd yn yr ysbyty neu gartref gofal cofrestredig³ yn syml oherwydd nad oes gan yr unigolyn dan sylw'r gallu i benderfynu a ddylai fod yno. Wrth benderfynu a yw'n angenrheidiol gwneud cais neu beidio, dylai awdurdodau rheoli ystyried yn ofalus a yw'r cyfyngiadau sydd, neu a fydd yn angenrheidiol i ddarparu gofal parhaus yn cyfateb i amddifadu o ryddid pan edrychir arnynt gyda'i gilydd. Os yw'r unigolyn mewn perygl o gael ei amddifadu o'i ryddid, rhaid i'r awdurdod rheoli ystyried a yw'r meini prawf ar gyfer caniatâd yn cael eu bodloni, ac os ydynt, gwneud cais am awdurdod.

³ Trwy'r ddogfen hon, mae'r term 'cartref gofal' yn golygu cartref gofal wedi ei gofrestru dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Pwy sy'n cael ei gynnwys gan y mesurau amddiffyn hyn?

- 1.12 Mae'r mesurau amddiffyn yn berthnasol i bobl sydd, neu sy'n debygol o fod, yn mynd i gael eu hamddifadu o'u rhyddid fel eu bod yn cael gofal neu driniaeth mewn ysbytai neu gartrefi gofal. Pobl yw'r rhain sydd heb y gallu i gydsynio i'r trefniadau a wnaed ar gyfer eu gofal a'u triniaeth, ond y mae derbyn gofal neu driniaeth mewn amgylchiadau sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid yn angenrheidiol i'w gwarchod rhag niwed ac er eu lles gorau. Mae pobl o'r fath yn bennaf yn rhai gydag anableddau dysgu sylweddol, neu bobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu ryw anabledd tebyg, ond bydd hefyd yn cynnwys achosion eraill fel cyflyrau niwrolegol (os oes gan rywun anaf i'r ymennydd er enghraifft).
- 1.13 Ar gyfer dibenion Erthygl 5 o'r ECHR, nid oes unrhyw wahaniaeth mewn egwyddor rhwng amddifadu unigolyn sydd heb allu o'i ryddid ar gyfer ei drin am gyflwr corfforol, a'i amddifadu o'i ryddid ar gyfer triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol. Felly fe fydd achlysuron pan fydd pobl sydd heb y gallu i gydsynio i gael eu derbyn i'r ysbyty yn cael triniaeth ar gyfer salwch corfforol neu anafiadau a gofal sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid.
- 1.14 Ni fydd y mesurau amddiffyn yn berthnasol i'r bobl hynny sydd yn ddarostyngedig i amodau'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae mesurau amddiffyn ar wahân ar gael i warchod unrhyw un a gedwir dan y Ddeddf. Ym Mhennod 13 y prif God mae canllawiau ar y berthynas rhwng y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 a'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Gall y mesurau amddiffyn fod yn berthnasol i unigolyn a gadwyd yn flaenorol i gael triniaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (mewn achos felly, ni fyddai unrhyw hawl i ofal dilynol, dan adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn cael ei effeithio).
- 1.15 Dim ond at bobl 18 oed a hŷn sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer caniatâd y mae'r mesurau amddiffyn yn berthnasol. Os bydd y broblem o amddifadu unigolyn dan 18 oed o'i ryddid yn codi, rhaid ystyried mesurau amddiffyn eraill. Dan yr amgylchiadau hyn, mae pwerau cyfredol y llys, yn arbennig y rhai dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989 yn cynnig mesurau amddiffyn sy'n bodloni gofynion Erthygl 5 yr ECHR. Gellir ystyried defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 hefyd os bydd y meini prawf perthnasol yn cael eu cyrraedd. Nid yw'n angenrheidiol felly gweithredu mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 2005 ar gyfer pobl dan 18 oed.
- 1.16 Mae'r mesurau amddiffyn yn berthnasol ar draws Cymru a Lloegr. Pan fydd pobl yn dod o wledydd eraill i mewn i Gymru a Lloegr, bydd y mesurau amddiffyn yn berthnasol iddynt os byddant yn bodloni'r meini prawf tra byddant yng Nghymru a Lloegr.

Sut y mae materion diwylliannol yn effeithio ar y mesurau amddiffyn?

- 1.17 Ni ddylai'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid gael effaith mewn unrhyw ffordd wahanol ar grwpiau hiliol neu ethnig gwahanol. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw'r darpariaethau'n cael eu gweithredu mewn modd sy'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau hiliol nac ethnig penodol. Awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol ddylai sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y cyswllt hwn ac o'r angen i sicrhau bod y mesurau amddiffyn yn cael eu gweithredu yn deg a chyfartal.
- 1.18 Pan fydd asesiadau amddifadu o ryddid yn cael eu cynnal, rhaid i aseswyr ystyried materion diwylliannol. Felly bydd raid iddynt ddeall sut i ystyried cefndir diwylliannol yr unigolyn perthnasol. Bydd raid i gyrff goruchwyliol gadw hyn mewn cof wrth benodi asesydd addas.
- 1.19 Dylai cyfieithwyr fod ar gael, pan fydd angen hynny, i helpu aseswyr i gyfathrebu, nid yn unig â'r unigolyn perthnasol ond hefyd gyda phobl â diddordeb yn ei ofal a'i driniaeth. Dylai gwybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd eraill pan fydd hynny'n berthnasol.
- 1.20 Dylai unrhyw benderfyniad am gyfarwyddo Eiriolwr Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA) neu gynrychiolwyr unigolion perthnasol yn unol â'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid ystyried cefndir diwylliannol, hiliol ac ethnig yr unigolyn perthnasol.

Ble mae'r mesurau amddiffyn yn berthnasol?

- 1.21 Er bod dyfarniad Bournemouth yn benodol am glaf oedd heb y gallu i gydsynio i gael ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer triniaeth iechyd meddwl, mae i'r dyfarniad oblygiadau ehangach sy'n ymestyn i bobl sydd heb allu ac a all gael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau eraill.
- 1.22 Bydd y mesurau amddiffyn y mae'r Cod hwn yn ymwneud â nhw yn berthnasol lle bynnag y bydd proses asesu wedi dynodi angen i unigolyn sydd heb allu i gael gofal mewn ysbyty neu gartref gofal sy'n ei amddifadu o'i ryddid yn ystyr Erthygl 5 yr ECHR.
- 1.23 Dylai'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yma gynnwys mwyafrif llethol y bobl y mae dyfarniad Bournemouth yn effeithio arnynt. Dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005, dim ond i ysbyty neu gartref gofal cofrestredig y gellir rhoi caniatâd i amddifadu unigolyn sydd heb allu o'i ryddid. NI fydd yn gyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn man arall (yng nghartref yr unigolyn, mewn trefniadau byw gyda chefnogaeth heblaw cartref gofal cofrestredig neu mewn

canolfan ddydd) pan fydd hynny'n dilyn gorchymyn gan y Llys Gwarchod ar fater lles.

Sut y mae mesurau amddiffyn yn berthnasol i leoliadau gofal preifat?

1.24 Dan y Ddeddf Iawnderau Dynol 1998, dim ond i awdurdodau cyhoeddus yn unig y mae'r ddyletswydd i weithredu yn unol â'r ECHR yn berthnasol. Ond, mae'n ofynnol i bob gwladwriaeth wneud yn siŵr bod yr hawliau a nodir yn yr ECHR yn berthnasol i'w holl ddinasyddion. Mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid felly yn berthnasol i leoliadau a drefnir yn gyhoeddus a phreifat ac felly ni fydd amddifadu o ryddid mewn unrhyw ysbyty neu gartref gofal cofrestredig o ganlyniad i naill ai drefniant cyhoeddus neu breifat yn gyfreithlon oni bai bod caniatâd wedi ei roi ar ei gyfer. Ond, os yw'r amddifadu o ryddid yn deillio o orchymyn gan y Llys Gwarchod ar fater lles personol, nid oes angen caniatâd ar wahân.

2. Beth yw amddifadu o ryddid?

Mae ystyr amddifadu o ryddid yn fater ar gyfer y llysoedd ac mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o gyfraith achos hyd yn hyn.

Fe wnaeth yr ECtHR hi'n glir bod y cwestiwn a yw rhywun wedi ei amddifadu o'i ryddid yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos. Yn benodol, dywedodd yr EctHR yn ei ddyfarniad yn Hydref 2004 yn *HL v DU*:

**“... er mwyn pennu a fu amddifadu o ryddid, rhaid cychwyn gyda sefyllfa benodol yr unigolyn dan sylw a rhaid ystyried yr holl ystod o ffactorau sy'n codi mewn achos penodol fel math, hyd, effeithiau a modd gweithredu y cam dan sylw.
Mater o raddfa neu ddwyyster yn unig yw'r gwahaniaeth rhwng amddifadu o ryddid a chyfyngu ar ryddid, nid mater o natur na sylwedd.”**

Wrth sefydlu a oes amddifadu o ryddid wedi digwydd, rhaid ystyried yr holl amgylchiadau ym mhob achos. Nid yw'n bosibl dweud y byddai unrhyw ffactor unigol ar ei phen ei hun yn cyfateb i amddifadu o ryddid neu na allai fyth gyfateb i hynny. Felly ni ellir cynhyrchu unrhyw ddiffiniad syml a fyddai'n berthnasol i bob achos.

Mae'r canllaw hwn yn ceisio crynhoi'r ffactorau a ddynodwyd fel rhai perthnasol gan yr EctHR mewn achosion hyd yn hyn. Bydd raid i staff sy'n defnyddio'r canllaw hwn ystyried y ffactorau hyn wrth asesu a yw unigolyn dan eu gofal yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

Tra ei bod yn bwysig sicrhau bod amddifadu o ryddid yn ystyr Erthygl 5 yr ECHR yn cael ei ddynodi, a'r mesurau amddiffyn wedi eu gweithredu pan fydd hynny'n addas, mae hefyd yn bwysig cofio nad yw amddifadu o ryddid yn digwydd yn syml oherwydd nad oes gan yr unigolyn dan sylw'r gallu i wneud penderfyniadau am ei ofal. Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn rhoi caniatâd i ddefnyddio ataliaeth, pan fydd angen hynny, i roi gofal i unigolyn sydd heb y gallu i roi cydsyniad. Rhaid ystyried yn ofalus a yw'r cyfyngiadau a roddir ar unigolyn yn mynd tu hwnt i ataliaeth ac yn ei amddifadu o'i ryddid mewn gwirionedd, ac os felly, a yw'r cyfyngiadau hyn yn wirioneddol angenrheidiol.

Sut y gall amddifadu o ryddid gael ei ddynodi?

2.1 Yn ei ddyfarniad yn *HL v Deyrnad Unedig* dywedodd ECtHR:

“y ffactor allweddol yn yr achos cyfredol [yw] bod y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd oedd yn trin a rheoli'r ymgeisydd wedi arfer rheolaeth lwyr ac effeithiol dros ei ofal a'i symudiadau”

a bod

“yr ymgeisydd dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ac nid oedd ganddo'r rhyddid i adael”.

- 2.2 Mewn dyfarniadau ar *HL v Y Deyrnad Unedig* ac achosion eraill, mae'r ECtHR wedi dynodi'r ffactorau canlynol fel rhai sy'n cyfrannu at amddifadu o ryddid:
- Defnyddiwyd ataliaeth, gan gynnwys tawelyddion, i dderbyn unigolyn sy'n gwrthsefyll.
 - Fe ddefnyddiodd y staff reolaeth lawn ac effeithiol dros ofal a symudiadau am gyfnod sylweddol.
 - Arferodd y staff reolaeth dros asesiadau, triniaethau, cyswllt a phreswylfa.
 - Fe wnaed penderfyniad y byddai'r unigolyn yn cael ei atal rhag gadael petai'n gwneud ymdrech ystyrlon i wneud hynny.
 - Gwrthodwyd cais gan ofalwyr i'r unigolyn gael ei ryddhau i'w gofal.
 - Nid oedd yr unigolyn yn medru cynnal cysylltiadau cymdeithasol oherwydd y cyfyngiadau a roddwyd ar fynediad at bobl eraill.
 - Fe gollodd yr unigolyn hunan reolaeth oherwydd ei fod dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus.
- 2.3 Yn nhermau'r ECHR dim ond y cyfyngiadau a roddir ar unigolyn gan weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd staff sy'n darparu gofal a thriniaeth all arwain at amddifadu o ryddid. Ni fydd effeithiau corfforol neu seicolegol salwch neu anabledd ynddynt eu hunain yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid.
- 2.4 Mae'r ECtHR hefyd wedi dynodi bod parhad unrhyw gyfyngiadau yn ffactor berthnasol wrth ystyried a yw unigolyn wedi ei amddifadu o'i ryddid neu beidio.
- 2.5 Nid yw'r ffaith y gellid cyfiawnhau cyfyngiadau oherwydd eu bod yn angenrheidiol er diogelwch yr unigolyn yn eu hatal rhag arwain at amddifadu o ryddid yn nhermau'r ECHR.
- 2.6 Nid yw'r ffaith bod unigolyn sydd heb allu yn byw mewn ysbyty neu gartref gofal yn angenrheidiol yn golygu bod yr unigolyn wedi ei amddifadu o'i ryddid, hyd yn oed os bydd yr uned wedi ei chloi neu na fyddai'r staff yn caniatáu i'r unigolyn adael heb gwmni i'w amddiffyn ei hun. Er enghraifft, petai rhywun ond yn medru gadael pan fyddai gyda ffrind, aelod o'r teulu neu ofalwr, neu na fyddai'n cael gadael yng nghanol y nos, neu fod clo neu allweddell electronig ar y drws, ni fyddai hyn ynddo ei hun yn cyfrif fel amddifadu o ryddid.
- 2.7 Wrth asesu a yw unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid, neu a all fod, mae'n rhaid ystyried effaith gyfun yr **holl** gyfyngiadau a roddwyd arno/arni.

- 2.8 Ar sail cyfraith achos sy'n bodoli, gellir ystyried y ffactorau canlynol gan y llysoedd i fod yn berthnasol wrth ystyried a yw amddifadu o ryddid yn digwydd:
- Nid yw'r unigolyn yn cael gadael y cyfleuster.
 - Nid oes gan yr unigolyn unrhyw ddewis am ei fywyd yn y cartref gofal neu ysbyty, neu ychydig iawn o ddewis.
 - Mae'r unigolyn yn cael ei atal rhag cynnal cyswllt gyda'r byd tu allan i'r cartref gofal neu ysbyty.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi enghreifftiau i ddarlunio pob un o'r ffactorau hyn.

Nid yw'r unigolyn yn cael gadael y cyfleuster

- 2.9 Petai unigolyn yn cael ei rwystro rhag gadael cyfleuster o gwbl, boed trwy dynnu sylw, drysau ar glo neu rwystrau, neu oherwydd ei fod yn cael ei arwain i feddwl y byddai'n cael ei atal rhag gadael petai'n ceisio gwneud hynny, byddai hynny yn ffactor perthnasol wrth ystyried a oes amddifadu o ryddid neu beidio.
- 2.10 Nid yw unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn syml oherwydd nad oes ganddo/ganddi'r gallu i adael, neu'r Gallu Meddyliol i lunio bwriad gwirioneddol i adael. Ond gallai rhywun sydd heb naill ai'r gallu corfforol neu feddyliol yn yr ystyr hwn ac nad yw ei ymddygiad yn dangos dymuniad i adael ddal i gael ei amddifadu o'i ryddid petai:
- teulu, ffrindiau neu ofalwyr, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt wneud penderfyniadau dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 yng nghyswllt yr unigolyn, yn cael eu hatal rhag ei symud i leoliad gofal arall neu rhag mynd ag ef/hi allan o gwbl.
 - o ystyried cyfyngiadau eu cyflwr, nid yw'r unigolyn mewn gofal yn cael cyfle rhesymol i fynd tu allan i'r cartref neu ysbyty (gyda chwmni neu ar ei ben ei hun) er y byddai'n bosibl iddo/iddi wneud hynny ac ei bod yn ymddangos yn debygol y byddai yn mwynhau hynny, y byddai'n lleihau ei bryder neu ddigofaint, neu y byddai o fudd iddo/iddi mewn rhyw ffordd arall, neu
 - mae penderfyniad eisoes wedi ei wneud i atal yr unigolyn adael.
- 2.11 Yn achos *DE a JE v Cyngor Sir Surrey (SCC)*, dyfarnwyd bod DE wedi ei amddifadu o'i ryddid ar ffeithiau'r achos. Crynhoir y rhain isod.

Dymunai JE weld ei gŵr DE yn cael ei ryddhau i'w gofal hi o'r cartref gofal i fyw gyda hi, tra bod DE yn barhaus yn gofyn am gael dychwelyd i fyw gyda'i wraig.

Penderfynodd Cyngor Sir Surrey na ddylai hyn ddigwydd dan unrhyw amgylchiadau a chymrodd gamau i atal hynny, yn bennaf trwy arwain JE a DE i

gredu y byddai JE yn cael ei hatal rhag mynd â'i gŵr adref, ac y byddai DE yn cael ei atal rhag gadael y cartref petai'n gwneud hynny.

Dyfarnodd y llys bod Cyngor Sir Surrey yn ymarfer rheolaeth lawn ac effeithiol ar ble y gallai DE fyw, a allai adael y cartref yn barhaol, ac a allai fod gyda JE.

Dan yr amgylchiadau hynny, canfu'r llys bod DE yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

Yn yr achos hwn, nid oedd y drefn ofal yn y cartref yn cyfyngu arno mewn cyfeiriadau eraill.

Ychydig iawn o ddewis am ei fywyd yn y cartref gofal neu ysbyty sydd gan yr unigolyn neu ddim o gwbl

2.12 Gall amddifadu o ryddid ddigwydd pan na fydd unigolyn yn cael caniatâd i wneud unrhyw ddewisiadau o gwbl am faterion fel:

- ble y caiff fod yn y cartref gofal neu ysbyty
- beth all ei wneud
- pwy all gymysgu â nhw, neu
- pryd a beth y caiff ei fwyta.

Gall hyn fod yr un mor berthnasol petai dewisiadau ar gael, ond na fyddai'r gofal fyddai'n cael ei roi i'r unigolyn yn ei alluogi i wneud unrhyw ddewisiadau.

2.13 Os na fydd unigolyn yn cael unrhyw ryddid i symud yn y cartref gofal neu ysbyty, er enghraifft os nad yw'n cael gadael ei ystafell am gyfnodau hir o amser, mae'n debygol ei fod yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Yn yr un modd, gall defnydd cyson o feddyginiaeth neu fan eistedd na all unigolyn godi ohonynt i reoli ymddygiad a symudiad unigolyn olygu ei fod yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

2.14 Mae'n annhebygol y byddai cyfyngiadau na ellir eu hosgoi mewn sefyllfa byw mewn grŵp, ac sy'n berthnasol i'r holl breswylwyr, ynddynt eu hunain yn cyfateb i amddifadu o ryddid ond byddai hyn yn dibynnu ar y cyd-destun a graddau'r cyfyngiadau eraill a roddir ar yr unigolyn dan sylw.

Mae'r unigolyn yn cael ei atal rhag cynnal cyswllt gyda'r byd tu allan i'r cartref preswyl neu ysbyty

2.15 Gall amddifadu o ryddid ddigwydd os gosodir cyfyngiadau ar bwy y gall unigolyn yn y cartref gofal gysylltu â nhw, pwy sy'n cael ymweld ag ef/hi neu pryd y gall ddefnyddio'r teleffon. Yn gyffredinol nid yw hyn yn wir am gyfyngiadau cymesur er budd rhedeg yr uned a'r cleifion/preswylwyr eraill, fel cyfyngiadau cyffredinol ar ymweliadau yn gynnar yn y bore neu yn hwyr yn y nos, neu ar y niferoedd o ymwelwyr ar unrhyw un amser.

2.16 Ond, os mai effaith y cyfyngiadau hyn fyddai torri'r unigolyn i ffwrdd oddi wrth bobl y byddai fel arall yn cadw cysylltiad ag ef/hi, gellid ystyried hyn yn amddifadu o ryddid. Er enghraifft, os bydd teulu neu ffrindiau rhywun ddim yn medru ymweld yn rhesymol heblaw yn hwyr ar fin nos, yna gallai'r cyfyngiadau hyn ar amseroedd ymweld ei dorri i ffwrdd oddi wrth ei deulu ac felly arwain at benderfyniad ei fod yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

Ataliaeth

2.17 Gellir defnyddio ataliaeth yn gyfreithlon wrth dderbyn rhywun neu i roi triniaeth neu ofal dan adran 6 o'r Ddeddf. Os bydd hyn yn angenrheidiol, fe ddylid ei weld fel dangosydd **y gall** dymuniadau unigolyn fod yn cael eu diystyru. Felly, dan yr amgylchiadau hyn dylai'r awdurdod rheoli ystyried a yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid neu beidio (mewn achos felly maent yn gwneud mwy nag atal yr unigolyn a rhaid cael caniatâd).

2.18 Yn achos unigolyn sydd yn yr ysbyty ar gyfer triniaeth iechyd meddwl, mae'r angen am ataliad yn debygol o fod yn arwydd ei fod yn gwrthwynebu'r driniaeth neu'n gwrthwynebu bod yn yr ysbyty. Nid yw unigolyn sy'n gwrthwynebu triniaeth iechyd meddwl yn gymwys ar gyfer caniatâd dan y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid. Os yw'n rhaid eu cadw, dylid ystyried defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Beth ddylai gael ei wneud i osgoi amddifadu o ryddid yn anghyfreithlon?

2.19 Dylai unrhyw un sy'n ymwneud â darparu llety preswyl y gallai'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid effeithio arnynt, i'r graddau mwyaf posibl y mae ystyriaethau diogelwch yn caniatáu, geisio gweithredu trefniadau gofal sy'n hyrwyddo rheolaeth unigolyn dros ei fywyd o ddydd i ddydd a rhoi'r rheolaeth fwyaf iddynt. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o amddifadu o ryddid, ac yn gwella ansawdd bywyd yr unigolyn.

2.20 Dylid gweithredu egwyddorion cynllunio ar sail yr unigolyn - darganfod ffyrdd o wrando ar bobl i ddarganfod beth sydd bwysicaf iddynt a beth sydd arnynt ei eisiau o'u bywydau, a'u helpu i gael y pethau hynny - yng nghyswllt pob unigolyn sydd heb allu meddyliol, boed cais am ganiatâd amddifadu o ryddid yn cael ei geisio neu beidio.

2.21 Mae cael cyfraniad teulu, ffrindiau a gofalywyr yn werthfawr ar bob cam yn y broses o lunio penderfyniadau. Mae adran 4(7)(b) o'r Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 yn ei gwneud hi'n ofynnol ystyried barn unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn neu â diddordeb yn ei les wrth geisio penderfynu beth fyddai orau i'r unigolyn.

- 2.22 Rhaid i ysbytai, cartrefi gofal ac awdurdodau sy'n comisiynu gofal sicrhau bod ganddynt systemau yn eu lle, fel eu bod wrth wneud trefniadau gofal ar gyfer unigolyn sydd heb y gallu i gydsynio i'r trefniadau, yn:
- ystyried a yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid neu beidio yn ôl ystyr Erthygl 5 o'r ECHR, gan ystyried y canllawiau ym mharagraffau 2.1 i 2.16 uchod, ac
 - yn sicrhau bod caniatâd ar gyfer amddifadu o ryddid yn cael ei geisio pan fydd ei angen.
- 2.23 Bydd raid i'r cwestiwn a yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid gael ei adolygu a'i drin yn fanwl pryd bynnag y bydd newid yn digwydd i'r cynllun gofal. Dylid cofnodi manylion pob adolygiad yng nghofnodion iechyd a gofal yr unigolyn.
- 2.24 Os dynodir bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid (neu mewn perygl o hynny), dylid ystyried a ellid rhoi gofal yn ddiogel i'r unigolyn gyda llai o gyfyngiadau arno/arni. Os na ystyrir bod hyn yn ddichonol, felly rhaid ceisio caniatâd **cyn i'r cyfyngiadau gael eu cyflwyno**, ac eithrio mewn argyfwng pan fydd yn rhaid rhoi caniatâd brys pan wneir y cais (gweler paragraff 3.98).

Camau ymarferol i leihau'r risg o amddifadu o ryddid

- 2.25 Mae llawer o ffyrdd y gall darparwyr a chomisiynwyr gofal leihau'r risg o amddifadu o ryddid, trwy gyfyngu'r cyfyngiadau a sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud gan gynnwys yr unigolyn, ei deulu, ffrindiau a gofalwyr. Mae'r rhestr ganlynol yn tanlinellu elfennau o arfer da sy'n debygol o gynorthwyo yn hyn o beth a helpu i osgoi'r risg o her gyfreithiol.
- Dylid gwneud pob penderfyniad (a'i adolygu) mewn modd sydd wedi ei strwythuro, a dylid cofnodi'r rhesymau am y penderfyniadau. Dylai'r protocolau ar gyfer gwneud penderfyniad gynnwys ystyriaeth a all amddifadu o ryddid ddigwydd a sut y gellid ei osgoi.
 - Dylai darparwyr ddilyn arfer da ar gyfer cynllunio gofal (gan gynnwys y Dull Rhaglen Gofal, Proses Asesu Sengl, Cynllunio Sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, a Phroses Asesu Unedig fel sy'n berthnasol) i unrhyw bobl dan eu gofal sydd heb y gallu. Mae hyn yn cynnwys cadw dogfennau ar gyfer pob elfen o'r cynllun, gan gynnwys ennyn cyfraniad teulu, ffrindiau, gofalwyr (cyflogedig a heb gyflog) ac eraill sydd â diddordeb yn lles unigolyn sydd heb allu.
 - Dylid cael asesiad priodol a yw unigolyn heb allu i benderfynu a yw am dderbyn y gofal a gynigir neu beidio. Yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005, ni ddylid cymryd nad oes gan unigolyn allu i wneud penderfyniad. Yn hytrach, dylent gael pob cefnogaeth ymarferol a phriodol i wneud y penderfyniad dan sylw. Mae Pennod 3 o'r prif God yn rhoi

canllawiau manwl ar hyn. Mae'n bwysig hefyd dynodi os yw cyflwr unigolyn wedi gwaethygu ac nad oes ganddynt y gallu bellach i wneud penderfyniad drostynt eu hunain.

- Rhaid i bob penderfyniad a ddylid amddifadu unigolyn o'i ryddid gael eu gwneud yn unol â phum egwyddor y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 a'r gofynion ar gyfer penderfynu lles gorau unigolyn.
- Cyn derbyn unigolyn i ysbyty neu gartref gofal mewn amgylchiadau sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid, dylid bob amser ystyried ffyrdd y gellid bodloni anghenion yr unigolyn mewn ffordd sy'n llai cyfyngol. Rhaid cadw unrhyw gyfyngiadau a roddir ar unigolyn yn yr ysbyty neu mewn cartref preswyl cyn lleied ag sy'n angenrheidiol ym mhob amgylchiad.
- Nid yw caniatâd i amddifadu o ryddid yn ffordd o osgoi gweithredu gweddill y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 yn briodol.
- Rhaid i'r unigolyn sydd heb allu a'i deulu, ffrindiau a gofalwyr fod â mynediad at y wybodaeth briodol am ei ofal. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y rhesymau dros ei dderbyn a'r diben, cynigion i adolygu'r cynllun gofal a deilliant adolygiadau o'r fath, a'r ffordd y gallant herio penderfyniadau (ee trwy'r weithdrefn gwyno berthnasol). Dylid annog cyfraniad gan wasanaethau eiriolaeth lleol pan fyddant ar gael i gefnogi'r unigolyn a'i deulu, ffrindiau a gofalwyr.
- Dylid cymryd camau priodol i helpu'r unigolyn i gadw cysylltiad â'i deulu, ffrindiau a gofalwyr. Os bydd rhesymau da, fydd yn eithriad, pam **nad** yw cadw cysylltiad er lles yr unigolyn, dylai'r rhesymau hynny gael eu cofnodi'n briodol a'u hesbonio i'r bobl y maent yn effeithio arnynt. Dylid gwneud yn glir pa mor hir y bydd y cyfyngiadau'n cael eu cynnal a sut y gellir herio'r penderfyniad.
- Dylid adolygu'r asesiad o allu a'r cynllun gofal yn gyson. Efallai y byddai o fudd cynnwys elfen annibynnol yn yr adolygiad. Bydd ail farn o'r fath yn arbennig o bwysig pan na fydd teulu, ffrindiau neu ofalwyr yn cytuno â phenderfyniad yr awdurdod. Ond hyd yn oed pan nad oes anghydfod, rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r achos sicrhau bod y broses o lunio penderfyniadau yn un a all wrthsefyll craffu arni a'i bod yn cydymffurfio ag egwyddorion y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005.

3. Sut a phryd y gellir rhoi caniatâd i amddifadu o ryddid?

Mae rhai amgylchiadau pan fydd amddifadu rhywun sydd heb allu o'i ryddid yn angenrheidiol i'w warchod rhag niwed ac y byddai er eu lles gorau. Mewn rhai achosion, bydd amddifadu rhywun o'i ryddid er mwyn medru rhoi triniaeth iddo/iddi yn ei amddiffyn rhag niwed. Ond, mae'n bwysig nodi nad yw caniatâd i amddifadu o ryddid ynddo'i hun yn rhoi caniatâd i drin rhywun. Trafodir hyn ym mharagraffau 3.82 i 3.85 o'r bennod hon.

Gall cyrff goruchwyliol (PCT, awdurdodau lleol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru) ganiatáu amddifadu o ryddid. Er mwyn cael caniatâd i amddifadu rhywun o'i ryddid, mae'n rhaid i awdurdodau rheoli (yr ysbyty neu gartref gofal y bydd yr unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid ynddo) wneud cais am ganiatâd gan ddilyn y broses a nodir yn y bennod hon.

Rhaid cael caniatâd safonol cyn i'r amddifadu o ryddid gychwyn, ac eithrio mewn achosion lle bydd yr angen am amddifadu o ryddid yn un y mae cymaint o frys amdano fel ei bod er lles yr unigolyn iddo gychwyn tra bydd y cais yn cael ei ystyried.⁴ Mewn achos felly, gall y cartref gofal neu ysbyty roi caniatâd brys ar gyfer hyd at saith niwrnod (gweler paragraffau 3.98 i 3.116).

Sut, yn gryno, y gall amddifadu o ryddid gael ei ganiatáu?

- 3.1 Yr awdurdod rheoli sydd â'r cyfrifoldeb am wneud cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid.
- Yn achos ysbyty GIG, yr awdurdod rheoli yw'r corff GIG sy'n gyfrifol am redeg yr ysbyty y mae unigolyn yn, neu'n mynd i fod yn, breswlydd ynddo o fewn cwmpas y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.
 - Yn achos cartref preswyl neu ysbyty preifat, yr awdurdod rheoli yw'r unigolyn a gofrestrwyd, neu sy'n ofynnol iddo gofrestru, dan Adran 2 o'r Ddeddf Safonau Gofal 2000 o ran yr ysbyty neu gartref preswyl.

Petai gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol yn ystyried, er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad gofal neu asesiad angen, y dylid gwneud cais am ganiatâd, dylai roi gwybod i'r awdurdod rheoli. Gweler pennod 6 am

⁴ Os bydd unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn gyfreithlon mewn cartref gofal neu ysbyty **o ganlyniad i orchymyn gan y Llys Gwarchod** yng nghyswllt mater sy'n ymwneud â lles yr unigolyn, nid oes angen gwneud cais am ganiatâd. Ond, wedi i'r gorchymyn i'r Llys Gwarchod ddod i ben, cyn y gall amddifadu o ryddid barhau rhaid cael caniatâd gan ddilyn y prosesau a nodir yn y bennod hon.

ganllawiau ar gamau i'w cymryd os oes pryder am amddifadu o ryddid posibl heb ganiatâd.

3.2 Mae corff goruchwyliol yn gyfrifol am ystyried ceisiadau, comisiynu asesiadau a, phan fydd yr holl asesiadau'n cytuno, rhoi caniatâd i amddifadu o ryddid.

- Pan fydd y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu gweithredu i unigolyn mewn ysbyty yn Lloegr, y corff goruchwyliol fydd:
 - os bydd PCT yn comisiynu'r gofal neu driniaeth berthnasol, y PCT hwnnw.
 - os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn comisiynu'r gofal a thriniaeth berthnasol yn Lloegr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu yn unrhyw achos arall, y PCT dros yr ardal y mae'r ysbyty ynnddi.
- Pan fydd y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu gweithredu i unigolyn mewn ysbyty yng Nghymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd y corff goruchwyliol neu Fwrdd Iechyd Lleol **oni bai** bod PCT yn comisiynu'r gofal perthnasol yng Nghymru, mewn achos felly'r PCT fydd y corff goruchwyliol.
- Pan fydd y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu gweithredu i unigolyn mewn cartref preswyl, boed yng Nghymru neu Lloegr, yr awdurdod lleol am yr ardal honno y bydd yr unigolyn yn byw ynnddi fel arfer fydd y corff goruchwyliol. Ond, os nad yw'r unigolyn yn arfer byw yn ardal unrhyw awdurdod lleol, (heb unrhyw gartref sefydlog, er enghraifft) yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r cartref preswyl fydd y corff goruchwyliol.⁵

3.3 Mae dau fath o ganiatâd: safonol a brys. Rhaid i awdurdod rheoli wneud cais am ganiatâd safonol pan fydd yn ymddangos yn debygol, naill ai ar y pryd neu yn ystod y 28 diwrnod nesaf, y bydd rhywun yn cael ei gartrefu yn eu hysbyty neu gartref preswyl mewn amgylchiadau sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid yn ystyr Erthygl 5 yr ECHR. Rhaid i'r cais gael ei wneud i'r corff goruchwyliol. Pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, dylid cael caniatâd ymlaen llaw. Pan na fydd hyn yn bosibl, a bod yr awdurdod rheoli'n credu ei bod yn angenrheidiol amddifadu rhywun o'i ryddid er eu lles **cyn** i'r broses ganiatáu safonol gael ei gorffen, rhaid i'r awdurdod rheoli ei hun roi caniatâd brys a chael caniatâd safonol cyn pen 7 niwrnod calendr (gweler paragraffau 3.98 i 3.116).

⁵ Er mwyn pennu man preswyl arferol, mae'r peirianweithiau arferol dan y Ddeddf Cymorth Cenedlaethol 1948 yn berthnasol. Bydd unrhyw gwestiynau sydd heb eu datrys am breswylfa arferol unigolyn yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan Weinidogion Cymreig. Cyn y penderfyniad rhaid i'r awdurdod lleol a dderbyniodd y cais weithredu fel y corff goruchwyliol, wedi'r penderfyniad rhaid i'r awdurdod lleol lle bydd yr unigolyn yn byw fel arfer ddod yn gorff goruchwyliol.

Sut y dylai awdurdodau rheoli benderfynu a ddylent wneud cais am ganiatâd?

- 3.4 Dylai awdurdodau rheoli fod â gweithdrefn/protocol yn ei le sy'n dynodi:
- pa gamau y dylent eu cymryd i asesu a ddylent geisio caniatâd neu beidio
 - pa gamau y dylent eu cymryd os bydd arnynt angen gwneud cais am ganiatâd
 - sut y dylid cadw materion o'r fath dan adolygiad, a
 - pwy ddylai gymryd y camau angenrheidiol.

Cyn gwneud cais am ganiatâd, rhaid i'r awdurdod rheoli ystyried a yw'r unigolyn yn bodloni'r gofynion cymhwys. Gwelir siart lif y gellid ei defnyddio ar gyfer hyn yn Atodiad A.

Beth yw'r broses ymgeisio?

- 3.5 Pan fydd awdurdod rheoli'n gwneud cais am ganiatâd safonol, rhaid iddo wneud hynny yn ysgrifenedig i'r corff goruchwyliol. Mae'r rheoliadau yn Lloegr⁶ yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gan awdurdod rheoli am ganiatâd safonol gynnwys:
- enw'r unigolyn
 - enw, cyfeiriad a rhif teleffon y cartref gofal neu ysbyty
 - manylion am anhwylder meddyliol yr unigolyn
 - diben yr amddifadiad o ryddid a fwriedir, gan gynnwys cynlluniau gofal ac asesiad angen perthnasol
 - crynodeb o'r cyfyngiadau yr ystyrir eu bod yn cyfateb i amddifadu o ryddid (h.y. pam bod angen y cais)
 - y dyddiad y ceisir y caniatâd amddifadu o ryddid ohono
 - a oes unrhyw un y dylid ymgynghori ag ef sydd ddim yn cael tâl am ddarparu gofal i'r unigolyn (er mwyn hysbysu'r corff goruchwyliol a oes angen EGMA), ac
 - a oes caniatâd brys wedi ei roi ac os oes, pryd y bydd yn dod i ben
- 3.6 Yn ychwanegol, mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid i'r cais gynnwys y wybodaeth ganlynol os yw ar gael neu os gellid ei chael yn rhesymol gan yr awdurdod rheoli heb beri oedi i'r cais:
- cyfeiriad a rhif teleffon cyfredol yr unigolyn os yw'n berthnasol (er enghraifft, os yw'r unigolyn ar hyn o bryd yn byw yn rhywle arall)

⁶ Y rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr yw'r Rheoliadau Deddf Gallu Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwyster, Dewis Aseswyr, Asesiadau, Ceisiadau am Ganiatâd Safonol ac Anghydfod am y Man Preswyllo Arferol) 2008.

Mae Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn ystyried sut y byddant yn defnyddio eu pwerau creu rheoliadau ar gyfer Cymru a bydd y manylion yn cael eu cynnwys pan benderfynir arnynt.

- oedran, rhyw a grŵp ethnig yr unigolyn
- gwybodaeth iechyd arall sy'n berthnasol i amddifadu o ryddid
- materion sy'n ymwneud â chynnal yr asesiadau, er enghraifft cyfathrebu ac anghenion iaith
- enwau, cyfeiriadau cyswllt, rhifau teleffon a chyfeiriadau e-bost y gweithwyr proffesiynol arweiniol sy'n ymwneud â'r achos. Os yw'r amddifadu o ryddid yn golygu newid lleoliad gofal, er enghraifft symud o gartref gofal arall neu ryddhau o'r ysbyty, yna dylai'r manylion cyswllt gynnwys rhai ar gyfer y gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am ofal yr unigolyn yn y lleoliad gofal blaenorol
- enwau a manylion cyswllt ar gyfer teulu, ffrindiau a gwneuthurwyr penderfyniadau o ddydd i ddydd i gysylltu â nhw ar gyfer yr asesiad lles (i'r graddau y mae'r wybodaeth hon ar gael)
- enw a manylion cyswllt unrhyw EGMA sydd wedi ei gyfarwyddo ar hyn o bryd ar gyfer yr unigolyn
- enw a manylion cyswllt unrhyw un sydd â Phwerau Atwrneiaeth Parhaol ar gyfer yr unigolyn
- enw a manylion cyswllt unrhyw ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod ar gyfer yr unigolyn
- a yw'r unigolyn wedi gwneud penderfyniad perthnasol ymlaen llaw i wrthod triniaeth
- a yw'r unigolyn wedi bod yn ddarostyngedig i ganiatâd safonol o'r blaen (mewn achos felly dylai'r dyddiad y daeth y caniatâd blaenorol i ben gael ei roi)
- a yw'r unigolyn yn cael ei gadw dan orchymyn ar hyn o bryd neu a yw'n debygol o gael ei gadw dan orchymyn dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn amodol ar warcheidwaeth neu Driniaeth Gymunedol dan Oruchwyliaeth, neu a yw wedi ei ryddhau'n amodol o gael ei gadw dan orchymyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Bydd ffurflen safonol ar gael ar gyfer y diben hwn.⁷

Os yw'r cais yn ymwneud ag adnewyddu caniatâd, nid oes raid ail-ddarparu gwybodaeth na fydd wedi newid.

Ble dylid anfon ceisiadau?

3.7 Os yw'r cais yn cael ei wneud gan gartref gofal:

- Os yw'n hysbys bod y gofal yn cael ei gomisiynu gan neu ar ran awdurdod lleol, yna dylid anfon y cais at yr awdurdod lleol hwnnw.

⁷ Bydd teitlau ffurflenni ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu cynnwys yn y ddogfen derfynol

- Os nad yw'r gofal yn cael ei gomisiynu gan neu ar ran awdurdod lleol, dylid anfon y cais i'r awdurdod lleol y mae'r unigolyn yn byw yn ei ardal ar hyn o bryd.
- Os nad yw'r cartref gofal yn gwybod ble mae'r unigolyn yn byw ar hyn o bryd, neu os nad yw'r unigolyn yn byw yng Nghymru na Lloegr, dylid anfon y cais i awdurdod lleol y cartref gofal.

Os yw'r cais yn cael ei wneud gan ysbyty:

- Os yw'r gofal yn cael ei gomisiynu gan PCT, dylid anfon y cais i'r PCT hwnnw
- Os yw'r gofal yn cael ei gomisiynu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Fwrdd Iechyd Lleol, dylai'r cais gael ei anfon at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Mewn unrhyw achos arall, er enghraifft gofal sy'n cael ei gomisiynu yn breifat, dylai'r cais gael ei anfon at y PCT ar gyfer yr ardal lle mae'r ysbyty berthnasol.

Gall cais sy'n cael ei anfon at y corff goruchwyliol anghywir gael ei drosglwyddo i'r corff goruchwyliol cywir heb i'r awdurdod rheoli orfod ail ymgeisio. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes unrhyw oedi wrth ymdrin â'r cais.

- 3.8 Dylai'r awdurdod rheoli ddweud wrth deulu, ffrindiau a gofalwyr yr unigolyn perthnasol ei fod wedi gwneud cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid. Rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn perthnasol neu sydd â diddordeb yn ei les, neu sydd wedi cael ei enwi ganddo/ganddi fel unigolyn i ymgynghori ag ef, gael y cyfle i roi eu barn i'r asesydd lles (gweler paragraffau 3.43-3.58 am y broses asesu lles gorau) cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol a phriodol. Dylid ystyried barn yr unigolyn perthnasol o ran pwy ddylai gael gwybod ac â phwy y dylid ymgynghori.
- 3.9 Rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyliol os yw'n dod i'r casgliad nad oes neb y byddai'n briodol ymgynghori ag ef/hi wrth bennu ar les gorau'r unigolyn, ac eithrio pobl sy'n rhoi gofal a thriniaeth i'r unigolyn perthnasol yn broffesiynol neu am gyflog. Mewn achos felly, rhaid i'r corff goruchwyliol gyfarwyddo EGMA i gynrychioli a chefnogi'r unigolyn perthnasol (gweler paragraffau 3.25 i 3.30 isod.)

Pa gamau sy'n rhaid i'r corff goruchwyliol eu cymryd pan fydd yn derbyn cais am ganiatâd?

- 3.10 Dylai cyrff goruchwyliol fod â gweithdrefn/protocol yn ei le sy'n dynodi pa gamau y dylent eu cymryd wedi derbyn cais am ganiatâd safonol, pwy ddylai ei gwneud a chyn pen pa gyfnod. Cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol, dylent

roi gwybodaeth i'r awdurdodau rheoli am y weithdrefn a rhoi'r manylion cyswllt perthnasol iddynt ar gyfer gwneud cais.

3.11 Wedi derbyn cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid, dylai'r corff goruchwyliol, cyn gynted ag y mae'n ymarferol a phosibl:

- ystyried a yw'r cais yn briodol ac y dylid ei ddilyn. a
- cheisio unrhyw wybodaeth bellach sy'n ofynnol gan yr awdurdod rheoli i helpu gyda'r penderfyniad.

Os oes gan y corff goruchwyliol unrhyw amheuan am symud ymlaen gyda'r cais, dylai geisio eu datrys gyda'r awdurdod rheoli.

Ceisiadau ymlaen llaw am ganiatâd

3.12 Gall caniatâd safonol ganiatáu i ganiatâd ddod i rym ar amser penodol wedi ei roi, er enghraifft, pan fydd caniatâd yn cael ei geisio fel rhan o gynllunio gofal, fel cynllunio i ryddhau o ysbyty. Ond ni ellir rhoi caniatâd yn rhy bell ymlaen llaw gan y gall hyn olygu na fyddai asesydd yn medru gwneud asesiad cywir o amgylchiadau'r unigolyn erbyn yr amser y bydd y caniatâd yn dod i rym.

3.13 Gellid cael achosion lle mae'r corff goruchwyliol yn ystyried bod cais am ganiatâd wedi cael ei wneud yn rhy bell ymlaen llaw. Gall hyn olygu na allai asesydd wneud asesiad cywir o'r hyn fydd amgylchiadau'r unigolyn erbyn y cyfnod pan ddaw'r caniatâd i rym. Mewn achos o'r fath, gall y corff goruchwyliol gytuno gyda'r awdurdod rheoli y dylid tynnu'r cais yn ôl, i'w ail gyflwyno ar amser mwy addas yn ddiweddarach.

Cael asesiadau

3.14 Cyn gynted ag y bydd y corff goruchwyliol wedi cadarnhau y dylid dilyn cais, rhaid iddo gael yr asesiadau perthnasol i bennu a yw gofynion cymhwyso'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu bodloni. Rhaid i'r asesiadau gael eu cwblhau cyn pen 21 diwrnod, neu 7 niwrnod os rhoddwyd caniatâd brys. Yr asesiadau (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.31 i 3.74 isod) yw:

- asesiad oedran (paragraffau 3.32 i 3.33)
- asesiad iechyd meddwl (paragraffau 3.34 i 3.38)
- asesiad gallu meddyliol (paragraffau 3.39 i 3.42)
- asesiad lles gorau (paragraffau 3.43 i 3.58)
- asesiad cymhwyster (paragraffau 3.59 i 3.70) ac
- asesiad dim gwrthodiad (paragraffau 3.71 i 3.74).

Os nad yw'r corff goruchwyliol yn yr un lle â'r cartref gofal neu ysbyty, dylai drefnu i ddefnyddio asesydd sy'n gweithio yn ardal yr unigolyn.

3.15 Os oes “asesiad cyfatebol” i unrhyw un o’r asesiadau hyn wedi ei wneud yn barod, gellir dibynnu ar hwnnw yn hytrach na chael asesiad newydd. Enghraifft o hyn fyddai asesiad diweddar a wnaed ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Asesiad cyfatebol yw asesiad sydd:

- wedi ei gynnal yn y 12 mis blaenorol, ddim o angenrheidrwydd ar gyfer dibenion caniatâd amddifadu o ryddid
- yn bodloni holl ofynion yr asesiad amddifadu o ryddid (mae’n annhebygol y byddai’r holl ofynion yn cael eu bodloni ar gyfer asesiad lles gorau), ac
- yn dderbyniol gan y corff goruchwylol a’i fod yn gweld dim rheswm pam na ddylai fod yn gywir bellach.

Dylid bod yn ofalus iawn wrth benderfynu defnyddio asesiad cyfatebol ac ni ddylid gwneud hyn fel mater o arfer. Cynghorir cyrff goruchwylol i gofnodi’r rhesymau os gwneir penderfyniad i ddefnyddio asesiad cyfatebol. Pan fydd yr asesiad gofynnol yn asesiad oedran, nid oes cyfyngiad amser ar ddefnyddio asesiad cyfatebol.

3.16 Mae’r rheoliadau i Loegr yn nodi bod yn rhaid i’r holl asesiadau sy’n ofynnol ar gyfer caniatâd safonol gael eu cwblhau cyn pen 21 diwrnod calendr o’r dyddiad y mae’r corff goruchwylol yn derbyn cais gan awdurdod rheoli.

3.17 Ond, os oes caniatâd brys eisoes mewn grym, rhaid i’r asesiadau gael eu cwblhau cyn i’r caniatâd hwnnw ddod i ben. Gellir rhoi caniatâd brys am gyfnod cychwynnol o saith niwrnod, a gallant, mewn amgylchiadau eithriadol, gael eu hystyngyn gan y corff goruchwylol i hyd at saith niwrnod arall.

Lleiafswm nifer, annibyniaeth ac addasrwydd aseswyr

3.18 Disgwylir iddi fod yn anarferol gweld chwe asesydd gwahanol a hefyd, tra bod raid i aseswyr wneud eu penderfyniadau unigol eu hunain, efallai y bydd cyfleoedd iddynt weithio gyda’i gilydd mewn ffordd sy’n lleihau’r baich ar yr unigolyn sy’n cael ei asesu. Ond, er mwyn sicrhau bod graddau addas o wrthrychedd yn cael eu dwyn i’r broses asesu ac i osgoi’r risg y bydd penderfyniadau mympwyol yn cael eu gwneud am amddifadu o ryddid:

- **Rhaid** cael lleiafswm o ddau asesydd.
- **Rhaid** i’r asesydd iechyd meddwl a lles gorau fod yn ddau unigolyn gwahanol.
- Gall yr asesydd lles gorau fod yn weithiwr i’r corff goruchwylol neu awdurdod rheoli ond **rhaid iddo beidio** bod yn ymwneud â naill ai gofal yr unigolyn y mae’n ei asesu, na phenderfynu ar ei g/ofal ef/hi. Ni all chwaith fod yn aelod o staff y cartref gofal dan sylw, pan fydd yr asesiad yn ymwneud â lleoliad mewn cartref gofal, nac, yn achos lleoliad mewn ysbyty, ar staff yr ysbyty dan sylw. Pan na fydd yn glir a yw’r asesydd a gynigir yn

cael ei gyflogi yn yr ysbyty dan sylw, er enghraifft os bydd yr unigolyn yn gweithio o rywle arall ond ar gytundeb i weithio rhai sesiynau yn yr ysbyty, dylai'r corff goruchwyliol gael ei arwain gan y nod o osgoi unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

- **Ni ddylid** defnyddio asesydd lles gorau posibl os bydd yn darparu triniaeth neu ofal i'r unigolyn perthnasol neu ei fod mewn sefyllfa rheoli llinell i'r gweithiwr proffesiynol sy'n cynnig amddifadu o ryddid neu i'r asesydd iechyd meddwl. (Gweler hefyd baragraff 3.24 isod sy'n ymdrin ag achosion pan fydd y corff goruchwyliol a'r awdurdod rheoli yr un corff.)
- Ni all unrhyw un o'r aseswyr fod â buddiant ariannol personol yng ngofal yr unigolyn y maent yn ei asesu.
- **Ni chaiff** yr asesydd fod yn berthynas agos i'r unigolyn sy'n cael ei asesu nac yn berthynas agos i unigolyn gyda buddiant ariannol personol yng ngofal yr unigolyn. Ar gyfer y diben hwn, 'perthynas agos' yw:
 - gŵr neu wraig, partner sifil neu bartner, neu eu plant rhiant neu blentyn
 - brawd neu chwaer, neu eu plant taid/nain neu wŷr/wyres
 - llystad neu lysfam, neu hanner brawd neu hanner chwaer.

3.19 Mae'r ffactorau perthnasol eraill y dylai cyrff goruchwyliol eu hystyried wrth benodi aseswyr yn cynnwys:

- y rheswm dros amddifadu o ryddid
- a oes gan yr asesydd posibl brofiad o weithio gyda'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth y mae'r unigolyn sy'n cael ei asesu yn rhan ohono, er enghraifft profiad o weithio gyda phobl hŷn os yw'r unigolyn sy'n cael ei asesu yn unigolyn hŷn, ac
- a oes gan yr asesydd posibl brofiad o weithio gyda phobl o'r un cefndir diwylliannol â'r unigolyn sy'n cael ei asesu.

3.20 Bydd yn rhaid i gyrff goruchwyliol sicrhau bod digon o aseswyr ar gael i fodloni anghenion y rhai yn eu hardal a bod ganddynt y sgiliau, cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol dan y rheoliadau i gyflawni'r swyddogaeth. Bydd ystyried cydbwysedd eu profiad yn hanfodol er mwyn cael aseswyr addas ar gael ar gyfer yr amrywiaeth o achosion y gellir eu rhagweld. Bydd yn ddefnyddiol cadw cofnod o aseswyr cymwys a'u profiad a'u hargaeledd. Dylai cyrff goruchwyliol ystyried pa drefniadau sy'n rhaid eu rhoi yn eu lle er mwyn i aseswyr gael cyfleoedd addas i gynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth (o ddatblygiadau cyfreithiol, er enghraifft) a rhannu, archwilio ac adolygu eu harfer.

- 3.21 Mae aseswyr yn gweithredu fel gweithwyr proffesiynol unigol ac maent yn atebol yn bersonol felly am eu penderfyniadau. Rhaid i awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol beidio ceisio pennu na dylanwadu ar eu penderfyniadau.
- 3.22 Nid oes rheswm mewn egwyddor pam na all asesiadau (pan fydd yn berthnasol) gynnwys mwy na gofyn am gymhwyster penodol. Er enghraifft, os gellir cyfuno asesiad yn ddefnyddiol gyda chyfweliad neu archwiliad ar gyfer cais posibl dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu ar gyfer darparu gwasanaeth, yna dylid eu cyfuno i osgoi beichiau diangen ar yr unigolyn sy'n cael ei asesu ac ar y staff.

Gwarchod rhag rhwymedigaeth

- 3.23 Ni all ac ni ddylai neb gynnal asesiad, heblaw asesiad oedran, oni bai bod ganddynt indemniad o ran unrhyw rwymedigaethau a allai godi yng nghyswllt cynnal yr asesiad.

Beth sy'n digwydd pan fydd yr awdurdod rheoli a'r corff goruchwyliol yr un corff?

- 3.24 Nid yw'r ffaith bod un corff yn gorff goruchwyliol ac awdurdod rheoli – er enghraifft, pan fydd yr awdurdod lleol ei hun yn darparu cartref gofal preswyl, yn hytrach na phrynu'r gwasanaeth gan gorff arall – yn ei atal rhag gweithredu yn y ddwy swyddogaeth. Ond, yn Lloegr, mae'r rheoliadau yn dynodi, mewn sefyllfa o'r fath, na all asesydd lles gorau fod yn weithiwr i'r corff goruchwyliol/sy'n rheoli. Er enghraifft, mewn achos sy'n ymwneud â chartref gofal awdurdod lleol, gallai'r asesydd lles gorau fod yn weithiwr GIG neu yn ymarferwyr annibynnol.

Pryd y dylid rhoi cyfarwyddyd i EGMA?

- 3.25 Os nad oes neb addas i ymgynghori ag o, heblaw'r bobl sy'n darparu gofal neu driniaeth i'r unigolyn perthnasol fel swydd broffesiynol⁸ neu am dâl, rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyliol pan fydd yn cyflwyno'r cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid. Rhaid i'r corff goruchwyliol wedyn gyfarwyddo EGMA ar unwaith i gynrychioli'r unigolyn. Mae'n arbennig o bwysig i'r EGMA gael ei gyfarwyddo yn gyflym os bydd caniatâd brys wedi ei roi.
- 3.26 Mae Pennod 10 (Beth yw'r Gwasanaeth Eiriolaeth Meddyliol Annibynnol newydd a sut mae'n gweithio?) o'r prif God yn disgrifio hawliau ehangach a rôl EGMA. Ond, mae gan EGMA a dderbyniodd gyfarwyddyd ar y cyfnod cychwynnol hwn yn y broses mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid hawliau a chyfrifoldebau ychwanegol o'i gymharu ag EGMA sy'n derbyn cyfarwyddyd dan

⁸ Ni ystyrir bod ffrind neu aelod o'r teulu yn gweithredu mewn rôl broffesiynol yn syml am eu bod wedi cael eu penodi yn gynrychiolydd yr unigolyn ar gyfer caniatâd blaenorol.

Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 yn fwy cyffredinol. Mae gan EGMA yn y cyd-destun hwn yr hawl i:

- roi gwybodaeth neu wneud cyflwyniadau i aseswyr, y mae'n rhaid i aseswyr eu hystyried wrth gynnal eu hasesiadau.
- dderbyn copïau gan y corff goruchwyliol o unrhyw asesiadau amddifadu o ryddid y mae'r corff goruchwyliol wedi eu derbyn.
- dderbyn copi o ganiatâd safonol, os caiff ei ganiatáu, gan y corff goruchwyliol.
- gael ei hysbysu gan y corff goruchwyliol os na fydd yn medru rhoi caniatâd safonol oherwydd na wnaeth yr holl asesiadau amddifadu o ryddid gyrraedd casgliad cadarnhaol.
- dderbyn copi o unrhyw ganiatâd brys gan yr awdurdod rheoli.
- dderbyn copi o rybudd yn gwrthod ymestyn hyd caniatâd brys gan y corff goruchwyliol.
- dderbyn copi o rybudd bod caniatâd brys wedi peidio bod mewn grym gan y corff goruchwyliol, a
- gwneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i fynd ag achos yr unigolyn perthnasol i'r Llys yng nghyswllt mater sy'n ymwneud â rhoi neu wrthod caniatâd safonol neu frys (yn yr un modd ag unrhyw drydydd parti arall).


Disgrifir y broses asesu a chaniatáu yn ddiweddarach yn y bennod hon.

- 3.27 Bydd raid i EGMA ymgyfarwyddo ag amgylchiadau'r unigolyn y mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu gweithredu er ei fwyn, ac ystyried beth ddylai ei ddweud wrth unrhyw un o'r aseswyr yn ystod y broses asesu. Bydd raid iddo hefyd ystyried a oes ganddo unrhyw bryderon am ganlyniad y broses asesu.
- 3.28 Dylid datrys unrhyw wahaniaeth barn rhwng EGMA ac asesydd, yn ddelfrydol, tra bod yr asesiad yn dal i fynd yn ei flaen. Pan fydd anghytundeb sylweddol rhwng EGMA ac un neu fwy o'r aseswyr na ellir ei ddatrys rhyngddynt, dylai'r corff goruchwyliol gael gwybod cyn i'r asesiad gael ei gwblhau. Gallai'r corff goruchwyliol wedyn ystyried pa gamau allai fod yn briodol, gan gynnwys efallai alw cyfarfod i drafod y mater. Pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, dylid gosod yr amcan o ddatrys gwahaniaethau barn yn anffurfiol er mwyn cadw'r nifer o achlysuron y mae'n angenrheidiol i'r EGMA wneud cais i'r Llys Gwarchod cyn lleied ag sy'n bosibl.
- 3.29 Bydd raid i EGMA hefyd ystyried a oes ganddo/ganddi bryderon am roi caniatâd brys, ac a fyddai'n addas herio rhoi caniatâd o'r fath trwy'r Llys Gwarchod.
- 3.30 Wedi i gynrychiolydd unigolyn perthnasol gael ei benodi (gweler pennod 4), mae rôl yr EGMA yn mynd yn llai. Ond, gall yr EGMA ddal i wneud cais i'r Llys

Gwarchod am hawl i fynd ag achos yr unigolyn perthnasol i'r Llys yng nghyswllt rhoi caniatâd safonol, ond wrth wneud hynny, rhaid i'r EGMA ystyried barn cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol ar y mater. Gall EGMA hefyd gael ei gyfarwyddo yn ystod bylchau ym mhenodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol (er enghraifft, os bydd angen chwilio am gynrychiolydd newydd – gweler paragraffau 4.33 i 4.36). Gellir cyfarwyddo EGMA hefyd i gynorthwyo'r unigolyn perthnasol a'i gynrychiolydd naill ai ar eu cais neu os bydd corff goruchwyliol yn credu y bydd penodi EGMA yn helpu i sicrhau bod hawliau'r unigolyn yn cael eu gwarchod (gweler paragraffau 4.37- 4.41).

Crynodeb: Siart llif o'r prosesau

Mae'r siart llif ganlynol yn rhoi trosolwg o sut y dylai'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid weithredu. Mae'r paragraffau dilynol yn esbonio'r asesiadau yn fanwl.



Beth yw'r broses asesu?

3.31 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.14 uchod, mae chwe asesiad y mae'n rhaid eu cynnal cyn y gall corff goruchwylol roi caniatâd. Yr asesiadau yw oedran, iechyd meddwl, gallu meddyliol, lles gorau, cymhwyster a dim gwrthodiad. Mae'r adran hon yn esbonio'r broses asesu.

Asesiad oedran

3.32 Diben yr asesiad oedran yn syml yw cadarnhau a yw'r unigolyn perthnasol yn 18 oed neu hŷn. Mae hyn yn wir oherwydd, fel y mae paragraff 1.15 yn esbonio, dim ond i bobl 18 oed a hŷn y mae'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn berthnasol. Ar gyfer pobl dan 18 oed, mae proses wahanol o fesurau amddiffyn yn bodoli. Mewn achosion lle bydd amheuaeth, dylid pennu'r oedran trwy dystysgrif geni neu dystiolaeth arall o oedran y mae'r asesydd yn ei ystyried yn ddibynadwy.

3.33 Gall unrhyw un y mae'r corff goruchwylol yn ei gredu sy'n addas wneud yr asesiad hwn. Mae hyn yn cynnwys unigolyn sy'n cynnal un neu fwy o'r asesiadau eraill.

Asesiad iechyd meddwl

3.34 Diben yr asesiad iechyd meddwl yw sefydlu a yw unigolyn perthnasol yn dioddef o anhwylder meddyliol yn yr ystyr a roddir yn Neddf Iechyd Meddwl 1983. Ond, mae'r asesiad yn diystyru'r ddarpariaeth arbennig yn y Ddeddf yng nghyswllt unigolion gydag anabledd dysgu. Mae hyn yn golygu bod unigolyn gydag anabledd dysgu yn medru derbyn mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid, os yw'n addas a bod yr asesiadau eraill yn gadarnhaol, boed ei anabledd yn gysylltiedig ag ymddygiad sy'n abnormal o ymosodol neu'r ddifrifol ac anghyfrifol. Nid yw hwn yn asesiad i bennu a oes ar unigolyn angen triniaeth iechyd meddwl.

3.35 Ar gyfer cyrff goruchwylol yn Lloegr, mae'r rheoliadau yn nodi:

- rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal gan feddyg, a
- mae'n rhaid i'r meddyg sy'n asesu naill ai fod wedi ei gymeradwyo dan Adran 12 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu fod yn ymarferwr meddygol cofrestredig sydd â phrofiad arbennig mewn diagnosis a thrin anhwylder meddyliol.

Boed yr asesydd wedi ei gymeradwyo dan Adran 12 neu beidio, rhaid iddo/iddi fod wedi cwblhau hyfforddiant asesydd iechyd meddwl Deddf Gallu Meddyliol 2005.

3.36 Rhaid i gyrff goruchwylol fod yn fodlon bod gan yr asesydd y sgiliau gofynnol ar gyfer y rôl a dylai ystyried y canllawiau a gynhyrchwyd ar y medrau

angenrheidiol. Rhaid i gyrff goruchwyliol ystyried addasrwydd yr asesydd a benodir i achos penodol, er enghraifft a oes ganddynt brofiad sy'n berthnasol i gyflwr yr unigolyn.

- 3.37 Dylai gyrff goruchwyliol ystyried defnyddio meddyg sy'n gymwys i gynnal yr asesiad ac sydd eisoes yn adnabod yr unigolyn perthnasol i gynnal yr asesiad hwn os byddant y meddwl y bydd o fudd. Byddai hyn yn codi yn bennaf petai'n cael ei hystyried mai gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i gynnal asesiad dibynadwy, gan ddefnyddio'r wybodaeth am yr unigolyn a gafwyd dros gyfnod o amser. Gall fod o gymorth hefyd wrth leihau unrhyw boen meddwl y gellir ei achosi i'r unigolyn os bydd yn cael ei asesu gan rywun nad yw yn ei adnabod.
- 3.38 Mae'n ofynnol i'r asesydd iechyd meddwl ystyried sut y mae amddifadu o ryddid yn debygol o effeithio ar iechyd meddwl yr unigolyn sy'n cael ei asesu, ac i roi adroddiad ar ei gasgliadau i'r asesydd lles gorau. Ni all asesiadau iechyd meddwl a lles gorau gael eu cynnal gan yr un unigolyn.

Asesiad gallu meddyliol

- 3.39 Diben yr asesiad gallu meddyliol yw sefydlu nad oes gan yr unigolyn perthnasol y gallu i gydsynio i'r trefniadau a gynigir ar gyfer ei ofal.
- 3.40 Mae adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf yn nodi sut y dylid penderfynu ar allu unigolyn i wneud penderfyniadau. Mae Pennod 4 o'r prif God (Sut mae'r Ddeddf yn diffinio gallu unigolyn i wneud penderfyniad a sut y dylai gallu gael ei asesu?) yn rhoi arweiniad pellach ar ffyrdd o asesu gallu. Wrth asesu gallu unigolyn sy'n cael ei ystyried ar gyfer y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid, dylid dilyn y canllawiau hyn.
- 3.41 Mae'r rheoliadau ar gyfer Lloegr yn nodi y gall unrhyw un sy'n gymwys i weithredu fel asesydd iechyd meddwl neu les gorau gynnal asesiad gallu meddyliol. Wrth benderfynu pwy i'w benodi ar gyfer yr asesiad hwn, dylai'r corff goruchwyliol ystyried yr angen am ddealltwriaeth a phrofiad ymarferol o natur cyflwr yr unigolyn a'i effaith ar lunio penderfyniadau.
- 3.42 Yn yr un modd ag asesiad iechyd meddwl, dylai gyrff goruchwyliol ystyried defnyddio gweithiwr proffesiynol cymwys sydd eisoes yn adnabod yr unigolyn perthnasol i gynnal yr asesiad hwn os byddant yn credu y byddai o fudd.

Asesiad lles gorau

- 3.43 Diben yr asesiad lles gorau yw sefydlu yn gyntaf a oes amddifadiad o ryddid yn digwydd, neu'n mynd i ddigwydd, ac os felly, a yw:
- er lles gorau'r unigolyn perthnasol i gael ei amddifadu o'i ryddid

- ei bod yn angenrheidiol iddo gael ei amddifadu o'i ryddid er mwyn atal niwed iddo'i hunan, a
- bod amddifadiad o ryddid o'r fath yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd i'r unigolyn perthnasol ddioddef niwed a difrifoldeb y niwed hwnnw.

3.44 Yn Lloegr, rhaid i asesiad lles gorau amddifadu o ryddid gael ei gynnal gan weithiwr iechyd meddwl proffesiynol a gymeradwywyd neu weithiwr cymdeithasol, nyrs, therapydd galwedigaethol neu seicolegydd gyda'r sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol dan y rheoliadau. Rhaid i'r corff goruchwyliol hefyd fod yn fodlon bod yr asesydd:

- yn meddu'r sgiliau gofynnol ar gyfer y rôl gan ystyried y canllawiau a gynhrychwyd ar y medrau a'r sgiliau angenrheidiol a restrir yn y rheoliadau
- wedi cwblhau hyfforddiant asesydd lles gorau amddifadu o ryddid penodol, ac
- yn addas o ystyried amgylchiadau'r achos. Gall y ffactorau perthnasol gynnwys profiad sy'n berthnasol i gyflwr yr unigolyn, ffactorau diwylliannol a sgiliau wrth ymdrin ag anghenion cyfathrebu neilltuol.

3.45 Mae Adran 4 y Ddeddf yn nodi'r egwyddorion lles gorau cyffredinol sy'n berthnasol ar gyfer dibenion y Ddeddf. Mae Pennod 5 o'r prif God (Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu pan fydd yn trafod lles gorau?) hefyd yn berthnasol ac yn arbennig mae paragraff 5.13 o'r prif God yn cynnwys rhestr wirio o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth bennu lles gorau. Mae'r egwyddorion a'r canllawiau hyn mor berthnasol â'i gilydd wrth benderfynu ar les gorau unigolyn ar gyfer dibenion mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid. Ond pan ddaw hi'n fater o les gorau wrth ymwneud ag amddifadu o ryddid, mae ffactorau ychwanegol yn berthnasol, gan gynnwys:

- natur y niwed posibl a all godi petai'r amddifadu o ryddid ddim yn digwydd
- y tebygolrwydd y bydd y niwed yn digwydd (h.y. a yw lefel y risg yn ddigonol i gyfiawnhau cam mor ddifrifol ag amddifadu unigolyn o'i ryddid?)
- gwerthuso dewisiadau gofal eraill i osgoi amddifadu o ryddid, ac
- os na ellir osgoi amddifadu o ryddid ar hyn o bryd, dynodi pa gamau y gellid eu cymryd i'w osgoi yn y dyfodol.

Rôl yr asesydd lles gorau

3.46 Yr asesydd lles gorau yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am asesu lles gorau unigolyn perthnasol y mae awdurdod rheoli wedi gwneud cais am ganiatâd i'w amddifadu o'i ryddid.

Sefydlu a yw amddifadu o ryddid yn digwydd

3.47 Tasg gyntaf asesydd lles gorau yw sefydlu a oes amddifadu o ryddid yn digwydd, neu a yw'n mynd i ddigwydd, gan nad oes unrhyw bwynt i'r broses asesu fynd ymhellach os nad yw amddifadu o ryddid yn broblem. Os bydd yr

asesydd lles gorau yn dod i'r casgliad **nad yw** amddifadu o ryddid yn digwydd ac nad yw'n debygol o ddigwydd, dylai hysbysu'r corff goruchwyliol nad yw amddifadu o ryddid er lles gorau'r unigolyn gan fod dewis llai cyfyngol yn amlwg ar gael. Rhaid i'r asesydd hysbysu'r corff goruchwyliol nad yw'r gofyniad lles gorau yn cael ei fodloni.

3.48 Rhaid i'r asesydd lles gorau ymgynghori â'r awdurdod rheoli ar gyfer yr ysbyty neu gartref gofal perthnasol, ac archwilio unrhyw asesiad angen perthnasol a chynlluniau gofal a baratowyd yng nghyswllt cartrefu'r unigolyn perthnasol yn yr ysbyty neu gartref gofal. Rhaid i'r asesydd lles gorau ystyried a fyddai'r cynllun gofal a gynigir a'r modd y byddai'n cael ei weithredu yn cyfateb i amddifadu o ryddid. Os na fyddai, yna ni fyddai'n ofynnol cael caniatâd i amddifadu o ryddid ar gyfer y cynllun gofal hwnnw.

3.49 Rhaid i'r awdurdod rheoli a'r corff goruchwyliol roi unrhyw asesiad anghenion neu gynllun gofal y maent wedi ei wneud neu sydd wedi ei wneud ar eu rhan i'r asesydd lles gorau.

Y broses asesu lles gorau

3.50 Os bydd yr asesydd lles gorau yn ystyried bod amddifadu o ryddid yn, neu yn mynd i ddigwydd, maent yn cychwyn ar asesiad lles gorau llawn. Yn unol ag adran 4(7) o'r Ddeddf, mae hyn yn golygu ceisio barn y canlynol i weld a ydynt yn credu bod amddifadu'r unigolyn perthnasol o'i ryddid er ei les gorau i'w atal rhag niweidio ei hun neu i'w alluogi i ddilyn y cynllun gofal arfaethedig, neu a fyddai felly:

- unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn
- unrhyw un sydd â diddordeb yn lles yr unigolyn
- unrhyw EGMA sydd wedi ei gyfarwyddo, a
- staff sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn

i weld a ydynt yn credu a yw, neu a fyddai amddifadu'r unigolyn o'i ryddid er lles gorau'r unigolyn i'w atal rhag cael niwed neu i'w alluogi i ddilyn y cynllun gofal a gynigiwyd. Wrth gwrs, gall hyn olygu bod rhaid i'r asesydd lles gorau esbonio agweddau allweddol o'r cynllun gofal a beth yw ei fwriad i'r bobl yr ymgynghorir â nhw. Dylid ystyried y farn a dderbynnir cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol a phriodol.

3.51 Rhaid i'r asesydd lles gorau ddatgan yn ei asesiad beth yw enw a chyfeiriad pob unigolyn â diddordeb y mae wedi ymgynghori ag ef/hi wrth wneud yr asesiad. Efallai na fydd teulu a ffrindiau yn hyderus am fynegi eu barn a chyfrifoldeb yr asesydd lles gorau yw eu galluogi i wneud hynny - gan ddefnyddio cefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebu neu iaith yn ôl y galw.

Senario: Ymgynghori ar les gorau

Mae Mr Smith yn 60 ac mae'n dioddef o syndrom Korsakoff, dementia y mae alcohol yn ei greu. Wedi triniaeth gychwynnol yn yr ysbyty, fe'i derbyniwyd i gartref preswyl cofrestredig, ac mae ganddo ddigon o allu meddyliol i gydsynio i hyn.

Ond, nid oes ganddo unrhyw ddealltwriaeth o'i ddementia ac nid yw'n medru deall oblygiadau iechyd a diogelwch parhau i yfed, a bydd yn gwneud hynny'n drwm pryd bynnag y bydd yn medru cael gafael mewn alcohol a'r arian i'w brynu.

Er nad oes ganddo unrhyw gyswilt ag alcohol yn yr ysbyty, mae tafarn o fewn cyrraedd i'r cartref y mae Mr Smith yn ymweld â hi ac yn yfed yno. Pan fydd yn dychwelyd i'r cartref yn feddw, gall ei ymddygiad beri poen meddwl difrifol a gall fod yn beryglus i breswylwyr eraill, llawer ohonynt yn llawer hŷn ac yn fusgrell, ac os bydd hyn yn parhau efallai na fydd dewis arall heblaw ystyried ei ddychwelyd i'r ysbyty dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae staff y cartref wedi methu yn eu hymdrechion i'w ddarbwylllo i yfed yn gymedrol a gofynnwyd i'r tafarnwr beidio rhoi mwy nag un ddiod iddo ond fe wrthododd wneud hynny. Mae'r rheolydd, ar ran y cartref, wedi gwneud cais am ganiatâd safonol i atal Mr Smith rhag gadael y cartref heb gwmni ac i atal ymweliadau gan ffrindiau o'r dafarn sy'n mynd ag alcohol i Mr Smith.

Gan fod y dafarn ar agor drwy'r dydd, petai'r caniatâd yn cael ei roi, byddai Mr Smith yn cael ei atal rhag mynd allan o gwbl heb gwmni, er ei fod yn aml yn mynd i siopa ac i'r parc yn ogystal â'r dafarn. Mae'r lefelau staffio mor isel fel na fyddai neb ar gael i fynd yn gwmni iddo heblaw ar rai dyddiau ac am gyfnodau cyfyngedig.

Mae'r asesydd lles gorau yn siarad yn gyntaf gyda'i seiciatrydd ymgynghorol a fydd yn gweithredu fel asesydd iechyd meddwl. Bydd yr ymgynghorwr yn cadarnhau nad oes gan Mr Smith y gallu meddyliol yng nghyswilt y mater penodol hwn, ac yn dweud y bydd ei ddementia yn debygol o waethgu yn gyflym iawn os bydd yn parhau i yfed i eithafion ac y bydd ei oes yn cael ei byrhau yn fawr. Ond ni fydd ychydig o alcohol yn niweidiol iawn.

Mae'r asesydd lles gorau wedyn yn ffonio merch Mr Smith, ei berthynas agosaf. Mae hi'n dweud mai cael diod yn y dafarn a chymdeithasu yw "yr unig bleser sydd ar ôl" gan ei thad a phetai ganddo'r gallu meddyliol o hyd ei bod yn siŵr y byddai wedi dewis parhau i yfed, beth bynnag fo'r risg i'w

iechyd. Mae'r asesydd lles gorau yn trefnu cyfarfod yn y cartref gyda'r ferch, rheolydd y cartref a gweithiwr allweddol Mr Smith.

Yn y cyfarfod, mae'r asesydd lles gorau yn dod i'r casgliad y byddai'r cyfyngiadau yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu Mr Smith i gadw cyswllt cymdeithasol ac i barhau â'r bywyd y mae wedi arfer ag o ac y byddai hyn yn cyfateb i amddifadu o ryddid. O ystyried barn ei ferch, ni fyddai er lles gorau Mr Smith i'w atal rhag cael alcohol o gwbl, ond o ystyried y peryglon iechyd a'r tebygolrwydd y byddai'n gorfod cael ei gadw yn yr ysbyty fel arall, byddai er lles gorau Mr Smith i sicrhau na fydd yn meddwi. Byddai'r posibilrwydd o gyfyngu ei ddefnydd o'i arian yn annerbyniol gan fod ganddo'r gallu meddyliol i benderfynu sut i'w wario mewn ffyrdd eraill o hyd.

Mae'r drafodaeth wedyn yn canolbwyntio ar ffyrdd o leihau'r cyfyngiadau, ac yn arbennig sicrhau ei fod yn dal i fedru ymweld â'r dafarn ac yfed yn gymedrol. Mae'r gweithiwr allweddol yn dweud bod Mr Smith wedi cydweithredu'n llawn â hi pan fydd wedi mynd i'r dafarn gydag o, a'i fod wedi cymryd un ddiod yn unig cyn mynd yn ôl gyda hi. Cytunir felly y bydd y cartref yn darparu cydymaith iddo i ymweld â'r dafarn o leiaf dair gwaith yr wythnos, a'r siopau a'r parc ar adegau eraill, ac y bydd ei ferch (sy'n cytuno i gael ei phenodi yn gynrychiolydd iddo) yn medru mynd ag ef allan ar unrhyw adeg. Bydd hyn oll yn cael ei nodi mewn amodau fydd ynghlwm wrth y caniatâd.

- 3.52 Rhaid i'r asesydd lles gorau hefyd sicrhau bod yr unigolyn y maent yn ei asesu yn cael rhan yn y broses asesu gymaint ag sy'n bosibl ac yn ymarferol, a'i helpu i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Dylai'r unigolyn perthnasol gael y gefnogaeth sy'n angenrheidiol i gymryd rhan, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu heb fod yn llafar pan fydd angen hynny (paragraff 3.10 o'r prif God) neu gefnogaeth therapyddion lleferydd ac iaith. Gall fod o gymorth hefyd cael eraill i gymryd rhan y mae'r unigolyn perthnasol yn ymddiried ynddynt yn barod ac sydd wedi arfer cyfathrebu gyda'r unigolyn perthnasol.

Senario: Cyfathrebu heb fod ar lafar

Bu Leroy yn byw mewn cartref gofal bychan i bobl gydag anableddau dysgu ac ymddygiad heriol. Mae rheolydd y cartref yn ystyried y gall y cyfyngiadau sy'n angenrheidiol i roi gofal i Leroy yn y lleoliad hwn ei amddifadu o'i ryddid ac mae'n gwneud cais am ganiatâd.

Mae asesydd lles gorau Leroy yn cychwyn asesu a fyddai'n well gan Leroy aros yn y cartref gofal hwn neu symud i leoliad llai cyfyngol. Mae'r asesydd lles gorau yn edrych trwy nodiadau Leroy ac yn rhestru'r perthnasau a

ffrindiau oedd wedi bod yn rhan o fywyd Leroy dros y pum mlynedd diwethaf yn ogystal ag unrhyw weithwyr gofal a gweithwyr cymdeithasol blaenorol oedd wedi ysgrifennu adroddiadau. Roedd dau berthynas oedd yn ymweld yn anfynych, un eiriolwr oedd wedi bod yn ymwneud â'r achos flwyddyn yn ôl a gweithiwr gofal oedd wedi mynd â Leroy ar wyliau grŵp.

Mae'r asesydd lles gorau wedyn yn cysylltu â chymaint o'r rhain ag y gall i drafod sefyllfa Leroy a'r hyn y byddai'n ei hoffi pe bai'n cael dewis.

Mae'r perthnasau'n teimlo'n gryf y gellid cefnogi Leroy i fyw'n fwy annibynnol ac mae'r gweithiwr gofal yn cytuno.

Mae'r asesydd lles gorau yn creu dau lyfr lluniau, un gyda lluniau o Leroy yn y cartref gofal ac un gyda lluniau o Leroy mewn fflat annibynnol. Mae'r olaf yn apelio'n fawr at Leroy ac mae'n sefyll wrth y drws ffrynt gan ddynodi ei fod am adael.

Daw'r asesydd lles gorau i'r casgliad bod Leroy wedi mynegi, trwy ei ymddygiad, petai'n cael cynnig y dewis y byddai'n hoffi ceisio byw mewn lleoliad llai sefydliadol.

Felly mae'r asesydd yn penderfynu y dylid caniatáu'r caniatâd am dri mis yn unig ac mae'n argymhell bod amodau ynghlwm wrtho y dylid rhoi cefnogaeth adsefydlu i helpu Leroy i gael y sgiliau angenrheidiol i fyw mewn lleoliad mwy annibynnol. Mae'r asesydd yn argymhell y dylid mynd â Leroy i ymweld â lleoliadau gofal posibl eraill a'i gefnogi i fynegi ei farn.

3.53 Bydd raid i'r asesydd lles gorau hefyd ystyried casgliadau'r asesydd iechyd meddwl am y ffordd y bydd yr unigolyn sy'n cael ei asesu yn debygol o gael ei effeithio gan gael ei amddifadu o'i ryddid. Petai'r gofal arfaethedig yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei symud, yna dylai'r asesydd ystyried effaith hynny, a'r siwrne ei hun, ar yr unigolyn.

3.54 Os bydd yr asesiad lles gorau yn cefnogi amddifadu o ryddid yn y cartref gofal neu ysbyty dan sylw, dylai'r asesydd ddatgan am ba hyd y dylid rhoi unrhyw ganiatâd, gydag uchafswm o 12 mis. Dylai'r argymhelliad hwn fod ar sail yr wybodaeth a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori - ond yn arbennig ar y wybodaeth yn y cynllun gofal am ba mor hir y bydd unrhyw driniaeth yn parhau, ac unrhyw fanylion am ba mor debygol yw hi y bydd amgylchiadau'r unigolyn perthnasol yn newid. Yr egwyddor waelodol yw mai am y cyfnod lleiaf y mae hynny'n angenrheidiol y dylid amddifadu o ryddid, er mwyn i'r uchafswm o 12 mis fod yn berthnasol, bydd angen i'r asesydd fod yn hyderus ei bod yn annhebygol y bydd newid yn amgylchiadau'r unigolyn, a fyddai'n effeithio ar y caniatâd yn y cyfnod hwnnw.

Adroddiad yr asesydd lles gorau

- 3.55 Bydd raid i'r asesydd lles gorau roi rhesymau am ei gasgliad yn yr adroddiad ar ei asesiad. Os na fydd yn cefnogi amddifadu o ryddid, yna dylai ei adroddiad anelu at fod mor ddefnyddiol ag sy'n bosibl i'r comisiynwyr a'r darparwyr gofal wrth benderfynu ar weithredu yn y dyfodol, argymell sut y gellid osgoi amddifadu o ryddid er enghraifft. Mewn achos o'r fath, gall fod o gymorth hefyd i'r asesydd lles gorau drafod y mater gyda'r darparwyr gofal **yn ystod y broses asesu**.
- 3.56 Gall yr asesydd lles gorau argymell y dylid rhoi amodau ynghlwm wrth y caniatâd. Er enghraifft, efallai y bydd am ymdrin â materion cyswllt, materion sy'n berthnasol i ddiwylliant yr unigolyn neu faterion pwysig eraill sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid, y byddai amddifadu'r claf o ryddid yn peidio bod er lles gorau'r claf hebddynt. Gellir argymell amodau hefyd i weithio tuag at osgoi amddifadu o ryddid yn y dyfodol. Ond nid rôl yr asesydd lles gorau yw manylu ar amodau nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i amddifadu o ryddid.
- 3.57 Ni ddylai'r amodau gymryd lle cynllun gofal wedi ei lunio'n iawn a gweithredu prosesau perthnasol eraill, er enghraifft y Dull Rhaglen Gofal a Rheoli Gofal. Wrth argymell amodau, dylai aseswyr lles gorau geisio gosod y lleiafswm o gyfyngiadau posibl, fel nad ydynt yn atal neu gyfyngu ar staff yr ysbyty neu gartref gofal yn ddiangen rhag ymateb yn addas i anghenion yr unigolyn, boed iddynt aros yr un peth neu amrywio dros amser. Byddai'n arfer da i'r asesydd drafod unrhyw amodau arfaethedig gyda'r personél perthnasol yn y cartref neu'r ysbyty cyn creu fersiwn derfynol yr adroddiad.
- 3.58 Pan fydd hynny'n bosibl, dylai'r asesydd lles gorau hefyd argymell i rywun gael ei benodi fel "cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol" (gweler pennod 4). Dylai'r asesydd fod mewn sefyllfa dda, o ganlyniad i'r broses ymgynghori, i ddynodi a oes unrhyw un a allai weithredu'n addas fel cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol. Ni all penodiad yr unigolyn perthnasol ddigwydd oni bai, a nes bydd, caniatâd wedi ei roi. Ond, trwy ddynodi rhywun i gymryd y rôl hon yn gynnar, gall yr asesydd lles gorau helpu i sicrhau bod cynrychiolydd yn cael ei benodi cyn gynted ag sy'n bosibl.

Asesiad cymhwyster

- 3.59 Mae'r asesiad hwn yn cyfeirio'n benodol at statws yr unigolyn perthnasol, neu statws potensial, dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gyda'r nod o gadarnhau a ddylai'r unigolyn perthnasol gael ei gynnwys dan y Ddeddf honno yn hytrach na'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid dan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005.

3.60 Ar gyfer y rhan fwyaf o ganiatâd a geisir gan gartrefi gofal, bydd yr asesiad cymhwyster i bob pwrpas yn amherthnasol.

3.61 Nid yw unigolyn yn gymwys ar gyfer caniatâd amddifadu o ryddid os:

- yw, ar adeg y caniatâd, yn cael ei gadw dan orchymyn fel claf mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu
- y byddai'r caniatâd, petai'n cael ei roi yn anghyson â'r ymrwymiad a roddwyd arnynt dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel gofyniad i fyw yn rhywle arall. Dim ond ar bobl sydd ar absenoldeb gyda chaniatâd o gael eu cadw dan orchymyn dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu sydd yn ddarostyngedig i warchodaeth, Triniaeth Gymunedol dan Oruchwyliaeth neu ryddhad amodol y bydd hyn yn effeithio.

3.62 Yn ychwanegol, os yw'r caniatâd arfaethedig yn ymwneud ag amddifadu o ryddid mewn ysbyty **yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer trin anhwylder meddyliol**, yna ni fydd yr unigolyn yn gymwys os:

- bydd ar absenoldeb gyda chaniatâd o gael ei gadw dan orchymyn dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu'n ddarostyngedig i Driniaeth Gymunedol dan Oruchwyliaeth neu ryddhad amodol, os felly dylid defnyddio pwerau galw yn ôl dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu
- yw'n gwrthwynebu cael ei dderbyn i ysbyty, neu'n gwrthwynebu rhywfaint neu'r cyfan o'r driniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol y bydd yn ei dderbyn yno, **a'i** fod yn bodloni'r meini prawf am gais i gael mynediad dan adran 2 neu adran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

3.63 Mewn llawer achos, bydd claf yn hollol abl i fynegi gwrthwynebiad o'r fath.

Ond, pan na fydd y claf yn medru cyfathrebu, neu yn medru cyfathrebu i raddau cyfyngedig yn unig, bydd raid i aseswyr ystyried ymddygiad y claf, ei ddymuniadau, ei deimladau, ei farn, ei gred a'i werthoedd, ar hyn o bryd ac yn y gorffennol, cyn belled ag y gellir eu canfod (gweler paragraffau 5.37-5.48 o'r prif God am ganllawiau ar sut i wneud hyn). Os oes rheswm i feddwl y byddai claf yn gwrthwynebu, pe bai'n medru gwneud hynny, yna dylid tybio bod y claf yn gwrthwynebu. Yn achlysurol, gall ymddygiad y claf ar y dechrau awgrymu gwrthwynebiad, ond efallai nad yw'r gwrthwynebiad wedi ei gyfeirio at y driniaeth o gwbl mewn gwirionedd. Yn yr achos hwnnw, *ni* fyddai'r claf yn cael ei ystyried fel un sy'n gwrthwynebu. Dylai aseswyr gadw mewn cof bob amser mai eu gwaith yw sefydlu a yw'r claf yn gwrthwynebu triniaeth – nid yw rhesymoldeb y gwrthwynebiad yn cael ei drafod.

3.64 Bydd yr asesiad cymhwyster yn aml yn cael ei gynnal gan yr asesydd lles gorau ond, pan na fydd hyn yn wir, bydd raid i'r asesydd lles geisio ac ystyried barn yr asesydd lles gorau wrth benderfynu a yw'r unigolyn yn gwrthwynebu bod mewn ysbyty neu driniaeth am anhwylder meddyliol.

3.65 Hyd yn oed pan na fydd claf yn gwrthwynebu, a bod caniatâd amddifadu o ryddid yn bosibl, ni ddylid tybio mai caniatâd o'r fath yw'r llwybr cywir yn ddieithriad. Efallai bod ffactorau eraill sy'n awgrymu y dylid defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 (er enghraifft, pan feddylir ei bod yn debygol y bydd yr unigolyn yn adennill y gallu perthnasol ac wedyn yn gwrthod cydsynio i driniaeth, neu pan fydd yn bwysig i reolwyr yr ysbyty gael pŵer ffurfiol i ail gymryd unigolyn sy'n mynd yn absennol heb ganiatâd.)

Pan fydd cleifion yn cael eu hasesu fel rhai anghymwys

3.66 Os bydd yr asesydd cymhwyster yn credu nad yw'r claf yn gymwys, ond (ar sail adroddiad yr asesydd lles gorau) y dylent, fodd bynnag, gael eu hamddifadu o'u rhyddid er eu lles gorau, dylai'r asesydd cymhwyster ar unwaith weithredu i drefnu i'r camau addas gael eu cymryd dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r un peth yn berthnasol os bydd yr asesydd cymhwyster, am unrhyw reswm arall, yn ystyried y dylid ystyried defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983.

3.67 Yn achos rhywun sydd eisoes yn ddarostyngedig i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, dylai'r asesydd cymhwyster gysylltu â'r clinigwr cyfrifol perthnasol (h.y. y clinigwr sy'n gyfrifol am driniaeth y claf) neu, os yw'r unigolyn yn ddarostyngedig i warcheidwadaeth, yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol perthnasol. Fel arall, dylai'r asesydd gymryd camau i drefnu i'r claf gael ei asesu ymhellach fel y gellid gwneud cais iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd raid i aseswyr fod yn gyfarwydd â threfniadau lleol ar gyfer gwneud hynny.

3.68 Mewn rhai achosion, hyd yn oed cyn i'r asesiad gael ei wneud, gall fod yn hysbys y bydd raid asesu'r unigolyn gyda golwg ar gais dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn hytrach na bod yn ddarostyngedig i ganiatâd amddifadu o ryddid. Mewn achosion o'r fath, dylid cymryd camau, pan fydd hynny yn ymarferol a phosibl, i drefnu asesiadau mewn ffordd sy'n lleihau'r nifer o gyfweiliadau unigol neu archwiliadau y mae'n rhaid i'r unigolyn eu cael.

Pwy all gynnal asesiad cymhwyster?

3.69 Mae'r rheoliadau i Loegr yn nodi y gall unrhyw un y mae'r corff goruchwyliol yn ei ystyried yn briodol, trwy feddu ar y profiad angenrheidiol a chyrraedd y manylebau hyfforddiant a sgiliau, gynnal asesiad cymhwyster. Yn y rhan fwyaf o achosion dylai gael ei gynnal gan unigolyn sy'n cynnal un neu fwy o'r asesiadau eraill. Mae'n bwysig i'r asesydd cymhwyster fod yn gyfarwydd â Deddf Iechyd Meddwl 1983, yn arbennig mewn achosion pan fydd yn ymddangos y gall fod potensial i ddefnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn hytrach na'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.

3.70 Pan fydd yr asesydd cymhwyster a'r asesydd lles gorau yn bobl wahanol, rhaid i'r asesydd cymhwyster, wrth gynnal yr asesiad, geisio gwybodaeth gan yr asesydd lles gorau am agwedd yr unigolyn tuag at y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer ei ofal a'i driniaeth. Bydd hyn yn addas mewn achos pan fydd unigolyn yn derbyn, neu'n mynd i dderbyn, triniaeth am anhwylder meddyliol mewn ysbyty a phan, os gellir dweud ei fod yn gwrthwynebu'r driniaeth, y byddai'n addas ystyried defnyddio darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn hytrach na'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.

Asesiad dim gwrthodiad

3.71 Diben yr asesiad dim gwrthodiad yw sefydlu a fyddai amddifadu unigolyn sydd heb y gallu meddyliol i gydsynio o'i ryddid yn gwrthdaro â chaniatâd arall ar gyfer gwneud penderfyniadau dros yr unigolyn hwnnw.

3.72 Mae'r enghreifftiau isod yn dangos esiamplau o wrthdaro a fyddai'n golygu na ellir rhoi caniatâd safonol.

- Os yw'r unigolyn perthnasol wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw sy'n parhau'n ddilys ac yn berthnasol i beth neu'r cyfan o'r driniaeth y byddai'r unigolyn yn ei derbyn petai caniatâd yn cael ei roi, yna ni ellir rhoi caniatâd safonol. Gweler Adrannau 24 i 26 o'r Ddeddf a Phennod 9 o'r prif God (Beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud am benderfyniad ymlaen llaw i wrthod triniaeth?) am ragor o wybodaeth am benderfyniadau ymlaen llaw a phryd y byddant yn ddilys a gweithredol.
- A fyddai unrhyw ran o'r cynnig i amddifadu'r unigolyn o'i ryddid (gan gynnwys unrhyw elfen o'r cynllun gofal) yn gwrthdaro â phenderfyniad dilys rhoddwr pŵer atwrneiaeth barhaol ("atwrnai") neu ddirprwy fyddai'n cael ei benodi gan y llys ("dirprwy"), yna ni ellir rhoi caniatâd safonol. Er enghraifft petai atwrnai neu ddirprwy yn penderfynu na ddylai unigolyn fod mewn cartref gofal penodol, a bod y penderfyniad hwnnw o fewn eu hawdurdod, yna byddai'n rhaid adolygu'r cynllun gofal gyda'r atwrnai neu ddirprwy.

3.73 Os oes gwrthdaro, ni fydd y gofyniad cymhwysso dim gwrthodiad yn cael ei fodloni ac ni ellir rhoi caniatâd safonol i amddifadu o ryddid.

3.74 Gall unrhyw un y mae'r corff goruchwyliol yn ei ystyried sydd â'r sgiliau a'r profiad i gyflawni'r rôl gynnal yr asesiad dim gwrthodiad, gan gynnwys unigolyn sy'n cynnal un neu fwy o'r asesiadau eraill. **[Sylwer: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sut y byddant yn defnyddio eu pwerau i greu rheoliadau ar gyfer Cymru a bydd y manylion yn cael eu cynnwys pan benderfynir arnynt.]**

Pa ddarpariaethau eraill sydd yn ymwneud â gwaith yr aseswyr?

Mynediad at gofnodion

3.75 Gall aseswyr archwilio a gwneud copïau o gofnodion y maent yn eu hystyried yn berthnasol i'w hasesiad. Dylai'r aseswyr restru yn eu hadroddiad asesu pa gofnodion a archwiliwyd.

Cofnodi ac adrodd ar asesiadau

3.76 Cyn gynted ag sy'n bosibl wedi cynnal asesiadau, rhaid i aseswyr roi copïau o'u hadroddiad(au) asesu i'r corff goruchwyliol. Rhaid i'r corff goruchwyliol roi copïau o'r rhain i:

- yr awdurdod rheoli
- yr unigolyn perthnasol a'i gynrychiolydd
- unrhyw EGMA.

Bydd ffurflenni safonol yn cael eu cynhyrchu i'w defnyddio gan aseswyr⁹.

Pa gamau ddylai'r corff goruchwyliol eu cymryd os yw'r asesiadau'n dod i'r casgliad bod yr unigolyn yn bodloni'r gofynion ar gyfer caniatâd?

3.77 Os bydd yr holl asesiadau'n dod i'r casgliad bod yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer caniatâd, a bod gan y corff goruchwyliol gopïau ysgrifenedig o'r holl asesiadau, rhaid iddo roi caniatâd safonol. Ni all y corff goruchwyliol roi caniatâd safonol os nad yw'r holl feini prawf yn cael eu cyflawni. Gall y corff goruchwyliol roi amodau ynghlwm wrth y caniatâd, gan ystyried argymhellion yr asesydd lles gorau (gweler paragraff 3.56). Rhaid i'r corff goruchwyliol bennu cyfnod y caniatâd, ac ni all fod yn hwy na'r un a argymhellwyd gan yr asesydd lles gorau (gweler paragraff 3.54). Cyfrifoldeb y corff goruchwyliol yw penodi cynrychiolydd dros yr unigolyn (gweler pennod 4).

3.78 Pan fydd y corff goruchwyliol yn rhoi caniatâd safonol, rhaid iddo wneud hynny yn ysgrifenedig a rhaid iddo ddatgan y canlynol:

- enw'r unigolyn perthnasol
- enw'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol
- hyd y cyfnod y mae'r caniatâd i fod mewn grym (na all fod yn hwy na'r cyfnod a argymhellwyd gan yr asesydd lles gorau)
- y diben y mae'r caniatâd yn cael ei roi ar ei gyfer (h.y. pam bod rhaid amddifadu'r unigolyn o'i ryddid)
- unrhyw amodau y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddynt (fel yr argymhellwyd gan yr asesydd lles gorau), ac

⁹ Noder teitlau'r ffurflenni ar gyfer Cymru a Lloegr yn y ddogfen derfynol

- y rheswm pam bod pob gofyniad cymhwyso yn cael eu bodloni.

3.79 Wedi rhoi'r caniatâd, rhaid i'r corff goruchwylol roi copi o'r caniatâd i'r awdurdod rheoli, yr unigolyn perthnasol, cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol, unrhywEGMA sy'n ymwneud â'r achos a phob unigolyn â diddordeb yr ymgynghorwyd â nhw gan yr asesydd lles gorau cyn gynted ag y mae modd.

Pa mor hir all y caniatâd barhau?

3.80 Dylid amddifadu unigolyn o'i ryddid am y cyfnod byrraf posibl. Ni ddylai'r asesydd lles gorau argymhell caniatâd am ddim hwy nag y bydd yr unigolyn yn debygol o fodloni'r holl ofynion cymhwyso. Gall y caniatâd fod am gyfnod eithaf byr. Gall cyfnod byr fod yn addas, er enghraifft, petai:

- y rheswm y mae amddifadu o ryddid er lles gorau'r unigolyn yw bod ei drefniadau gofal arferol wedi chwalu dros dro, neu
- ei bod yn debygol y bydd newidiadau yn anhwylder meddyliol yr unigolyn yn y dyfodol cymharol agos (er enghraifft, os yw'r unigolyn yn cael ei adsefydlu yn dilyn niwed i'r ymennydd).

3.81 Er mwyn i'r uchafswm o 12 mis fod yn berthnasol, bydd raid i'r asesydd fod yn hyderus ei bod yn annhebygol y bydd newid yn amgylchiadau'r unigolyn, a fyddai'n effeithio ar y caniatâd, o fewn y cyfnod hwnnw.

Pa gyfyngiadau sy'n bodoli ar ganiatâd?

3.82 Mae caniatâd i amddifadu o ryddid - boed yn un brys neu safonol - yn ymwneud yn unig ag amddifadu o ryddid. Nid yw'n rhoi caniatâd i drin pobl, nac i wneud dim byd arall a fyddai'n gofyn am eu cydsyniad fel arfer. Mae'r trefniadau ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth i bobl y mae caniatâd i amddifadu o ryddid mewn grym iddynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau ehangach y Ddeddf.

3.83 Mae hyn yn golygu na ellir rhoi triniaeth i unigolyn sydd heb roi ei gydsyniad oni bai:

- ei fod yn cael ei gadarnhau nad oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i wneud y penderfyniad dan sylw
- bod penderfyniad y bydd y driniaeth er eu lles gorau, wedi ystyried barn yr unigolyn a'r bobl sy'n agos ato/ati, a
- nad yw'r driniaeth yn gwrthdaro â phenderfyniad a wnaed gan atwrnai neu ddirprwy.

3.84 Wrth benderfynu beth sydd er lles gorau unigolyn, mae adran 4 y Ddeddf yn gweithredu yn yr un ffordd ag y byddai petai'r unigolyn heb ei amddifadu o'i ryddid. Mae pennod 5 y prif God yn rhoi canllawiau ar asesu lles gorau. Mae

darpariaethau Adrannau 24 i 26 y Ddeddf parthed penderfyniadau ymlaen llaw hefyd yn berthnasol.

3.85 Gellir darparu triniaeth i gynnal bywyd, neu driniaeth i atal dirywiad difrifol yng nghyflwr yr unigolyn tra bydd penderfyniad ar unrhyw fater perthnasol yn cael ei geisio gan y Llys Gwarchod. Bydd yr angen i weithredu er lles gorau'r unigolyn dan sylw yn parhau i fod yn berthnasol yn y cyfamser.

A ellir symud unigolyn i leoliad gwahanol dan ganiatâd safonol?

3.86 Os bydd unigolyn sy'n ddarostyngedig i ganiatâd safonol yn symud i ysbyty gwahanol neu gartref gofal, rhaid i awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal newydd wneud cais am ganiatâd safonol newydd. Dylid gwneud y cais **cyn** i'r symud ddigwydd.

3.87 Os yw'n rhaid symud mor gyflym fel bod hyn yn amhosibl, bydd raid i awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal newydd roi caniatâd brys (gweler paragraffau 3.98 i 3.116 isod).

3.88 Yr unig eithriad yw os na fydd amddifadu o ryddid yn rhan o'r drefn gofal yn y cyfleuster newydd.

3.89 Nid yw'r trefniadau hyn yn ddewis gwahanol i weithredu darpariaethau adrannau 38 a 39 o'r Ddeddf ynglŷn â newid preswylfa.

Beth sy'n digwydd os bydd asesiad yn dod i'r casgliad nad yw un o'r meini prawf yn cael ei fodloni?

3.90 Os bydd unrhyw un o'r asesiadau yn dod i'r casgliad nad yw un o'r meini prawf yn cael ei fodloni, yna dylai'r broses asesu ddod i ben ar unwaith ac ni ellir rhoi caniatâd. Dylai'r corff goruchwyliol:

- hysbysu unrhyw un sy'n dal i ymwneud â chynnal asesiad nad oes gofyn iddo/iddi ei gwblhau
- hysbysu'r awdurdod rheoli, yr unigolyn perthnasol, unrhyw EGMA sy'n ymwneud â'r achos a phob unigolyn â diddordeb yr ymgynghorwyd â nhw gan yr asesydd lles gorau nad yw'r caniatâd wedi cael ei roi, a
- darparu copïau o'r asesiadau sydd wedi eu cynnal i'r awdurdod rheoli, yr unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n bosibl oherwydd mewn rhai achosion bydd raid gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer gofalu am yr unigolyn.

3.91 Os na ellid rhoi caniatâd safonol oherwydd na ellid bodloni'r gofynion cymhwyso, efallai y bydd yn angenrheidiol ystyried gwneud yr unigolyn yn ddarostyngedig i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Os bydd hyn yn wir, fe all fod

yn bosibl defnyddio'r un aseswyr i wneud y penderfyniad hwnnw, a thrwy hynny gadw'r broses asesu cyn lleied â phosibl.

Beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod rheoli a'r comisiynwyr gofal os gwrthodir cais am ganiatâd?

- 3.92 Yr awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw'n amddifadu unigolyn o'i ryddid heb ganiatâd.
- 3.93 Y comisiynwyr gofal sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw becyn gofal yn cael ei gomisiynu yn unol â'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.
- 3.94 Os mai'r corff goruchwyliol sy'n comisiynu'r gofal, bydd raid iddo wneud hynny mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl i'r awdurdod rheoli ddarparu'r gofal yn unol â deilliant y broses asesu amddifadu o ryddid.
- 3.95 Bydd y camau y dylai awdurdodau rheoli a chomisiynwyr gofal eu hystyried os gwrthodir cais am ganiatâd yn dibynnu ar y rheswm pam na roddwyd caniatâd.
- Os daeth yr asesydd lles gorau i'r casgliad nad oedd yr unigolyn mewn gwirionedd yn cael, nac yn mynd i gael, ei amddifadu o'i ryddid, mae'n debyg na fydd raid cymryd unrhyw gamau.
 - Os daeth yr asesydd lles gorau i'r casgliad nad oedd yr amddifadu o ryddid arfaethedig er lles gorau'r unigolyn, bydd raid i'r awdurdod rheoli (ar y cyd gyda'r comisiynydd gofal) ystyried sut y gellid newid y cynllun gofal i osgoi amddifadu o ryddid. Dylent archwilio'r rhesymau a roddwyd yn adroddiad yr asesydd lles gorau yn ofalus ac efallai y bydd o gymorth iddynt drafod y mater gyda'r asesydd lles gorau. Pan fydd hynny'n addas, dylent hefyd drafod y mater gyda'r teulu a'r gofalwyr. Os nad yw'r unigolyn yn byw yn y cartref gofal neu ysbyty eto, efallai y bydd y cynllun gofal diwygiedig yn golygu eu derbyn i'r cyfleuster hwnnw.
 - Os daeth yr asesydd gallu meddyliol i'r casgliad fod **gan** yr unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau am ei ofal, bydd raid i'r cartref gofal neu ysbyty ystyried, ar y cyd gyda'r comisiynydd gofal, sut i gefnogi'r unigolyn i wneud penderfyniadau o'r fath.
 - Os dynodwyd nad oedd yr unigolyn yn gymwys i fod yn ddarostyngedig i ganiatâd amddifadu o ryddid, gall fod yn briodol asesu a ddylid gwneud cais i gadw'r unigolyn dan orchymyn dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
 - Os nad oes gan yr unigolyn anhwylder meddyliol, bydd raid addasu'r cynllun gofal i osgoi amddifadu o ryddid
 - Pan fydd gwrthodiad dilys gan atwrnai neu ddirprwy neu benderfyniad ymlaen llaw sy'n berthnasol a dilys, bydd raid gwneud trefniadau gofal gwahanol. Os oes amheuaeth am y gwrthodiad, gellir ceisio penderfyniad gan y Llys Gwarchod.

- Os bydd yr unigolyn dan 18 oed gellir ystyried defnyddio Deddf Plant 1989.

3.96 Pan fydd yr asesydd lles gorau yn dod i'r casgliad nad yw'r gofyniad lles gorau yn cael ei fodloni, ond ei bod yn ymddangos i'r asesydd bod yr unigolyn sy'n cael ei asesu eisoes yn cael ei amddifadu o'i ryddid, rhaid i'r asesydd hysbysu'r corff goruchwyliol ac esbonio yn ei adroddiad pam ei fod wedi dod i'r casgliad hwnnw. Bydd raid i'r corff goruchwyliol gysylltu â'r awdurdod rheoli er mwyn sicrhau na fydd amddifadu o ryddid heb ganiatâd yn cael ei ganiatáu i barhau dan yr amgylchiadau hyn. Rhaid adolygu cynllun gofal yr unigolyn a'r ddarpariaeth gofal ar unwaith a rhaid i'r newidiadau gael eu gwneud cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylid cofnodi'r camau a gymrwyd i ddod â'r amddifadu o ryddid i ben yn y cynllun gofal. Pan fydd hynny'n bosibl bydd yn bwysig cynnwys teulu, ffrindiau a gofalwyr wrth benderfynu sut i atal yr amddifadu o ryddid heb ganiatâd rhag parhau.

3.97 Cyfrifoldeb yr awdurdod rheoli yw cydymffurfio â'r gyfraith yn y sefyllfa hon a bydd raid iddo gadw gofal yr unigolyn dan adolygiad i sicrhau na fydd amddifadu o ryddid heb ganiatâd yn digwydd yn y dyfodol. Petai gan y corff goruchwyliol amheuan o hyd am y mater, dylai hysbysu'r corff arolygu (gweler pennod 8).

Dan ba amgylchiadau y gellir rhoi caniatâd brys?

3.98 Gall yr awdurdod rheoli ei hun roi caniatâd brys ar gyfer amddifadu o ryddid pan:

- fydd yn ofynnol iddo wneud cais i'r corff goruchwyliol am ganiatâd safonol, ond ei fod yn credu bod yr angen i unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid yn un â chymaint o frys ynglŷn ag o, ei bod yn addas cychwyn yr amddifadu o ryddid cyn i'r cais gael ei wneud, neu
- fydd wedi gwneud cais am ganiatâd safonol ond yn credu bod yr angen i'r unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid wedi mynd yn un brys fel ei bod yn addas cychwyn ar yr amddifadiad cyn i'r cais gael ei drafod gan y corff goruchwyliol,

Mae hyn yn golygu na ellir fyth roi caniatâd brys heb wneud cais am ganiatâd safonol.

3.99 Ni ddylai caniatâd brys gael ei ddefnyddio fel arfer, ond wrth ymateb i anghenion sydyn na ragwelwyd ond gellir eu defnyddio hefyd wrth gynllunio gofal (er enghraifft, i osgoi oedi wrth drosglwyddo i adsefydlu lle byddai oedi yn lleihau budd tebygol yr adsefydlu.)

3.100 Rhaid i unrhyw benderfyniad i roi caniatâd brys a champau sy'n amddifadu unigolyn o'i ryddid fod er lles gorau'r unigolyn, fel y nodir yn adran 4 o'r Ddeddf a, phan fydd ataliaeth yn cael ei ddefnyddio, rhaid iddo gydymffurfio â'r amodau ychwanegol yn adran 6 o'r Ddeddf (gweler pennod 6 o'r prif God).

3.101 Rhaid i'r awdurdod rheoli benderfynu ar y cyfnod y mae caniatâd brys yn cael ei roi, ond ni chaiff hyn fod yn fwy na saith niwrnod (gweler paragraffau 3.111-3.116 ynglŷn ag ymestyn y cyfnod o saith niwrnod). Rhaid i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi:

- enw'r unigolyn perthnasol
- enw'r ysbyty neu'r cartref gofal perthnasol
- y cyfnod y bydd y caniatâd mewn grym, a
- y diben y mae'r caniatâd yn cael ei roi ar ei gyfer.

3.102 Dylai cyrff goruchwylol ac awdurdodau rheoli fod â gweithdrefn/protocol yn ei le sy'n dynodi:

- pa gamau y dylid eu cymryd pan fydd yn angenrheidiol i ddefnyddio'r broses ganiatâd brys
- pwy ddylai gymryd y camau, ac
- o fewn pa amserlen.

Dylid cofnodi'r prosesau sy'n ymwneud â rhoi caniatâd brys yn glir, a dylid ei monitro a'i harchwilio yn gyson fel rhan o strwythur rheoli'r sefydliad.

Cofnodi caniatâd brys

3.103 Rhaid i'r awdurdod rheoli gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ganiatâd brys a roddir, a rhaid iddo roi copi o'r caniatâd i'r unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA sy'n ymwneud â'r achos. Rhaid i'r awdurdod rheoli hefyd geisio sicrhau, cyn belled ag y gall, bod yr unigolyn perthnasol yn deall effaith y caniatâd a'r hawl i herio'r caniatâd trwy'r Llys Gwarchod. Rhaid rhoi gwybodaeth briodol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

3.104 Dylai'r awdurdod rheoli hysbysu teulu, ffrindiau a gofalwyr yr unigolyn er mwyn eu galluogi i gynnig cefnogaeth ar sail gwybodaeth i'r unigolyn.

Ymgynghori am ganiatâd brys

3.105 Os yw'r awdurdod rheoli yn ystyried amddifadu unigolyn o'i ryddid mewn argyfwng a rhoi caniatâd brys, mae'n rhaid iddo, cyn belled ag y mae'n briodol, ystyried barn unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn perthnasol neu sydd â diddordeb yn ei les (adran 4(7)(b) o'r Ddeddf).

3.106 Dylid cofnodi'r camau a gymerwyd i gynnwys y teulu, ffrindiau a gofalwyr, ac eraill â diddordeb ar gofnodion yr unigolyn, ynghyd â'u barn a'r rhesymau y

penderfynwyd rhoi caniatâd brys. Bydd barn y gofalwyr yn bwysig oherwydd bydd eu hadnabyddiaeth o'r unigolyn yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i fesur sut y bydd yr unigolyn yn ymateb i gael ei amddifadu o'i ryddid a'r effaith y bydd hynny yn ei gael ar ei gyflwr meddyliol. Gall fod yn addas hefyd ymgynghori ag unrhyw staff a fydd yn ymwneud mewn rhyw ffordd ag achos yr unigolyn.

- 3.107 Ond, bydd raid i'r penderfyniad terfynol fod ar sail dyfarniad ar yr hyn sydd er lles gorau'r unigolyn. Bydd raid i'r unigolyn o'r awdurdod rheoli sy'n gwneud y penderfyniad fedru dangos ei fod wedi gwneud penderfyniad rhesymol ar sail ei farn broffesiynol gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Dod â chaniatâd brys i ben

- 3.108 Bydd caniatâd brys yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod y'i rhoddwyd amdano (hyd at saith niwrnod, a all gael ei ymestyn i hyd at 14 niwrnod gan y corff goruchwyliol mewn amgylchiadau eithriadol) Bydd yn dod i ben cyn yr amser hwn os caniateir y caniatâd safonol y gofynnwyd amdano. Bydd caniatâd brys yn dod i ben hefyd os bydd awdurdod rheoli yn derbyn rhybudd gan y corff goruchwyliol na fydd y caniatâd safonol yn cael ei ganiatáu. Ni fydd yn gyfreithlon wedyn parhau i amddifadu'r unigolyn o'i ryddid. Rhaid i'r corff goruchwyliol hysbysu'r unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA a benodwyd bod y caniatâd brys wedi dod i ben a gellir cyfuno hyn â'r hysbysiad iddynt o ddeilliant y cais am ganiatâd safonol.

Symud unigolyn i ofal dan ganiatâd brys

- 3.109 Gellir cael achosion pan fydd awdurdodau rheoli yn ystyried rhoi caniatâd brys er mwyn eu galluogi i symud yr unigolyn perthnasol i fath newydd o ofal. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, wrth ystyried a ddylid derbyn unigolyn sy'n byw gartref neu gyda pherthnasau i drefn gofal ysbyty a fyddai yn ei amddifadu o'i ryddid, a'i bod yn cael ei hystyried bod yr angen am ei dderbyn mor fawr nad oes amser i ddilyn y broses ganiatâd safonol.
- 3.110 I rai pobl, byddai newid lleoliad fel hyn yn cael effaith niweidiol ar eu hiechyd meddwl, a all amharu'n sylweddol ar y modd y maent yn cyflwyno eu hunain yn ystod y broses asesu. Mewn achos o'r fath, dylai awdurdodau rheoli ystyried a fyddai rhoi'r caniatâd brys a derbyn yr unigolyn i'r ysbyty yn fwy na'r manteision o adael yr unigolyn yn ei leoliad cyfredol, lle gall unrhyw asesiad o'i anghenion fod yn fwy cywir. Byddai hyn yn golygu edrych yn ofalus ar y trefniadau gofal cyfredol, ac ymgynghori gydag unrhyw ofalwyr sy'n ymwneud â'r achos i benderfynu a allai'r unigolyn gael gofal yn ddiogel a buddiol yn ei gartref tra bod y broses asesu yn mynd rhagddi.

Senario: ystyried caniatâd brys

Mae John yn 35. Mae'n awtistig ac mae ganddo anableddau dysgu. Mae'n byw yng nghartref y teulu gyda'i rieni. Er ei fod wedi setlo yn dda ac yn dawel gartref fel arfer, weithiau mae'n mynd yn anystywallt mewn tyrfa neu mewn lle anghyfarwydd.

Mae John yn cael damwain gartref. Mae ei rieni'n meddwl ei fod wedi torri ei fraich ac yn mynd ag o i'r Adran Damweiniau yn yr ysbyty leol, lle gwneir penderfyniad bod angen rhoi archwiliad pelydr x i'w fraich rhag ofn ei bod wedi torri. Y canlyniad yw nad yw wedi torri, dim ond cleisio yn ddrwg, ac y gall John ddychwelyd adref i wella.

Ond, oherwydd ei fod mewn poen a'r tyrfaedd sydd yn yr ysbyty, fe gynhyrfodd John, i'r graddau bod staff diogelwch yr ysbyty yn teimlo bod angen ei ddal yn ôl. Ychydig iawn o brofiad o sefyllfa fel hyn sydd gan y meddyg Adran Damweiniau sydd wedi bod yn ymdrin â John ac mae'n meddwl na fyddai'n ddiogel gadael i John adael yr ysbyty, felly mae'n ystyried ei dderbyn i'r ysbyty ac y byddai angen caniatâd brys.

Fel rhan o'r broses o lunio penderfyniadau mae meddyg Adran Damweiniau John yn trafod y mater gyda rhieni John. Maent yn dweud eu bod wedi bod mewn sefyllfaoedd tebyg lawer gwaith, eu bod yn hyderus y bydd John yn tawelu wedi mynd yn ôl adref ac y dylid gwneud unrhyw asesiad manylach ar ei gyflwr meddyliol yno.

Ar gais rhieni John, mae'r meddyg yn ffonio Nyrs Gymunedol sy'n adnabod John ac mae'n cael sicrwydd nad yw John yn beryglus iddo'i hun, ei rieni na'r cyhoedd. Mae'r meddyg yn penderfynu y byddai er lles gorau John iddo ddychwelyd adref gyda'i rieni.

Yn fuan wedi i John a'i rieni ddychwelyd adref, mae'r Nyrs Gymunedol yn ymweld â nhw. Erbyn hyn mae John wedi tawelu i lawr. Mae'r Nyrs Gymunedol yn penderfynu ei bod yn well iddo aros yn ei gartref ac nad oes angen ystyried ei dderbyn i'r ysbyty.

Sut a phryd y gellir ymestyn caniatâd brys?

- 3.111 Gall yr awdurdod rheoli, os bydd angen hynny, ofyn i'r corff goruchwyliol ymestyn hyd y caniatâd brys am uchafswm o saith niwrnod arall. Rhaid i'r awdurdod rheoli gadw cofnod ysgrifenedig o'r rheswm dros wneud y cais.
- 3.112 Ni all y corff goruchwyliol ymestyn hyd y caniatâd brys oni bai:
- bod yr awdurdod rheoli wedi gwneud cais am ganiatâd safonol
 - bod rhesymau eithriadol pam na fu'n bosibl eto i ganiatáu amddifadu o ryddid, ac

- ei bod yn hanfodol i'r amddifadu o ryddid barhau tra bod y corff goruchwyliol yn gwneud ei benderfyniad.

3.113 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir eithriadau. Enghraifft o amser pan ellid cyfiawnhau estyniad fyddai petai corff goruchwyliol yn fodlon:

- nad oedd yn bosibl cysylltu ag unigolyn yr oedd ar yr asesydd lles gorau angen cysylltu ag ef neu hi
- na ellid dibynnu ar yr asesiad heb ei fewnbwn ef neu hi, ac
- y byddai estyniad am y cyfnod a bennir yn rhoi cyfle i gysylltu ag ef neu hi.

3.114 Unwaith yn unig y gellir ymestyn caniatâd brys.

3.115 Dylai'r corff goruchwyliol hysbysu'r awdurdod rheoli o hyd unrhyw estyniad a roddwyd a rhaid newid y caniatâd brys gwreiddiol fel ei fod yn datgan yr hyd wedi ei ymestyn.

3.116 Os bydd y corff goruchwyliol yn penderfynu peidio ymestyn y caniatâd brys, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod rheoli o'i benderfyniad a'r rhesymau pam y'i gwnaed. Rhaid i'r awdurdod rheoli roi copi o'r hysbysiad i'r unigolyn perthnasol ac unrhyw EGMA sy'n ymwneud â'r achos.

4. Beth yw rôl cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?

Wedi i ganiatâd safonol gael ei ganiatáu rhaid i gyrff goruchwyliol benodi cynrychiolydd unigolyn perthnasol cyn gynted ag sy'n bosibl i gynrychioli'r unigolyn sydd wedi cael ei amddifadu o'i ryddid.

Mae'r bennod hon yn esbonio rôl cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol ac yn rhoi arweiniad i gyrff goruchwyliol ac awdurdodau rheoli ar sut i ddewis cynrychiolydd a phryd i ymgynghori ag ef/hi.

Beth yw rôl cynrychiolydd unigolyn perthnasol?

- 4.1 Rhaid i'r corff goruchwyliol benodi cynrychiolydd unigolyn perthnasol ar gyfer pob unigolyn y maent yn rhoi caniatâd safonol i'w amddifadu o'i ryddid. Mae'n bwysig i'r cynrychiolydd gael ei benodi ar yr adeg y mae'r caniatâd yn cael ei roi neu'n fuan iawn wedyn.
- 4.2 Rôl cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol, wedi iddo/iddi gael ei b/phenodi yw:
 - cadw cysylltiad gyda'r unigolyn perthnasol, a
 - chynrychioli a chefnogi'r unigolyn perthnasol ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid gan gynnwys, os yw'n briodol, sbarduno adolygiad, defnyddio gweithdrefnau cwyno corff ar ran yr unigolyn neu wneud cais i'r Llys Gwarchod. Mae hon yn rôl allweddol yn y broses amddifadu o ryddid, gan roi cynrychiolaeth a chefnogaeth i'r unigolyn perthnasol sy'n annibynnol oddi ar gomisiynwyr a darparwyr y gwasanaethau y maent yn eu derbyn.

Sut dylai'r awdurdodau rheoli weithio gyda chynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?

- 4.3 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r caniatâd gael ei roi, rhaid i'r awdurdod rheoli gymryd pob cam ymarferol a phriodol i sicrhau bod yr unigolyn perthnasol a'i gynrychiolydd yn deall:
 - effaith y caniatâd
 - eu hawl i geisio adolygiad
 - y gweithdrefnau cwyno ffurfiol ac anffurfiol sydd ar gael iddynt
 - eu hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod i geisio amrywiad neu ddi-ddymiad y caniatâd, ac
 - eu hawl i geisio cefnogaeth EGMA.

4.4 Wrth roi gwybodaeth i'r unigolyn a'i gynrychiolydd, dylai'r awdurdod rheoli ystyried anghenion cyfathrebu ac iaith yr unigolyn a'i gynrychiolydd. Dylid gweld darparu gwybodaeth fel cyfrifoldeb parhaus yn hytrach na gweithgaredd unwaith ac am byth.

Pwy all fod yn gynrychiolydd unigolyn perthnasol? ¹⁰

4.5 Er mwyn bod yn gymwys i fod yn gynrychiolydd unigolyn perthnasol, rhaid i unigolyn fod yn:

- 18 oed neu hŷn
- yn barod i gael ei benodi, ac
- yn medru cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn perthnasol

Rhaid i'r unigolyn beidio:

- cael ei atal gan salwch rhag cyflawni rôl cynrychiolydd
- bod a budd ariannol yn awdurdod rheoli'r unigolyn perthnasol
- bod yn berthynas agos i unigolyn sydd â budd ariannol yn yr awdurdod rheoli (mae paragraff 3.18 yn esbonio beth a olygir gan 'berthynas agos')
- cael ei gyflogi gan y cartref gofal neu ddarparu gwasanaethau iddo os yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn cartref gofal
- cael ei gyflogi i weithio yn yr ysbyty mewn rôl sydd neu a allai fod yn gysylltiedig ag achos yr unigolyn os yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty
- cael ei gyflogi i weithio yng nghorff goruchwyliol yr unigolyn mewn rôl sydd, neu a allai fod, yn gysylltiedig ag achos yr unigolyn perthnasol.

4.6 Mae penodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol yn ychwanegol at unrhyw benodiad atwrnai neu ddirprwy, ac nid yw'n effeithio arnynt. Mae swyddogaeth y cynrychiolydd yn ychwanegol at awdurdod unrhyw atwrnai, pwerau unrhyw ddirprwy neu unrhyw bwerau sydd gan y llys ac nid yw'n effeithio arnynt.

4.7 Nid oes unrhyw ragdybiaeth y dylai cynrychiolydd unigolyn perthnasol fod yr un unigolyn a fyddai'n berthynas agosaf iddynt ar gyfer dibenion Deddf Iechyd Meddwl 1983, hyd yn oed pan fydd yr unigolyn yn debygol o fod yn ddarostyngedig yr un pryd i ganiatâd dan y mesurau amddiffyn hyn a darpariaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

¹⁰ Mae'r gofynion parthed cymhwyster, dewis a phenodi cynrychiolwyr yr unigolyn perthnasol yn Lloegr yn cael eu trafod yn y rheoliadau. Y rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr yw'r Rheoliadau Gallu Meddyliol (Amddifadu o ryddid: Penodi Cynrychiolydd yr Unigolyn Perthnasol) 2008.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sut y byddant yn defnyddio eu pwerau llunio rheoliadau yng Nghymru a bydd y manylion yn cael eu cynnwys pan benderfynir arnynt.

Pryd ddylid dynodi cynrychiolydd unigolyn perthnasol?

- 4.8 Dylai'r broses o ddynodi cynrychiolydd gychwyn cyn gynted ag sy'n bosibl.
- 4.9 Fel arfer, dylai hyn fod pan fydd yr asesydd lles gorau yn cael ei benodi - hyd yn oed os bydd un neu fwy o'r asesiadau eraill heb eu cwblhau eto. Mae hyn yn wir oherwydd bod rhaid i'r asesydd lles gorau, fel rhan o'r broses asesu, ddynodi a oes unrhyw un y byddai'n ei argymell i ddod yn gynrychiolydd yr unigolyn perthnasol. Dylai'r asesydd lles gorau drafod y rôl gynrychioliadol gyda'r bobl a gyfwelwyd fel rhan o'r asesiad.
- 4.10 Mae hyn yn creu risg y gall y broses i ddynodi cynrychiolydd gychwyn mewn achosion pan na roddir caniatâd. Ond, mae'n bwysig i'r broses gael ei chychwyn fel bod y cynrychiolydd yn ei le cyn pen y cyfnod priodol.

Sut y dylid dewis cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?

- 4.11 Dylai'r asesydd lles gorau yn gyntaf sefydlu a oes gan yr unigolyn a all gael ei amddifadu o'i ryddid y gallu i ddewis ei gynrychiolydd ei hun, ac os felly, ei wahodd i wneud hynny. Os oes gan yr unigolyn perthnasol allu a'i fod yn dewis unigolyn cymwys (yn unol â'r rheolau a nodir ym mharagraff 4.5 uchod), rhaid i'r asesydd lles gorau argymell yr unigolyn hwnnw/honno i'r corff goruchwyliol i'w b/phenodi.
- 4.12 Os oes atwrnai neu ddirprwy gyda'r awdurdod priodol, gall ddewis yr unigolyn i'w argymell fel cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol, yn amodol ar y rheolau a nodir ym mharagraff 4.5 unwaith eto, pan nad oes gan yr unigolyn perthnasol y gallu i wneud hynny. Os bydd atwrnai neu ddirprwy yn dewis unigolyn cymwys yna rhaid i'r asesydd lles gorau argymell yr unigolyn hwnnw/honno i'r corff goruchwyliol i'w b/phenodi.
- 4.13 Gwaith yr asesydd lles gorau yw cadarnhau a yw unrhyw gynrychiolydd a gynigiwyd gan yr unigolyn, atwrnai neu ddirprwy yn gymwys. Os bydd yr asesydd lles gorau yn penderfynu nad yw darpar gynrychiolydd yn gymwys, rhaid iddo/iddi hysbysu'r unigolyn a wnaeth y dewis a'i g/wahodd i wneud dewis arall.
- 4.14 Os na fydd yr unigolyn dan sylw, na'r atwrnai neu ddirprwy yn dewis unigolyn cymwys, yna rhaid i'r asesydd lles gorau ystyried a all ddynodi rhywun sy'n gymwys a all weithredu fel cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol.
- 4.15 Wrth wneud argymhelliad, bydd yr asesydd yn dymuno ystyried, a chydbwyso ffactorau fel:

- a oes gan yr unigolyn dan sylw rywun fyddai'n ei ddewis?
- a fydd y cynrychiolydd a gynigiwyd yn medru cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn?
- a yw'r unigolyn yn ymddangos fel pe bai'n ymddiried yn y cynrychiolydd arfaethedig ac yn teimlo'n gyfforddus â'r dewis?
- a fyddai'r cynrychiolydd arfaethedig yn medru cynrychioli'r unigolyn yn effeithiol?
- a yw'r cynrychiolydd arfaethedig yn debygol o gynrychioli lles gorau'r unigolyn?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr asesydd lles gorau yn medru gwirio ar yr un pryd bod yr unigolyn yn barod i fod yn gynrychiolydd.

- 4.16 Ni ddylid tybio bod rhaid i'r cynrychiolydd fod yn rhywun sy'n cefnogi amddifadu o ryddid.
- 4.17 Rhaid i'r asesydd lles gorau beidio dewis cynrychiolydd pan fydd yr unigolyn perthnasol, atwrnai neu ddirprwy yn gwrthwynebu'r dewis.
- 4.18 Os na fydd yr asesydd lles gorau yn medru argymhell unrhyw un i fod yn gynrychiolydd i'r unigolyn perthnasol, rhaid i'r asesydd hysbysu'r corff goruchwyliol yn ôl hynny. Rhaid i'r corff goruchwyliol wedyn ddynodi unigolyn cymwys i gael ei benodi yn gynrychiolydd, gan ddilyn yr amodau a nodir ym mharagraff 4.5 uchod. Ni all y corff goruchwyliol ddewis unigolyn o blith teulu, ffrindiau a gofalwyr anffurfiol yr unigolyn nad yw wedi cael ei argymhell gan yr asesydd lles gorau.
- 4.19 Gall y corff goruchwyliol dalu i'r unigolyn y maent yn ei ddewis i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Gellid comisiynu'r gwasanaeth trwy ddarparwr gwasanaethau eiriolaeth, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig cynrychiolaeth annibynnol effeithiol i'r unigolyn a amddifadwyd o'i ryddid.
- 4.20 Wrth ddewis cynrychiolydd addas i unigolyn, dylai'r corff goruchwyliol dalu sylw penodol i anghenion cyfathrebu a diwylliannol yr unigolyn perthnasol.

Sut y dylid penodi cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol?

- 4.21 Rhaid i'r corff goruchwyliol wahodd yr unigolyn a argymhellwyd gan yr asesydd lles gorau i ddod yn gynrychiolydd yr unigolyn perthnasol. Os na fydd yr asesydd lles gorau yn argymhell rhywun, yna dylai'r corff goruchwyliol wahodd yr unigolyn y mae ef wedi ei ddynodi. Os yw'r unigolyn yn barod i fod yn gynrychiolydd, rhaid i'r corff goruchwyliol ei benodi. Os bydd yr unigolyn yn gwrthod, rhaid dynodi unigolyn cymwys arall a'i wahodd i ddod yn gynrychiolydd. Rhaid i'r broses hon barhau nes penodir unigolyn cymwys.

4.22 Rhaid i benodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol gan y corff goruchwyliol fod yn ysgrifenedig, gan ddatgan y dyddiad y daw i ben, a rhaid i hynny fod am gyfnod y caniatâd safonol a roddwyd. Rhaid i'r corff goruchwyliol anfon copiâu o'r penodiad ysgrifenedig at:

- yr unigolyn a benodwyd
- yr unigolyn perthnasol
- unrhyw atwrnai neu ddirprwy i'r unigolyn perthnasol
- unrhyw EGMA sy'n ymwneud â'r achos
- pob unigolyn â diddordeb yr ymgynghorwyd â nhw gan yr asesydd lles gorau, ac
- awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol.

4.23 Rhaid i'r unigolyn a benodwyd gadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn barod i gymryd y rôl.

Sut y dylai gwaith cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol gael ei gefnogi a'i fonitro?

4.24 Mae'n bwysig i'r unigolyn fod mewn cyswllt parhaus â'i gynrychiolydd. Er mwyn cyflawni ei rôl bydd raid i'r cynrychiolydd fedru cael cyswllt wyneb yn wyneb â'r unigolyn. Mae hyn yn golygu y dylai'r cartref gofal neu ysbyty dderbyn ymweliadau gan y cynrychiolydd ar amseroedd rhesymol. Dylai manylion am bwy yw cynrychiolydd yr unigolyn gael eu cofnodi ar gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol yr unigolyn.

4.25 Dylai awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol hysbysu cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol am ffynonellau cymorth a gwybodaeth sydd ar gael i'w helpu yn ei rôl, gan gynnwys sut i gael cefnogaeth EGMA.

4.26 Os bydd y cynrychiolydd yn peidio cadw cyswllt gyda'r unigolyn perthnasol, am ba bynnag reswm, mewn gwirionedd gall yr unigolyn fethu defnyddio ei hawliau adolygu ac apelio. Oherwydd hyn, bydd angen i'r awdurdod rheoli ystyried hysbysu'r corff goruchwyliol os na fydd y cynrychiolydd yn cadw cysylltiad â'r unigolyn. Pan fydd yr awdurdod rheoli yn adolygu cynllun gofal yr unigolyn, dylai ystyried a yw'r cynrychiolydd mewn digon o gyswllt i fod yn effeithiol. Bydd cofnodion a gedwir o amllder y cyswllt yn cefnogi'r ystyriaeth hon.

4.27 Mae hwn yn fater y bydd raid i'r awdurdod rheoli arfer eu doethineb yn ei gylch. Fe all yr awdurdod rheoli ystyried y byddai'n addas codi'r mater gyda'r cynrychiolydd i gychwyn, cyn hysbysu'r corff goruchwyliol os na fydd y cynrychiolydd wedyn yn cadw cysylltiad cyson â'r unigolyn perthnasol.

Dan ba amgylchiadau y gellir dod â phenodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol i ben?

4.28 Bydd penodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol yn cael ei ddwyn i ben yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Mae'r caniatâd safonol yn dod i ben ac ni wneir cais am ganiatâd newydd, neu os gwneir cais am un, nid yw'n cael ei ganiatáu.
- Mae'r unigolyn perthnasol, os oes ganddo/ganddi'r gallu i wneud hynny, yn dewis unigolyn gwahanol fel ei g/chynrychiolydd, ac mae'r unigolyn yn gymwys ac yn barod i gymryd at y rôl.
- Mae'r atwrnai neu ddirprwy, os yw o fewn eu hawl i wneud hynny ac nad oes gan yr unigolyn perthnasol y gallu i benderfynu, yn dewis unigolyn gwahanol i fod yn gynrychiolydd, ac mae'r unigolyn yn gymwys ac yn barod i gymryd y rôl.
- Mae'r cynrychiolydd yn hysbysu'r corff goruchwyliol yn ysgrifenedig nad yw bellach yn barod neu'n gymwys i barhau yn y rôl.
- Mae'r corff goruchwyliol yn dod yn ymwybodol nad yw cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol yn cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn.
- Mae'r corff goruchwyliol yn dod yn ymwybodol nad yw cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol bellach yn gymwys.
- Mae cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol yn marw.

4.29 Os bydd y corff goruchwyliol yn ystyried nad yw'r cynrychiolydd yn cadw mewn cysylltiad, neu nad yw'n gymwys bellach, dylai gysylltu â'r cynrychiolydd i gael esboniad ar y sefyllfa cyn penderfynu a ddylid dwyn y penodiad i ben.

4.30 Pan fydd penodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol yn dod i ben, rhaid i'r corff goruchwyliol hysbysu'r cynrychiolydd, a dylent hefyd hysbysu'r unigolyn perthnasol, pob unigolyn sydd â diddordeb yr ymgynghorwyd â nhw gan yr asesydd lles gorau ac awdurdod rheoli'r ysbyty neu gartref gofal perthnasol. Dylid rhoi'r hysbysiad hwn cyn gynted ag sy'n bosibl, gan ddatgan pryd y daeth y penodiad i ben, a'r rheswm pam y digwyddodd hynny.

4.31 Pan fydd penodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol yn dod i ben ond bod yr amddifadu o ryddid cyfreithlon yn parhau, rhaid i'r corff goruchwyliol ddynodi rhywun addas fel cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol cyn gynted ag sy'n bosibl. Wrth ddewis cynrychiolydd newydd, dylai'r corff goruchwyliol ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr asesydd lles gorau. Os mai'r rheswm pam y daeth penodiad y cynrychiolydd blaenorol i ben oedd nad oedd yn gymwys mwyach, dylid cael barn y cyn-gynrychiolydd ar bwy fyddai'n medru cymryd ei le. Dylai'r unigolyn sy'n cael ei ddynodi fel yr un mwyaf addas

wedyn gael ei wahodd i dderbyn y penodiad. Dylai'r broses hon barhau nes bydd unigolyn cymwys yn barod i dderbyn y penodiad.

- 4.32 Os bydd cynrychiolydd newydd yn cael ei ddewis oherwydd bod penodiad y cynrychiolydd presennol i ddod i ben, yna bydd raid penodi unigolyn sy'n gymwys i fod yn asesydd lles gorau i wneud y dewis.

Cyfarwyddo EGMA i weithredu yn ystod caniatâd safonol pan nad oes cynrychiolydd unigolyn perthnasol ar gael

- 4.33 Bydd unigolyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid mewn sefyllfa arbennig o fregus yn ystod unrhyw fylchau ym mhenodiad cynrychiolydd unigolyn perthnasol, gan na fydd neb i gynrychioli ei fuddiannau nac i wneud cais am adolygiad ar ei ran. Dan yr amgylchiadau hyn, os nad oes unrhyw un all gefnogi a chynrychioli'r unigolyn (heblaw unigolyn sy'n ymwneud â darparu gofal a thriniaeth i'r unigolyn perthnasol fel rhan o'i swydd broffesiynol neu am dâl), rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyliol, a bydd raid iddynt roi cyfarwyddyd i EGMA i gynrychioli'r unigolyn perthnasol nes bydd cynrychiolydd newydd yn cael ei benodi.

- 4.34 Mae rôl yr EGMA yn ystod cyfnod ei benodiad yn ei hanfod yr un ag un cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol. Wedi i gynrychiolydd unigolyn perthnasol gael ei benodi, mae rôl yr EGMA yn mynd yn llai.

- 4.35 Ond, wedi i'r cynrychiolydd gael ei benodi, gall yr EGMA wneud cais eto i'r Llys Gwarchod am ganiatâd i fynd ag achos yr unigolyn perthnasol i'r Llys yng nghyswllt rhoi caniatâd safonol, ond wrth wneud hynny, rhaid i'r EGMA ystyried barn cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol. Yn yr un modd ag achosion eraill, efallai y bydd EGMA am gysylltu â'r Cyfreithiwr Swyddogol gyda ffeithiau unrhyw achos os bydd am ei herio yn gyfreithiol. Gall y Cyfreithiwr Swyddogol benderfynu gwneud cais i'r llys fel cyfaill cyfreitha. Fel arall gall yr awdurdod lleol neu'r corff GIG benderfynu gyda'r cyrff EGMA eu bod am geisio barn y llys ar y camau priodol i'w cymryd mewn achosion difrifol.

- 4.36 Ar unrhyw adeg pan na fydd gan yr unigolyn perthnasol gynrychiolydd, bydd yn arbennig o bwysig i gyrrff goruchwyliol ystyried arfer eu doethineb i gynnal adolygiad os oes unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r unigolyn.

Rhoi cyfarwyddyd i EGMA weithredu yn ystod caniatâd safonol i gefnogi'r unigolyn neu ei gynrychiolydd

- 4.37 Mae gan unigolyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid dan ganiatâd safonol a'i gynrychiolydd hawl statudol i gael EGMA. Cyfrifoldeb y corff goruchwyliol yw rhoi cyfarwyddyd i EGMA os bydd yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn gofyn

am un. Y bwriad yw darparu cefnogaeth ychwanegol i'r unigolyn neu aelod o'r teulu neu ffrind sy'n gweithredu fel ei gynrychiolydd os bydd arnynt ei angen, i ddefnyddio'r mesurau amddiffyn adolygu neu Lys Gwarchod. Os bydd gan yr unigolyn gynrychiolydd "proffesiynol" cyflogedig eisoes, ni fydd yr angen yn bodoli ac ni fydd EGMA yn cael ei ddarparu.

- 4.38 Rôl yr EGMA yw esbonio'r caniatâd iddynt, beth mae'n ei olygu, pam ei fod wedi cael ei ganiatáu, pam ei bod yn cael ei hystyried bod yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer caniatâd, pa mor hir y bydd yn para a sut i sbarduno adolygiad neu her yn y Llys Gwarchod. Gall yr EGMA ddarparu cefnogaeth ar gyfer adolygiad neu gyda chais i'r Llys er enghraifft i helpu'r unigolyn fynegi ei farn.
- 4.39 Bydd gan yr EGMA hawl i wneud cyflwyniadau i'r corff goruchwyliol ynglŷn â phennu a ddylid adolygu un o'r gofynion cymhwysu neu i roi gwybodaeth, neu wneud cyflwyniadau i unrhyw asesydd sy'n cynnal asesiad adolygu. Rhaid dweud wrth yr unigolyn a'i gynrychiolydd am y gwasanaeth EGMA a sut i wneud cais am EGMA.
- 4.40 Bydd raid i EGMA gael ei gyfarwyddo os gofynnir amdano gan yr unigolyn neu ei gynrychiolydd. Gellir gwneud cais fwy nag unwaith yn ystod cyfnod y caniatâd. Er enghraifft, gellir gofyn am gymorth ar ddechrau'r caniatâd ac wedyn yn ddiweddarach er mwyn gwneud cais am adolygiad.
- 4.41 Yn ychwanegol, os oes gan y corff goruchwyliol reswm i gredu na fydd y mesurau amddiffyn Llys Gwarchod ac adolygu yn cael eu defnyddio heb gefnogaeth EGMA, yna rhaid iddynt roi cyfarwyddyd i EGMA. Er enghraifft os yw'r corff goruchwyliol yn ymwybodol bod yr unigolyn wedi dewis cynrychiolydd y mae arno angen cymorth i gyfathrebu, dylai ystyried a oes angen EGMA.

5. Pryd ddylai caniatâd gael ei adolygu a beth sy'n digwydd pan ddaw i ben?

Ym mhob achos pan fydd unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod rheoli i fonitro'r achos yn barhaus i weld a yw amgylchiadau'r unigolyn yn newid – a all olygu nad oes angen iddo/iddi gael ei amddifadu o'i ryddid bellach.

Rhaid i'r awdurdod rheoli nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir yn y cynllun gofal ar gyfer monitro a chadarnhau dan ba amgylchiadau y bydd adolygiad yn angenrheidiol. Er enghraifft, os bydd cyflwr unigolyn yn newid yn aml, yna dylid adolygu ei sefyllfa yn amlach.

Mae'r bennod hon yn esbonio dyletswyddau awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol ynglŷn ag adolygu achosion, a beth sy'n digwydd pan fydd caniatâd yn dod i ben.

Pryd ddylai caniatâd safonol gael ei adolygu?

- 5.1 Rhaid i'r corff goruchwyliol gynnal adolygiad os gofynnir iddo wneud hynny gan yr unigolyn dan sylw, ei gynrychiolydd neu'r awdurdod rheoli, a gall hefyd gynnal adolygiad ar unrhyw adeg arall. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar pryd y gellir gwneud cais am adolygiad. Rhaid i'r corff goruchwyliol ddweud wrth yr unigolyn perthnasol, ei gynrychiolydd a'r awdurdod rheoli os bydd yn mynd i gynnal adolygiad.
- 5.2 Yn gyffredinol, y seiliau ar gyfer gwneud cais am adolygiad yw:
 - Nid yw'r unigolyn perthnasol bellach yn bodloni pob un o'r chwech o ofynion cymhwyso.
 - Mae'r unigolyn yn anghymwys oherwydd ei fod yn awr yn gwrthwynebu derbyn triniaeth iechyd meddwl yn yr ysbyty (gweler paragraffau 3.62-3.63 uchod).
 - Nid yw'r rheswm y mae'r unigolyn yn bodloni gofyn cymhwyso yn cyfateb i'r rheswm a nodir yn y caniatâd.
 - Fe fu newid yn sefyllfa'r unigolyn perthnasol, ac oherwydd y newid, byddai'n addas amrywio'r amodau y mae'r caniatâd yn amodol arnynt.
- 5.3 Dylai cofnodion pob unigolyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw adolygiadau ffurfiol y gwnaed cais amdanynt, pan gawsant eu hystyried, a'r deilliant.

5.4 Dim ond **caniatáu** amddifadu o ryddid y mae caniatâd: nid yw'n golygu bod **rhaidd** i unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid. Os bydd cartref gofal neu ysbty yn penderfynu nad oes raid amddifadu o ryddid bellach yna rhaid iddynt ei ddirwyn i ben ar unwaith, trwy addasu'r drefn gofal neu pa bynnag newid arall sy'n briodol. Dylai'r awdurdod rheoli wedyn wneud cais i'r corff goruchwyliol adolygu'r caniatâd. Tra bod yr adolygiad hwn yn digwydd, ni ddylai'r unigolyn dan sylw fod yn ddarostyngedig i amddifadu o ryddid.

Sut y dylid adolygu caniatâd safonol?

- 5.5 Pan fydd corff goruchwyliol yn derbyn cais am adolygiad, rhaid iddo yn gyntaf benderfynu pa un o'r gofynion cymhwyso y mae angen ei adolygu, os o gwbl.
- Os bydd y corff goruchwyliol yn dod i'r casgliad nad oes raid adolygu dim o'r gofynion cymhwyso, nid oes raid iddo gymryd unrhyw gamau eraill. Er enghraifft, os cynhaliwyd asesiad neu adolygiad diweddar iawn ac na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd nad yw'r unigolyn yn bodloni'r meini prawf, nac o newid, nid oes angen adolygiad.
 - Os bydd un neu fwy o'r gofynion cymhwyso yn ymddangos yn rhai y dylid eu hadolygu, rhaid i'r corff goruchwyliol drefnu asesiad adolygu ar wahân i'w gynnal yng nghyswllt pob gofyniad y dylid ei adolygu. O ran y gofyniad cymhwyster, nid yw hwn yn berthnasol oni bai bod yr unigolyn perthnasol yn gwrthwynebu bod yn glaf neu i beth neu'r cyfan o'r driniaeth iechyd meddwl y mae'n ei derbyn.

Dylai'r corff goruchwyliol gofnodi'r rhesymau am benderfyniadau a wnaed.

- 5.6 Yn gyffredinol, dylai prosesau adolygu ddilyn y broses caniatáu safonol - felly dylai cyrff goruchwyliol gynnal y prosesau asesu a amlinellir ym mhennod 3 yr adendwm hwn ar gyfer unrhyw fater sydd angen ei adolygu.
- 5.7 Pan fydd y corff goruchwyliol yn penderfynu y dylid adolygu'r gofyn lles gorau yn unig oherwydd bod rhaid newid yr amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd, ac nad yw'r cais am adolygiad yn cynnwys tystiolaeth bod newid sylweddol yn achos yr unigolyn, nid oes angen cynnal ailasesiad llawn. Gall y corff goruchwyliol amrywio'r amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd fel sy'n briodol. Wrth benderfynu a oes angen ailasesiad llawn, dylai'r corff goruchwyliol ystyried a yw'r sail ar gyfer y caniatâd, neu natur yr amodau, yn cael eu herio yn y cais am adolygiad.

Senario: penderfynu a oes angen adolygiad

Mae Louise yn 28 ac mae ganddi awtistiaeth ac anabledd dysgu. Rhoddwyd caniatâd i gartref preswyl Louise i'w hamddifadu o'i rhyddid. Un o amodau'r caniatâd yw bod Louise yn mynd yn ôl i aros gyda'i theulu unwaith yr wythnos.

Am rai misoedd fe weithiodd y trefniant hwn yn dda, ond yna dechreuodd Louise fynd yn ddigalon iawn wrth ddychwelyd i'r cartref gofal. Roedd y gofid yn parhau am ychydig ddyddiau bob tro, ac nid oedd y cartref gofal na'r teulu yn medru deall beth oedd y rheswm. Aeth y cartref yn bryderus am ei hymddygiad a phenderfynu mai'r cyswllt gyda'r teulu oedd yn peri'r gofid i Louise.

Gwnaeth y cartref gofal gais am adolygiad gan y corff goruchwyliol, gan awgrymu newid yr amodau oedd ynghlwm wrth y caniatâd, fel bod Louise yn cael mynd adref bob wythnos ond yn ystod y dydd yn hytrach nag aros dros nos, i leihau'r effaith ar ei phatrwm dyddiol. Penderfynodd y corff goruchwyliol bod hyn yn ddigon o newid i'r amodau fel bod angen asesiad lles gorau.

Bu'r asesydd lles gorau yn ymgynghori â chynrychiolydd penodedig Louise - ei mam, Francine - a phobl eraill oedd yn adnabod Louise. Credai Francine y dylai Louise gael cysgu gartref bob penwythnos o hyd. Mae Louise wedi bod yn agos iawn at ei theulu bob amser ac roedd yn glir o'r asesiad lles gorau cyntaf ei bod yn mwynhau treulio amser gyda'r teulu. Roedd aros yn y cartref teuluol yn cael ei weld yn bwysig i atgyfnerthu'r cyswllt gyda'r teulu.

Roedd yr asesydd lles gorau am gyfathrebu gyda Louise i weld os gallai ddarganfod beth oedd yn peri gofid iddi. Bu'n siarad gyda Francine a'r cartref gofal, ac ystyriodd yr wybodaeth ysgrifenedig yr oedd y cartref gofal wedi ei chyflwyno yn ystod y cais cyntaf am ganiatâd, oedd yn cynnwys anghenion cyfathrebu ac iaith Louise. Gan nad yw Louise yn cyfathrebu trwy siarad, roedd wedi gweithio gyda Therapydd Iaith a Lleferydd yn y gorffennol. Trefnodd yr asesydd lles gorau i'r therapydd gyfarfod Louise a defnyddio system gyfathrebu weledol yr oedd Louise wedi ymateb yn dda iddi yn y gorffennol. Trwy ddefnyddio'r system hon, a'i phrofiad bod Louise yn fwy cyfforddus yn cyfathrebu lle'r oedd yn medru ymlacio, yng ngardd y cartref gofal er enghraifft, llwyddodd y therapydd i ddarganfod beth oedd y rhesymau am ddigofaint Louise.

Daeth yn glir bod Louise yn ofidus am fod ei brawd yn arfer gyrru i'w dychwelyd i'r cartref ar ddiwedd yr ymweliad, ond nad oedd wedi bod yn gwneud hynny am y tair wythnos diwethaf. Wedi ymgynghori â Francine, darganfu'r asesydd lles gorau mai'r rheswm am hyn oedd bod brawd Louise wedi brifo ei figwrn. Y newid hwn yn y patrwm ar ddiwedd y penwythnos oedd wedi bod yn poeni Louise, felly fe esboniwyd iddi pam nad oedd ei brawd yn gyrru'r car -ac fe gytunodd y teulu y byddai brawd Louise yn mynd gyda hi yn ôl i'r cartref gofal nes y byddai yn medru gyrru eto.

Deilliant yr asesiad lles gorau oedd y dylai'r caniatâd a'r amodau oedd ynghlwm wrtho o'r dechrau aros heb eu newid.

- 5.8 Os bydd yr adolygiad yn ymwneud ag unrhyw ofyniad arall, neu â newid sylweddol yn sefyllfa'r unigolyn dan y gofyn lles gorau, rhaid i'r corff goruchwyliol gael asesiad newydd.
- 5.9 Os bydd yr asesiad yn dangos bod y gofyn yn dal i gael ei fodloni, yna rhaid i'r corff goruchwyliol ystyried a yw'r rheswm pam ei fod yn cael ei fodloni wedi newid ers y rheswm a nodwyd yn wreiddiol ar y caniatâd a gwneud unrhyw newidiadau addas. Yn ychwanegol, os bydd yr adolygiad yn ymwneud â'r gofyn lles gorau, rhaid i'r corff goruchwyliol ystyried a ddylid amrywio unrhyw amodau o ystyried deilliant yr asesiad.
- 5.10 Os na fydd unrhyw un o'r meini prawf yn cael eu cyflawni, yna rhaid i'r caniatâd gael ei ddirwyn i ben ar unwaith.
- 5.11 Rhaid i'r corff goruchwyliol roi rhybudd ysgrifenedig o ddeilliant yr adolygiad i'r ysbyty neu gartref gofal, yr unigolyn perthnasol, y cynrychiolydd a'r EGMA, os bydd EGMA yn ymwneud â'r achos.

Senario: y broses adolygu

Mae Jo yn 29 ac fe ddioddefodd niwed difrifol i'w hymennydd mewn damwain ar y ffordd a laddodd ei rhieni. Yn ogystal â'r anaf i'r ymennydd, mae Jo wedi colli ei chlyw yn ddifrifol, mae'n dioddef o epilepsi, ac mae'n cael anhawster mawr wrth gyfathrebu. Gall Jo fynd yn rhwystredig iawn ac mae wedi ymosod ar bobl eraill yn y cartref nyrsio annibynnol lle mae'n byw yn awr. Mae lleoliad Jo yn cael ei ariannu ar y cyd gan y GIG a'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, yn dilyn asesiad o'i anghenion. Ond, fe wnaeth geisio gadael y cartref yn gyson a mynegi ei dymuniad i fyw ar ei phen ei hun eto. Barn y sefydliad oedd yn darparu gofal i Jo oedd y byddai symudiad o'r fath yn golygu bod risg ddifrifol iddi ac y dylid ei hatal rhag gadael y cartref.

Gwnaed trefniadau i Jo gael ei hasesu dan y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid a rhoddwyd caniatâd am chwe mis.

Ni fydd y caniatâd hwnnw yn dod i ben am dri mis arall. Ond, mae Jo wedi dangos cymaint o gynnydd yn y cartref fel ei bod wedi cael cymorth i wneud cais am adolygiad. Mae'r cais am adolygiad ar ffurf llythyr gyda lluniau, a baratowyd gan Jo, gyda chymorth staff y cartref gofal. Mae'r lluniau yn disgrifio rhwystredigaeth Jo gyda'r prosesau cyfreithiol sy'n ei hatal rhag symud. Mae'r corff sy'n darparu gofal Jo ar hyn o bryd o'r farn y gellid ymdrin

â'i hanghenion yn well yn awr petai'n medru symud. Mae lleoliad adsefydlu addas wedi cael ei ddarganfod a'i drafod gyda hi.

Mae'r corff goruchwyliol yn dyrannu gweithiwr cymdeithasol i ddwyn yr adolygiad ymlaen. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn cysylltu â'r eiriolwr a benodwyd fel cynrychiolydd Jo ac yn gwirio pa un o'r gofynion cymhwyso sy'n rhaid ei adolygu a gan bwy. Mae'r gweithiwr cymdeithasol wedyn yn cydlynu'r broses adolygu gyffredinol, cyn argymhell yn ffurfiol yn ôl i'r corff goruchwyliol y dylai'r caniatâd ddod i ben.

Wedyn mae copi o gynllun gofal wedi ei ddiwygio a'i gytuno i gefnogi Jo i fyw'n fwy annibynnol yn cael ei roi i Jo.

Atal caniatâd am gyfnod byr

5.12 Mae trefniadau adolygu ar wahân mewn achosion lle mae'r gofyn cymhwyso yn peidio cael ei fodloni am gyfnod byr o amser am resymau heblaw bod yr unigolyn yn gwrthwynebu bod yn glaf neu beth neu'r cyfan o'i driniaeth iechyd meddwl. Er enghraifft, os bydd yr unigolyn perthnasol yn cael ei gadw fel claf mewnol mewn ysbyty dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yna rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyliol, a fydd yn gohirio'r caniatâd.

Yna:

- os bydd yr unigolyn yn dod yn gymwys eto cyn pen 28 diwrnod, rhaid i'r awdurdod rheoli hysbysu'r corff goruchwyliol a fydd yn cael gwared â'r ataliad.
- os na roddir rhybudd o'r fath, ar ddiwedd y cyfnod 28 diwrnod bydd y caniatâd yn peidio bod mewn grym.

5.13 Os bydd y claf yn peidio bodloni'r gofyn cymhwyso oherwydd ei fod yn dechrau gwrthwynebu bod yn yr ysbyty ar gyfer triniaeth i anhwylder meddyliol, dylid dechrau ar y gweithdrefnau adolygu ar unwaith (gweler paragraff 5.2 uchod).

Beth sy'n digwydd pan fydd caniatâd yn dod i ben?

5.14 Pan fydd caniatâd yn dod i ben, ni all yr awdurdod rheoli barhau yn gyfreithlon i amddifadu unigolyn o'i ryddid.

5.15 Os bydd yr awdurdod rheoli yn ystyried y bydd ar unigolyn angen ei amddifadu o'i ryddid o hyd wedi i'r caniatâd ddod i ben, rhaid iddo wneud cais am ganiatâd safonol arall i gychwyn yn syth wedi i'r caniatâd cyfredol ddod i ben.

- 5.16 Nid oes cyfyngiad amser penodedig ar faint cyn i un caniatâd ddod i ben y gellir gwneud cais am adnewyddu caniatâd. Bydd raid iddo fod ddigon ymlaen llaw i'r caniatâd adnewyddol gael ei roi cyn i'r caniatâd cyfredol ddod i ben.
- 5.17 Dylai awdurdodau rheoli gadw mewn cof y gall ceisiadau am asesiadau o ofynion cymhwyso a wneir yn rhy bell ymlaen llaw olygu na all asesydd wneud asesiad cywir o beth fydd amgylchiadau'r unigolyn erbyn y bydd y caniatâd adnewyddol i fod i ddod i rym.
- 5.18 Wedi iddi gychwyn, mae'r broses o adnewyddu caniatâd safonol yn sylfaenol yr un â'r un i gael caniatâd yn wreiddiol, gyda'r un prosesau asesu yn gorfod digwydd. Ond ni fydd yr angen i gyfarwyddo EGMA fel arfer yn codi oherwydd bydd y rhan fwyaf o bobl ar y cyfnod hwn eisoes ag unigolyn wedi ei benodi i gynrychioli eu buddiannau.
- 5.19 Pan fydd caniatâd safonol yn dod i ben, rhaid i'r corff goruchwyliol hysbysu'r unigolyn a'i gynrychiolydd, y cartref gofal neu ysbyty a phob unigolyn â diddordeb yr ymgynghorwyd â nhw gan yr asesydd lles gorau yn ysgrifenedig.

6. Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn meddwl bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb ganiatâd?

Mae amddifadu rhywun sydd heb y gallu i gydsynio o'i ryddid heb ganiatâd yn fater difrifol. Os bydd unrhyw un yn credu bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb ganiatâd, dylai godi hyn gyda'r awdurdodau perthnasol fel sy'n cael ei ddisgrifio yn fanylach isod.

Os deuir i'r casgliad bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon, fel arfer bydd hyn yn arwain at newid yn y trefniadau gofal, neu mewn cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid.

Mae'r bennod hon yn esbonio'r broses ar gyfer adrodd ar bryderon ac ar gyfer ymchwiliadau.

Pa gamau ddylai rywun eu cymryd os bydd yn meddwl bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb ganiatâd?

- 6.1 Os bydd unigolyn ei hun, unrhyw berthynas, ffrind neu ofalwr neu unrhyw drydydd parti (fel unigolyn sy'n cynnal ymweliad arolygu neu aelod o gorff eiriolaeth) yn credu bod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb i'r awdurdod rheoli wneud cais am ganiatâd, dylent dynnu hyn at sylw'r awdurdod rheoli, gan ofyn iddynt wneud cais am ganiatâd. O ystyried difrifoldeb amddifadu o ryddid, fel arfer byddai disgwyl i awdurdod rheoli ymateb cyn pen 24 awr.
- 6.2 Os bydd yr unigolyn sy'n bryderus wedi gwneud hyn, ond nad yw'r awdurdod rheoli wedi gwneud cais am ganiatâd cyn pen cyfnod rhesymol, mae gan yr unigolyn sy'n pryderu hawl i ofyn i'r corff goruchwyliol benderfynu a oes amddifadu o ryddid heb ganiatâd. Dylent ddweud wrth y corff goruchwyliol beth yw enw'r unigolyn y maent yn bryderus amdano/amdani ac enw'r ysbyty neu gartref gofal a, cyn belled ag y maent yn gallu, esbonio pam eu bod yn meddwl bod yr unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

6.3 Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r corff goruchwyliol ddewis a phenodi unigolyn a fyddai'n addas a chymwys i gynnal asesiad lles gorau i ymchwilio a yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid.

6.4 Yr eithriad i hyn yw os bydd y corff goruchwyliol yn credu bod:

- y pryder sydd gan yr unigolyn yn wamal neu flinderus (er enghraifft, pan fydd yn amlwg iawn nad yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid) neu pan fydd asesiad diweddar iawn wedi cael ei gynnal a bod ceisiadau'n cael eu gwneud yn aml, neu
- bod penderfyniad ar y cwestiwn a oes amddifadu o ryddid heb ganiatâd neu beidio wedi ei wneud eisoes, ac ers y penderfyniad hwnnw, na fu newid yn yr amgylchiadau a fyddai'n gofyn am benderfynu eto.

Dylai'r corff goruchwyliol gofnodi'r rhesymau am eu penderfyniadau.

6.5 Rhaid i'r corff goruchwyliol hysbysu'r unigolyn a fynegodd bryder, yr unigolyn perthnasol, yr awdurdod rheoli ar gyfer yr ysbyty neu gartref gofal perthnasol ac unrhyw EGMA a benodwyd:

- bod cais iddo asesu a oes amddifadu o ryddid heb ganiatâd neu beidio
- a yw wedi penderfynu comisiynu asesiad, a
- phan fydd hynny yn berthnasol, pwy sydd wedi ei benodi yn asesydd.

Sut bydd yr asesiad yn cael ei gynnal?

6.6 Pan fydd asesiad i benderfynu a oes amddifadu o ryddid anghyfreithlon yn angenrheidiol, rhaid ei gynnal cyn pen saith niwrnod.

6.7 Rhaid i'r unigolyn a enwebir i gynnal yr asesiad ymgynghori â'r awdurdod rheoli ar gyfer yr ysbyty neu gartref gofal perthnasol, ac archwilio unrhyw asesiadau angen perthnasol a chynlluniau gofal i ystyried a ydynt yn cyfateb i amddifadu o ryddid. Byddant hefyd yn siarad â'r unigolyn a fynegodd y pryder ynglŷn â pham y maent yn credu bod yr unigolyn perthnasol yn cael ei amddifadu o'i ryddid ac ymgynghori, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, gyda theulu a ffrindiau'r unigolyn perthnasol. Os nad oes neb sy'n addas i ymgynghori â nhw ymhlith y teulu a'r ffrindiau, dylai hysbysu'r corff goruchwyliol a bydd raid iddo drefnu i EGMA gael ei gyfarwyddo i gefnogi a chynrychioli'r unigolyn.

Beth sy'n digwydd wedi i'r asesiad gael ei gynnal?

6.8 Mae tri deilliant posibl i asesiad. Gall yr asesydd ddod i'r casgliad:

- nad yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid.
- mae'r unigolyn yn cael ei amddifadu yn gyfreithlon o'i ryddid oherwydd bod caniatâd yn bodoli. (Ond mae hyn yn annhebygol o ddigwydd gan y dylai'r corff goruchwyliol fod yn ymwybodol a oes caniatâd yn bodoli neu beidio,

gan wneud unrhyw asesiad fel ymateb i gais gan drydydd parti yn ddiangen.)

- mae'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid yn anghyfreithlon.

6.9 Rhaid i'r corff goruchwyliol hysbysu'r trydydd parti a wnaeth y cais, yr unigolyn perthnasol, yr awdurdod rheoli ar gyfer yr ysbyty neu gartref gofal perthnasol ac unrhyw EGMA a benodwyd o ddeiliant yr asesiad.

6.10 Os mai deiliant yr ymchwiliad yw bod amddifadu o ryddid heb ganiatâd yn digwydd yna dylid cwblhau'r broses asesu lawn fel petai cais wedi ei wneud am ganiatâd i amddifadu o ryddid.

6.11 Os bydd yr awdurdod rheoli yn ystyried y dylai'r drefn ofal barhau tra bydd yr asesiadau'n cael eu cynnal, bydd yn ofynnol iddo roi caniatâd brys ac i gael y caniatâd safonol mewn saith niwrnod. Rhaid i'r awdurdod rheoli gyflenwi'r corff goruchwyliol â'r wybodaeth y byddai'n rhaid i'r awdurdod rheoli fod wedi ei chynnwys mewn cais am ganiatâd safonol.

6.12 Os na fydd yr unigolyn sy'n pryderu yn derbyn deiliant ei gais am asesiad gall wneud cais i'r Llys Gwarchod glywed yr achos. Gweler pennod 7 am ragor o fanylion am rôl y Llys Gwarchod.

7. Beth yw'r Llys Gwarchod a phryd y gall pobl wneud cais iddo?

Er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 5(4) yr ECHR, mae'n angenrheidiol darparu'r hawl i unrhyw un sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid yn unol â'r mesurau amddiffyn a ddisgrifir yn y Cod hwn i gael mynediad cyflym i lys er mwyn adolygu cyfreithlondeb yr amddifadiad o ryddid. Y Llys Gwarchod, a sefydlwyd gan Ddeddf Gallu Meddyliol 2005, yw'r llys ar gyfer hyn. Mae Pennod 8 o'r prif god yn darparu rhagor o fanylion ar ei rôl, pwerau a chyfrifoldebau.

Pryd all pobl wneud cais i'r Llys Gwarchod ynglŷn â'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid?

- 7.1 Gall yr unigolyn perthnasol, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, wneud cais i'r Llys Gwarchod cyn y gellir gwneud penderfyniad ar gais am ganiatâd. Gall cais o'r fath i lys geisio datganiad a oes gan yr unigolyn perthnasol allu meddyliol, neu a yw gweithred a wnaed neu y bwriedir ei gwneud yng nghyswllt yr unigolyn yn gyfreithlon (gall hyn gynnwys a yw'r weithred er lles gorau'r unigolyn perthnasol). Y Llys Gwarchod sydd i benderfynu a ddylent ystyried cais o'r fath neu beidio. Dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys pryderon am y broses asesu yn anffurfiol neu trwy weithdrefn gwyno'r corff cwynion.
- 7.2 Wedi i ganiatâd safonol gael ei roi, mae gan yr unigolyn perthnasol neu ei gynrychiolydd yr hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod benderfynu ar unrhyw gwestiwn parthed y materion canlynol:
 - a yw'r unigolyn perthnasol yn bodloni un neu fwy o'r gofynion cymhwyso
 - y cyfnod y mae'r caniatâd safonol i fod mewn grym
 - y diben y mae'r caniatâd safonol yn mynd i gael ei roi ar ei gyfer
 - yr amodau y mae'r caniatâd safonol yn ddarostyngedig iddynt.
- 7.3 Pan fydd caniatâd brys wedi ei roi, mae gan yr unigolyn perthnasol neu unrhyw unigolyn arall sy'n gweithredu ar ei ran ef neu hi'r hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod i benderfynu ar unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r materion canlynol:
 - a ddylai caniatâd brys fod wedi cael ei roi
 - y cyfnod y mae'r caniatâd brys i fod mewn grym
 - y diben y rhoddwyd y caniatâd brys ar ei gyfer.

7.4 Pan fydd caniatâd safonol neu frys wedi ei roi, gall unrhyw unigolyn arall hefyd wneud cais i'r Llys Gwarchod am hawl i fynd ag achos yr unigolyn perthnasol i'r Llys i benderfynu a ddylid fod wedi rhoi'r caniatâd. Ond, y Llys Gwarchod sydd i benderfynu a ddylid ystyried cais gan y bobl hyn neu beidio. Fel y nodwyd uchod, mae gan yr unigolyn perthnasol a'i gynrychiolydd yr hawl i wneud cais i'r Llys Gwarchod ac nid oes raid iddynt wneud cais am hawl i wneud hynny.

Pa orchmynion all y Llys Gwarchod eu gwneud?

7.5 Gall y Llys wneud gorchymyn:

- sy'n amrywio neu'n dirwyn caniatâd safonol neu frys i ben
- i gyfarwyddo'r corff goruchwyliol (yn achos caniatâd safonol) neu'r awdurdod rheoli (yn achos caniatâd brys) i amrywio neu ddirwyn y caniatâd i ben.

Fel yr esboniwyd ym mharagraff 1.23, ni fydd yn gyfreithlon amddifadu rhywun o'i ryddid mewn manau heblaw ysbyty neu gartref gofal cofrestredig heblaw wrth ddilyn gorchymyn gan y Llys Gwarchod mewn mater lles personol.

8. Sut fydd y mesurau amddiffyn yn cael eu monitro?

- 8.1 Bydd y rheoliadau¹¹ yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am broses arolygu gweithrediad y mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn Lloegr ar y rheoleiddiwr newydd a grëwyd trwy uno'r arolygiaethau oedd yn bodoli, y Comisiwn dros Arolygu Gofal Cymdeithasol, y Comisiwn Gofal Iechyd a'r Comisiwn Deddf Iechyd Meddwl. Bydd y corff newydd yn cael ei sefydlu yn ystod 2008, yn amodol ar dderbyn deddfwriaeth a disgwylir i'r rheoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol newydd fod yn weithredol yn llawn erbyn 2009/10.
- 8.2 I grynhoi, disgwylir i'r corff arolygu ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai yn Lloegr (bydd Cymru yn datblygu ei phrosesau monitro ei hun):
- fonitro'r modd y mae mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid yn cael eu gweithredu gan awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol trwy ymweld ag ysbytai a chartrefi gofal yn unol â'r rhaglen ymweld gyfredol cyfweld pobl sy'n cael eu cartrefu mewn ysbytai a chartrefi gofal i'r graddau y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny, a gofyn am gael gweld ac arolygu cofnodion perthnasol.
 - roi adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn crynhoi ei weithgareddau a'u canfyddiadau am weithredu'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid.
- 8.3 Bydd gan y corff arolygu'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyrrff goruchwyliol ac awdurdodau rheoli ysbytai neu gartrefi gofal ddatgelu gwybodaeth iddynt.
- 8.4 Bydd y broses arolygu yn trafod a yw:
- y broses mesurau amddiffyn yn gweithio'n briodol o un pen i'r llall, i amlygu achlysuron pan nad yw'n gweithio ac argymell camau i ddatrys hynny. Yna, bydd yn gwirio bod camau i ddatrys wedi cael eu cymryd a'u bod yn effeithiol.

¹¹ Ymgynghorir ar y rheoliadau drafft i Loegr yn ddiweddarach.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sut y byddant yn defnyddio eu pwerau i greu rheoliadau ar gyfer Cymru ar hyn o bryd a bydd y manylion yn cael eu cynnwys pan benderfynir arnynt.

- y darpariaethau amddifadu o ryddid wedi cael eu gweithredu'n gywir ac yn unol â'r cyfarwyddyd yn y Cod Ymarfer mewn achosion pan fydd cais wedi ei wneud am ganiatâd.
- y cyfarwyddyd yn y Cod Ymarfer ar ddynodi'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hamddifadu o'u rhyddid, ac ar osgoi amddifadu o ryddid yn cael ei gadw.
- yr amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd, a gofynion i ofyn am adolygiadau os bydd amgylchiadau'n newid yn cael eu cadw.
- camau priodol yn cael eu cymryd mewn achosion pan fydd caniatâd wedi cael ei wrthod.

8.5 Ni fydd y broses arolygu yn cynnwys:

- triniaeth a gofal heblaw pan fydd yn gysylltiedig ag amddifadu o ryddid
- ailymweld ag asesiadau unigol (heblaw trwy swm cyfyngedig o samplo).

8.6 Ni fydd y broses arolygu yn cyfateb i broses adolygu neu apelio wahanol. Ond petai corff arolygu yn dod ar draws achos lle maent yn credu y gall amddifadu o ryddid fod yn digwydd heb ganiatâd, gallant gychwyn cais trydydd parti gyda'r corff goruchwyliol yn yr un ffordd ag y gallai unrhyw drydydd parti arall ei wneud.

8.7 Bydd y corff arolygu yn edrych ar y protocolau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle. Y nod yw defnyddio samplau bach i werthuso effaith y protocolau a gweithdrefnau hyn ar achosion unigol. Y disgwyl yw y bydd y monitro hwn yn digwydd ar adeg pan fydd y corff monitro yn ymweld â'r cartref gofal neu ysbyty fel rhan o weithrediadau arferol, nid fel eithriad.

8.8 Dylai cyrff goruchwyliol ac awdurdodau rheoli gadw eu protocolau a gweithdrefnau dan adolygiad a dylai cyrff goruchwyliol asesu natur y caniatâd y maent yn eu rhoi yng ngoleuni'r boblogaeth leol. Gall y wybodaeth hon fod yn berthnasol i benderfyniadau polisi am gomisiynu gofal a chefnogaeth.

Rhestrau gwirio

Pwyntiau allweddol i gartrefi gofal ac ysbytai (awdurdodau rheoli)

Wrth weithredu'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid, dylai awdurdodau rheoli fod yn arbennig o ymwybodol o'r pwyntiau allweddol canlynol.

- Rhaid i awdurdodau rheoli ymgorffori ystyriaeth a oes gan unigolyn allu i gydsynio i'r gwasanaethau sydd i'w darparu iddo ac a yw eu gweithredoedd yn debygol o arwain at amddifadu o ryddid yn eu prosesau cynllunio.
- Rhaid i awdurdod rheoli, heblaw mewn sefyllfa frys, beidio amddifadu unigolyn o'i ryddid oni bai bod caniatâd safonol parthed cyfnod yr unigolyn yn yr ysbyty neu gartref gofal hwnnw wedi cael ei roi gan y corff goruchwyliol, a bod y caniatâd yn parhau mewn grym.
- Yr awdurdod rheoli sydd i wneud cais am ganiatâd o'r fath a gweithredu'r deilliannau.
- Dylid cael caniatâd gan y corff goruchwyliol cyn unrhyw amddifadu o ryddid, heblaw mewn amgylchiadau lle bydd yn cael ei ystyried yn fater brys i'r amddifadu o ryddid gychwyn ar unwaith. Mewn achosion o'r fath, rhaid cael caniatâd cyn pen saith niwrnod o gychwyn yr amddifadu o ryddid.
- Rhaid i awdurdod rheoli sicrhau bod unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd yn cael eu cadw.
- Rhaid i awdurdod rheoli fonitro a yw cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol yn cadw cysylltiad cyson â'r unigolyn perthnasol.
- Ni ddylid ceisio caniatâd i amddifadu o ryddid os nad yw'n wirioneddol angenrheidiol i unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid er ei les gorau er mwyn ei gadw'n ddiogel. Nid yw'n angenrheidiol gwneud cais am ganiatâd ar gyfer pawb sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty a chartrefi gofal oherwydd nad oes gan yr unigolyn dan sylw'r gallu i benderfynu a ddylai gael ei dderbyn neu beidio.

Pwyntiau allweddol i awdurdodau lleol a chyrrff GIG (cyrrff goruchwyliol)

Wrth weithredu'r mesurau amddiffyn amddifadu o ryddid, dylai cyrrff goruchwyliol fod yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Byddant yn derbyn ceisiadau gan awdurdodau rheoli am ganiatâd safonol i amddifadu o ryddid.
- Bydd raid i gyrrff goruchwyliol sicrhau bod digon o aseswyr ar gael i fodloni anghenion y rhai yn eu hardal a bod ganddynt y sgiliau, cymwysterau a hyfforddiant i gyflawni'r gwaith
- Cyn y gellir rhoi caniatâd i amddifadu o ryddid, rhaid i'r corff goruchwyliol fod wedi cael asesiadau ysgrifenedig ar gyfer yr unigolyn perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r meini prawf gofynnol (gan gynnwys bod yr amddifadu o ryddid yn angenrheidiol i'w warchod rhag niwed ac y bydd er ei les gorau).
- Ni ellir rhoi caniatâd oni bai bod yr aseswyr yn argymhell hynny.
- Wrth roi caniatâd, mae'n rhaid i'r corff goruchwyliol nodi ei hyd, ac ni all fod yn hwy na deuddeng mis ac ni all fod am fwy na'r hyn a argymhellwyd gan yr asesydd lles gorau. Ni ddylai amddifadu o ryddid barhau am fwy nag sy'n angenrheidiol.
- Gall y corff goruchwyliol roi amodau ynghlwm wrth y caniatâd os bydd yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.
- Rhaid i'r corff goruchwyliol roi rhybudd ysgrifenedig i bobl benodol a hysbysu pobl benodol am y penderfyniad.
- Rhaid i'r corff goruchwyliol benodi cynrychiolydd unigolyn perthnasol i gynrychioli buddiannau pob unigolyn y maent yn rhoi caniatâd safonol i amddifadu o ryddid ar ei gyfer.
- Ar unrhyw adeg pan fydd caniatâd mewn grym, mae gan yr unigolyn perthnasol, cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol neu unrhyw EGMA sy'n cynrychioli'r unigolyn, yr hawl i ofyn i'r caniatâd gael ei adolygu gan y corff goruchwyliol.

Pwyntiau allweddol i awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol

Yn ychwanegol at yr uchod, dylai awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol fel ei gilydd fod yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Gall caniatâd barhau am uchafswm o 12 mis.
- Rhaid ymgynghori ag unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am yr unigolyn, unrhyw un y mae'r unigolyn yn ei enwi fel unigolyn i ymgynghori ag ef/hi, ac unrhyw un sydd â diddordeb yn lles yr unigolyn wrth wneud penderfyniadau.
- Cyn i gyfnod y caniatâd cyfredol ddod i ben, gall yr awdurdod rheoli geisio caniatâd newydd am hyd at ddeuddeng mis arall ar yr amod ei bod yn cael ei sefydlu, ar sail asesiad arall, bod y meini prawf perthnasol yn dal i gael eu bodloni.
- Dylai'r caniatâd gael ei adolygu, ac os yw'n briodol ei ddiddymu, cyn iddo ddod i ben os oes newid sylweddol yn amgylchiadau unigolyn. I'r diben hwn, bydd yn ofynnol i'r awdurdod rheoli sicrhau bod parhau i amddifadu unigolyn o'i ryddid yn angenrheidiol a phriodol.
- Gall penderfyniad i amddifadu unigolyn o'i ryddid gael ei herio gan yr unigolyn perthnasol, neu gan gynrychiolydd yr unigolyn perthnasol, trwy gais i'r Llys Gwarchod, heb ofyn am hawl i wneud hynny. Ond dylai awdurdodau rheoli a chyrrff goruchwyliol bob amser fod yn barod i geisio datrys anghydfod yn lleol ac anffurfiol. Ni ddylai neb gael ei orfodi i wneud cais i'r Llys oherwydd amharodrwydd ar ran awdurdod rheoli neu gorff goruchwyliol i gymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol.
- Mewn achos lle mae cwestiwn a oes gan awdurdod rheoli ganiatâd i amddifadu unigolyn o'i ryddid, bydd yr amddifadiad yn gyfreithlon pan fydd yn angenrheidiol:
 - i'r diben o roi triniaeth fydd yn cynnal ei fywyd i'r unigolyn, neu i atal dirywiad difrifol yn ei gyflwrtra bydd penderfyniad o ran unrhyw faterion perthnasol yn cael ei geisio gan y llys.
- Dylai'r broses gyfan o asesu a chaniatáu amddifadu o ryddid gael ei chofnodi'n glir, a'i monitro a'i harchwilio yn gyson, fel rhan o strwythur rheoli sefydliad.

- Dylai gwybodaeth reoli gael ei chofnodi a'i chadw, a'i defnyddio i fesur effeithiolrwydd y prosesau amddifadu o ryddid. Bydd raid i'r wybodaeth hon hefyd gael ei rhannu gyda'r cyrff arolygu.

Atodiad A: Beth ddylai awdurdod rheoli ei ystyried cyn gwneud cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid?

Beth ddylai awdurdod rheoli ei ystyried cyn gwneud cais am ganiatâd i amddifadu o ryddid?

Mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol wrth dderbyn **ac** wrth adolygu gofal cleifion a phreswylwyr.

Trwy ystyried y cwestiynau canlynol yn y drefn ganlynol bydd yn gymorth i awdurdod rheoli wybod a oes angen cais am ganiatâd.

1. Ydy'r unigolyn heb y gallu i gydsynio i aros yn y cartref gofal cofrestredig neu ysbyty er mwyn derbyn y gofal neu driniaeth angenrheidiol i'w cadw rhag niwed?

Nag ydy – ni ellir gwneud cais gan fod y gallu ganddynt i gytuno neu wrthod y gofal arfaethedig. Dylid cefnogi'r unigolyn i wneud ei benderfyniad ei hun, a diwygio'r cynllun gofal o ganlyniad. Os ymddengys bod angen triniaeth at anhwylder meddwl ar unigolyn ond nid yw'n cydsynio a'i fod yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cadw dan orchymyn y Ddeddf Lechyd Meddwl, gellir ystyried gwneud cais dan y Ddeddf honno.

Nag ydy – nid oes angen cais. Dylid ail ystyried y

Ydy – gall fod angen cais

2. Ydy'r unigolyn sydd heb y gallu dan risg o gael ei amddifadu o ryddid yn awr neu o fewn y 28 diwrnod nesaf?

Ydy – gall fod angen cais

3. All yr unigolyn dderbyn y gofal neu driniaeth arfaethedig drwy ddewis arall llai cyfyngol ond yn dal yn effeithiol yn hytrach na'i amddifadu o'i ryddid?

Na all - gall fod angen cais

Gall – ni ellir gwneud cais. Bydd angen adolygu'r cynllun gofal yn fuan a gwneud trefniadau eraill os oes angen i sicrhau nad yw amddifadu heb ganiatâd yn dechrau na pharhau a bod y gofal neu driniaeth yn cael ei ddarparu drwy ddewis arall llai cyfyngol all olygu symud neu drosglwyddo i gyfleuster arall.

4. Ydy'r unigolyn yn 18 oed neu hŷn (neu'n mynd i fod yn 18 o fewn y 28 diwrnod nesaf)?

Ydy – gall fod angen cais

Nag ydy – ni ellir gwneud cais ond efallai y byddwch angen ystyried defnyddio Deddf Plant 1989, neu os bydd yr unigolyn angen triniaeth am anhwylder meddwl ac yn ymddangos ei fod yn cwrdd â gofynion cadw dan orchymyn y Ddeddf Lechyd Meddwl, gellid ystyried cais dan y Ddeddf honno os ydych chi'n briodol.

5. Ydy'r unigolyn yn ddarostyngedig i unrhyw rai o bwerau Deddf Lechyd Meddwl 1983 mewn modd fyddai'n golygu ei fod yn anghymwys i gael ei amddifadu o ryddid dan y Ddeddf Gallu Meddyliol?

Ydy – ni ellir gwneud cais. Dylid defnyddio'r bwerau berthnasol

Nag ydy – gall fod angen cais

Ydy – dylai'r awdurdod rheoli ei hun ganiatáu caniatâd brys a gwneud cais am ganiatâd safonol i'r corff goruchwyliol – i awdurdod lleol yn achos cartref gofal cofrestredig neu i Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd yn achos ysbyty..

9. Ydy hi'n angenrheidiol i'r amddifadu o ryddid ddechrau ar unwaith er lles gorau'r unigolyn?

Nag ydy – mae angen i'r awdurdod rheoli wneud cais am ganiatâd safonol i'r corff goruchwyliol – i awdurdod lleol yn achos cartref gofal cofrestredig ac i Ymddiriedolaeth Gofal Cynradd yn achos vsbvtv

Nag ydy - mae angen cais.

Ydy – ni ellir gwneud cais. Bydd angen adolygu'r cynllun gofal yn fuan a gwneud trefniadau eraill os oes angen i sicrhau nad yw amddifadu o ryddid heb ganiatâd yn dechrau na pharhau. Os yw'n ymddangos ei fod yn cwrdd â meini prawf cadw dan orchymyn y Ddeddf Lechyd Meddwl gellir ystyried cais dan y Ddeddf honno.

8. Ydy atwrnai neu ddirprwy yr unigolyn, sydd â'r awdurdod i wneud hynny, wedi dangos ar eu rhan y bydd yn gwrthod mynd i mewn (neu aros) yn yr ysbyty neu gartref gofal neu'n gwrthod peth neu'r cyfan o'r driniaeth arfaethedig?

7. Ydy'r amddifadu o ryddid arfaethedig yn rhannol o leiaf i ddiben triniaeth ar gyfer anhwylder meddwl mewn ysbyty neu ydy'r unigolyn yn gwrthwynebu mynd i mewn (neu aros) i'r ysbyty ac neu'n gwrthwynebu'r driniaeth arfaethedig? ac ydy'r unigolyn yn cwrdd â'r meini prawf i'w gadw dan adran 2 neu 3 y Ddeddf Lechyd Meddwl yn lle hynny?

Ydy (i'r ddau gwestiwn) – ni ellir gwneud cais (os nad yw atwrnai neu ddirprwy wedi cydsynio ar ran yr unigolyn i'r pethau y mae'r unigolyn yn eu gwrthwynebu.)

Na (i'r naill gwestiwn neu'r llall)

6. Ydy'r amddifadu o ryddid arfaethedig, yn rhannol o leiaf, er mwyn darparu triniaeth, ac ydy'r unigolyn wedi gwneud penderfyniad dilys a pherthnasol ymlaen llaw i wrthod y driniaeth honno?

Nag ydy – gall fod angen cais

Ydy – ni ellir gwneud cais. Bydd angen adolygu'r cynllun gofal yn fuan a gwneud trefniadau eraill os oes angen i sicrhau nad yw amddifadu o ryddid heb ganiatâd yn dechrau na pharhau. Os yw'n ymddangos eu bod yn cwrdd â meini prawf cadw dan orchymyn y Ddeddf Lechyd Meddwl gellid cychwyn cais dan y Ddeddf honno.

Diffiniad o allu: y gallu i wneud penderfyniad ynglŷn â mater arbennig ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad.